Rhif ymchwil gymdeithasol: 35/2026

Dyddiad cyhoeddi: 17/03/2026

# Adolygiad o'r gwersi a ddysgwyd yn ystod Rhaglen Trawsnewid ac Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg

This document is also available in Welsh.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83745-135-7

Adolygiad o'r gwersi a ddysgwyd yn ystod Rhaglen Trawsnewid ac Integreiddio’r Blynyddoedd Cynnar

Awduron: Hannah Smith, Sophie Findlay, Anna Folland

Adroddiad Ymchwil Llawn: Smith, H, Findlay, S, Folland, A. (2026). Adolygiad o'r gwersi a ddysgwyd yn ystod Rhaglen Trawsnewid ac Integreiddio’r Blynyddoedd Cynnar. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 35/2026

Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/rhaglen-trawsnewid-ac-integreiddior-blynyddoedd-cynnar-gwersi-ddysgwyd

Barn yr ymchwilwyr yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd safbwyntiau Llywodraeth Cymru.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

Rhaglen Ymchwil Fewnol

Adran Ymchwil a Gwybodaeth Gymdeithasol

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

RhYF.IRP@llyw.cymru

# Tabl cynnwys

Rhestr termau .......... 5
1. Cyflwyniad a chefndir .......... 7
1.1. Cefndir y rhaglen integreiddio .......... 7
1.2. Nodau, amcanion a chanlyniadau arfaethedig y rhaglen integreiddio .......... 8
1.3. Nodau ac amcanion ymchwil .......... 10
1.3.1. Nod un .......... 10
1.3.2. Nod dau .......... 10
1.3.3. Nod tri .......... 10
2. Methodoleg .......... 11
2.1. Adolygu dogfennau cefndir .......... 11
2.2. Adolygiad o ddogfennau .......... 11
2.2.1. Samplu dogfennau, Chwefror 2025 .......... 11
2.2.2. Dadansoddiad o ddogfennau, Mawrth i Awst 2025 .......... 12
2.2.3. Ystyriaethau methodolegol ar gyfer yr adolygiad o ddogfennau .......... 12
2.3. Grwpiau ffocws gyda braenarwyr .......... 13
2.3.1. Cynnal y grwpiau ffocws .......... 14
2.3.2. Dadansoddiad o'r grwpiau ffocws .......... 14
2.3.3. Ystyriaethau methodolegol ar gyfer y grwpiau ffocws .......... 14
3. Canfyddiadau: adolygiad o ddogfennau .......... 15
3.1. Cyd-destun .......... 15
3.1.1. Anghenion heb eu diwallu .......... 15
3.1.2. Pandemig COVID-19 .......... 16
3.1.3. Argyfwng costau byw .......... 17
3.1.4. Capasiti yn y sector cyhoeddus .......... 17
3.1.5. Ansawdd gwasanaethau anghyson a mynediad atynt .......... 17
3.1.6. Integreiddio .......... 18
3.1.7. Ffyrdd o weithio .......... 18
3.1.8. Ymgysylltu â theuluoedd .......... 18
3.2. Canlyniadau arfaethedig .......... 19
3.2.1. Gwell canlyniadau i blant .......... 19
3.2.2. Cymorth cynhwysfawr i rieni a gofalwyr .......... 19
3.2.3. Cydweithredu aml-asiantaeth .......... 19

3.2.4. Datblygiad parhaus y gweithlu ..... 19
3.2.5. System blynyddoedd cynnar hygyrch ..... 20
3.2.6. System blynyddoedd cynnar ymatebol ..... 20
3.2.7. System blynyddoedd cynnar gynaliadwy ..... 20
3.2.8. Gwell gallu o ran data ..... 20
3.2.9. Alinio blaenoriaethau blynyddoedd cynnar ..... 20
3.2.10. Llywodraethu effeithiol ..... 21
3.3. Datblygu rhaglenni ..... 21
3.3.1. Dulliau ..... 21
3.3.2. Offer ..... 21
3.4. Cydweithio ..... 22
3.4.1. Cynllunio a llywodraethu ..... 22
3.4.2. Darparu gwasanaethau ..... 22
3.4.3. Datblygiad y gweithlu ..... 23
3.4.4. Data ..... 23
3.4.5. Cydweithio â theuluoedd ..... 23
3.4.6. Ffactorau sy'n cefnogi cydweithio ..... 24
3.4.7. Rhwystrau o ran cydweithio ..... 25
3.5. Llywodraethu ..... 26
3.5.1. Disgrifiadau o strwythurau llywodraethu ..... 26
3.5.2. Ffactorau sy'n cefnogi llywodraethu effeithiol ..... 27
3.5.3. Rhwystrau o ran llywodraethu ..... 28
3.6. Staff ..... 30
3.6.1. Meithrin capasiti ..... 30
3.6.2. Effaith y cyllid yn dod i ben ..... 31
3.6.3. Ffactorau sy'n cefnogi staff ..... 31
3.6.4. Rhwystrau i staff ..... 33
3.7. Cyllido ..... 35
3.7.1. Trawsnewid ac integreiddio craidd ..... 35
3.7.2. Meysydd buddsoddi ..... 35
3.7.3. Effaith COVID-19 ..... 35
3.7.4. Effaith y cyllid yn dod i ben ..... 35
3.7.5. Galluogwyr cyllid ..... 36
3.7.6. Rhwystrau o ran ariannu ..... 37

3.8. Data ..... 39
3.8.1. Gweithgareddau a gynhaliwyd ..... 39
3.8.2. Offer ..... 39
3.8.3. Anghenion a nodwyd ..... 39
3.8.4. Casglu a dadansoddi data ..... 39
3.8.5. Mesur effaith ..... 40
3.8.6. Defnyddio adnoddau i'r eithaf ..... 41
3.8.7. Cydweithio ..... 41
3.8.8. Ffactorau sy'n cefnogi gweithgareddau sy'n gysylltiedig â data ..... 42
3.8.9. Rhwystrau o ran defnyddio data yn effeithiol ..... 43
3.9. Teuluoedd ..... 44
3.9.1. Ymgysylltu ..... 44
3.9.2. Cyrchu gwybodaeth ..... 44
3.9.3. Cyrchu gwasanaethau ..... 45
3.9.4. Darparu gwasanaethau ..... 47
3.9.5. Gwirfoddolwyr ..... 47
3.10. Cynaliadwyedd ..... 48
3.10.1. Cynlluniau i barhau â'r gwaith integreiddio a thrawsnewid ..... 48
3.10.2. Anghenion am weithio cynaliadwy ..... 48
3.10.3. Ffactorau sy'n cefnogi cynaliadwyedd ..... 49
3.10.4. Rhwystrau o ran cynaliadwyedd ..... 51
3.11. Argymhellion o ddogfennau braenaru ..... 52
3.11.1. Ar gyfer Llywodraeth Cymru ..... 52
3.11.2. Ar gyfer ymarferwyr ..... 53
3.11.3. Ar gyfer arweinwyr braenaru ..... 55
4. Canfyddiadau: grwpiau ffocws ..... 58
4.1. Yn ystod y rhaglen integreiddio ..... 58
4.1.1. Amseroldeb gwasanaethau ..... 58
4.1.2. Hyd a lled integreiddio systemau ..... 59
4.1.3. A oedd tynnu ar elfennau o raglenni eraill wedi helpu i greu system ymatebol 63
4.2. Ar ôl y rhaglen integreiddio ..... 65
4.2.1. Hyd a lled yr integreiddio parhaus a gyflawnwyd ..... 65
4.2.2. Integreiddio parhaus llwyddiannus ..... 65

4.2.3. Ffactorau sy'n cefnogi integreiddio parhaus ....67
4.2.4. Rhwystrau o ran integreiddio parhaus ....68
4.2.5. Effaith darparu gwasanaethau integredig heb gyllid ....72
4.3. Y dyfodol ....73
4.3.1. Cyllido ....73
4.3.2. Ymrwymiad a blaenoriaethu ....75
4.3.3. Momentwm a chapasiti ....77
4.3.4. Diffiniadau a disgwyliadau o ran cyflawni ....78
4.3.5. Systemau TG neu ddata ....78
4.3.6. Anghydraddoldeb o ran darpariaeth ....79
4.3.7. Barn ac anghenion teuluoedd ....79
5. Casgliadau ....80
5.1. Myfyrio ar enghreifftiau o arfer da a gwersi a ddysgwyd gan fraenarwyr ....80
5.1.1. Gwella mynediad ac argaeledd gwasanaethau blynyddoedd cynnar ....80
5.1.2. Gwelliannau o ran darparu gwasanaethau: cydgysylltiad ac amseroldeb ....81
5.1.3. Symleiddio llwybrau atgyfeirio ....82
5.1.4. Gwell dealltwriaeth o angen lleol ....82
5.2. Archwilio’r galluogwyr a rhwystrau o ran integreiddio systemau llwyddiannus ....83
5.2.1. Galluogwyr ....83
5.2.2. Rhwystrau ....84
5.2.3. Gofynion monitro a gwerthuso ....85
5.3. Deall i ba raddau y llwyddwyd i integreiddio systemau ....86
5.3.1. Prif ffrydio i ddod yn rhan o fusnes fel arfer ....86
6. Argymhellion ....89
Argymhelliad 1: Llywodraeth Cymru i ystyried yr anghenion integreiddio ar gyfer y dyfodol ....89
Argymhelliad 2a: Llywodraeth Cymru i ystyried anghenion o ran cyllid ar gyfer unrhyw fersiwn o raglen yn y dyfodol ....89
Argymhelliad 2b: Llywodraeth Cymru i ystyried anghenion o ran monitro a gwerthuso ar gyfer unrhyw fersiwn o raglen yn y dyfodol ....90
Argymhelliad 3: Dylai braenarwyr ystyried dulliau lleol a rhanbarthol ar gyfer integreiddio yn y dyfodol. ....90

## Rhestr termau

**ADY**

Anghenion dysgu ychwanegol

**Y Grant Plant a Chymunedau (CCG)**

Y Grant Plant a Chymunedau

**CFCE**

Tîm ymchwil Tystiolaeth Plant, Teuluoedd a Gofal Plant, Llywodraeth Cymru

**EYIT**

Cangen Trawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar, Llywodraeth Cymru

**Rhaglen Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar (EYITP)**

Rhaglen Trawsnewid ac Integreiddio’r Blynyddoedd Cynnar

**Teuluoedd yn Gyntaf**

Rhaglen ymyrraeth ac atal cynnar Llywodraeth Cymru a gyflawnir gan awdurdodau lleol. Mae wedi'i chynllunio i wella canlyniadau i fabanod, plant, pobl ifanc a'u teuluoedd trwy eu helpu i fynd i'r afael â phroblemau cyn iddynt gyrraedd pwynt argyfwng. Am ragor o gwybodaeth, gweler https://www.llyw.cymru/hoffech-chi-help-llaw-gan-deuluoedd-yn-gyntaf

**Dechrau'n Deg**

Rhaglen Llywodraeth Cymru i helpu teuluoedd â phlant dan 4 oed mewn ardaloedd difreintiedig yng Nghymru. Am ragor o gwybodaeth, gweler https://www.llyw.cymru/rhaglen-dechraun-deg

**Rhanbarth neu ranbarth bwrdd iechyd**

Mae hyn yn disgrifio'r ardal ddaearyddol a gwmpesir gan fwrdd iechyd; gall gwmpasu sawl awdurdod lleol, ac mewn rhai achosion sawl Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

**Plant Iach Cymru**

Mae hon yn rhaglen Llywodraeth Cymru sy'n nodi cysylltiadau arfaethedig ar gyfer plant 0 i 7 oed. Am ragor o gwybodaeth, gweler https://www.llyw.cymru/rhaglen-plant-iach-cymru

**Ymwelydd iechyd**

Rôl o fewn rhaglen Plentyn Iach Cymru a rhaglen Dechrau'n Deg.

**IRP**

Rhaglen Ymchwil Fewnol, Llywodraeth Cymru

**Lefel leol (integreiddio system)**

Lefel integreiddio ar raddfa lai o fewn y system blynyddoedd cynnar, er enghraifft yn digwydd mewn grwpiau cymunedol neu drefi.

**Braenarwyr / Ardaloedd Braenaru**

Y termau sy'n disgrifio'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n cymryd rhan yn Rhaglen Trawsnewid ac Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar.

**Sefydliad braenaru neu sefydliad**

Sefydliad (gan gynnwys awdurdodau lleol a byrddau iechyd) sy'n ymwneud â chyflawni gwaith Rhaglen Trawsnewid ac Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar.

**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (PSB)**

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn gwella gweithio ar y cyd rhwng yr holl wasanaethau cyhoeddus ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Mae aelodau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cynnwys awdurdod lleol, bwrdd iechyd lleol ac eraill. Am ragor o gwybodaeth, gweler https://www.llyw.cymru/byrddau-gwasanaethau-cyhoeddus

**Y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF)**

Y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol. Mae hon yn gronfa bum mlynedd (Ebrill 2022 i Fawrth 2027), a reolir trwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Am ragor o wybodaeth, gweler https://www.llyw.cymru/y-gronfa-integreiddio-rhanbarthol-ar-gyfer-iechyd-gofal-cymdeithasol

**Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh)**

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Sefydlwyd BPRhau i wella llesiant y boblogaeth a gwella sut mae gwasanaethau iechyd a gofal yn cael eu darparu. Am ragor o gwybodaeth, gweler https://www.llyw.cymru/byrddau-partneriaeth-rhanbarthol

**Lefel system gyfan (integreiddio system)**

Lefel integreiddio system sy'n ymwneud â graddfa fwy yn ddaearyddol (megis newid rhanbarthol neu genedlaethol) neu elfennau lluosog (megis ar draws gwahanol sectorau).

# 1. Cyflwyniad a chefndir

Cysylltodd Cangen Trawsnewid ac Integreiddio’r Blynyddoedd Cynnar (EYIT) â'r Rhaglen Ymchwil Fewnol (IRP, Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, Llywodraeth Cymru) i gynnal adolygiad o Raglen Trawsnewid ac Integreiddio’r Blynyddoedd Cynnar (y rhaglen integreiddio). Nod yr adolygiad oedd archwilio themâu arfer da a gwersi a ddysgwyd ar draws yr rhaglen integreiddio, gan gynnwys galluogwyr a rhwystrau o ran integreiddio systemau. Roedd hefyd am sefydlu i ba raddau y mae integreiddio systemau wedi’i brif ffrydio. Cynhaliodd y Rhaglen Ymchwil Fewnol y prosiect ymchwil rhwng Chwefror a Hydref 2025.

## 1.1. Cefndir y rhaglen integreiddio

Yng Nghymru, mae'r system blynyddoedd cynnar yn cynnwys gwasanaethau cyffredinol, gwasanaethau wedi'u targedu a gwasanaethau arbenigol, sy'n atebol i wahanol gyrff. Yn hanesyddol, roedd eu gwaith yn aml yn digwydd yn annibynnol ar ei gilydd, sy'n golygu nad oedd gwybodaeth yn cael ei rhannu ac nid oedd gwasanaethau wedi'u cydgysylltu. Roedd prinder gwasanaethau cyfunol yn peri risg i gyflawni nod Llywodraeth Cymru i sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd ac yn cyrraedd eu potensial llawn (Ffyniant i Bawb (pdf), 2016 i 2021). Felly, roedd angen sicrhau bod cyrff cyflawni yn cydnabod ac yn adeiladu ar werth dull system gyfan.

Dechreuodd y rhaglen integreiddio yn 2017 fel cyfle i edrych yn radical ar wasanaethau a strwythurau presennol, gyda'r bwriad o ddatblygu ffocws strategol hirdymor i wella canlyniadau i blant. Mewn ymateb i strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer gweinyddiaeth 2016 i 2021, ‘Ffyniant i Bawb (pdf)’, bwriad y rhaglen oedd cyflawni yn erbyn yr ymrwymiad i 'adeiladu ar ein rhaglenni presennol ar gyfer y blynyddoedd cynnar a chreu system fwy cydgysylltiedig ac ymatebol a fydd yn rhoi lle canolog i anghenion unigryw pob plentyn'. At ddibenion y rhaglen integreiddio, diffiniwyd blynyddoedd cynnar fel yr oedran cyn geni i 7.

Dechreuodd y gwaith o gyflawni’r rhaglen integreiddio fel prosiect datblygu ar y cyd dwys gyda Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf (BGC). Ar y pryd, roedd y BGC hwn yn cynnwys awdurdodau lleol Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful (roedd Pen-y-bont ar Ogwr wedi'i gynnwys yn y BGC hwn o fis Mai 2023). Roedd y prosiect hwn yn archwilio opsiynau ar gyfer ail-bennu'r system blynyddoedd cynnar. Fodd bynnag, daeth yn amlwg nad oedd datblygu dull sengl i'w gyflwyno ledled Cymru yn bosibl oherwydd y gwahanol dirweddau ac anghenion y boblogaeth ym mhob ardal awdurdod lleol.

Er mwyn adeiladu ar y dull gweithredu, gwahoddwyd BGCau i ymuno â'r rhaglen fel 'braenarwyr’ yn raddol. Roedd ymuno â'r rhaglen yn wirfoddol, ac ymunodd mwyafrif y BGCau yng Nghymru. Gan fod braenarwyr yn ymuno yn raddol, roedd rhai o fewn ôl troed y bwrdd iechyd yn ymuno yn hwyrach nag eraill, sy'n golygu bod gwahaniaethau o ran pa mor bell oedd braenarwyr ar eu teithiau integreiddio. Cafodd BGCau yr ardaloedd braenaru y dasg o brofi elfennau craidd system flynyddoedd cynnar integredig a threialu modelau a dulliau cyflawni gwahanol, gyda ffocws ar gydlynu gwasanaethau yn lleol ac yn rhanbarthol.

Daeth y rhaglen integreiddio i ben yn ffurfiol ddiwedd mis Mawrth 2025. Dyrannwyd ychydig dros £17 miliwn i'r rhaglen integreiddio yn y blynyddoedd ariannol rhwng Ebrill 2018 a Mawrth 2024. Dyrannwyd y symiau ar ôl troed bwrdd iechyd, yn seiliedig ar ffigurau poblogaeth ranbarthol ar gyfer plant (o enedigaeth i saith oed).

Roedd gan Fraenarwyr gydgysylltwyr penodedig a ariannwyd trwy'r rhaglen integreiddio. Roedd arweinydd prosiect dynodedig yn goruchwylio'r rhain. Gweithiodd arweinwyr a chydgysylltwyr prosiect ochr yn ochr â phartneriaid eraill yn eu hardaloedd bwrdd iechyd rhanbarthol i hwyluso'r rhaglen integreiddio.

Effeithiodd pandemig coronafeirws (COVID-19) ar y rhaglen integreiddio rhwng 2020 a 2022. Cafodd staff mewn BGCau, awdurdodau lleol a byrddau iechyd eu hailgyfeirio at wasanaethau rheng flaen. Canfu'r gwerthusiad o'r rhaglen integreiddio (Andrews et al, 2022) fod y pandemig wedi effeithio'n fawr ar gynnydd tuag at nodau ac amcanion y rhaglen. Serch hynny, aeth y prosiectau yn eu blaenau ac ymunodd BGCau pellach â'r rhaglen trwy gyllid fel rhan o ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i gefnogi teuluoedd a phlant sy'n agored i niwed.

Roedd y rhaglen integreiddio yn rhaglen beilot cyfyngedig o ran amser, yn galluogi braenarwyr i brofi dulliau arloesol o ddarparu gwasanaethau mewn ffordd fwy cydgysylltiedig, gan adeiladu ar yr hyn a oedd yn gweithio'n dda o dan raglenni presennol, fel Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg. O ystyried bod braenarwyr yn arbrofi gyda dulliau newydd a chysyniadau heb eu profi, roedd yn hanfodol sicrhau bod yr holl gynigion yn gyson â pholisi cyffredinol Llywodraeth Cymru ac nad oeddent yn gorgyffwrdd â ffrydiau cyllido presennol. Er mwyn cyflawni hyn, roedd angen craffu manwl ar gynlluniau busnes ac adroddiadau cynnydd, gan helpu i atal dyblygu cyllid, gwarantu bod polisi yn gyson, a chynnal goruchwyliaeth ariannol drylwyr sy'n addas ar gyfer menter beilot.

## 1.2. Nodau, amcanion a chanlyniadau arfaethedig y rhaglen integreiddio

Roedd nod y rhaglen integreiddio fel a ganlyn:

- creu system blynyddoedd cynnar i ddarparu gwasanaethau mewn ffordd gydgysylltiedig, integredig ac amserol o fewn cyllidebau presennol
- cefnogi partneriaid lleol i ail-ffurfweddu gwasanaethau blynyddoedd cynnar a chreu system blynyddoedd cynnar yn lleol, gan ganolbwyntio ar gydgysylltu gwasanaethau, cynllunio, comisiynu a nodi a mynd i'r afael ag anghenion.
- trwy'r broses hon i nodi rhwystrau o ran integreiddio a ffyrdd i'w dileu, eu lleihau neu eu rhesymoli

Amcanion y rhaglen integreiddio oedd:

- cymryd olwg radical ar strwythurau a systemau presennol i benderfynu a ydynt yn effeithlon ac yn effeithiol wrth gefnogi'r blynyddoedd cynnar
- cymryd yr elfennau mwyaf effeithiol o holl raglenni blynyddoedd cynnar cyfredol Llywodraeth Cymru (gan gynnwys Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a Rhaglen Plant Iach Cymru) a chreu system fwy cydgysylltiedig ac ymatebol a fydd yn rhoi lle canolog i anghenion unigryw pob plentyn
- darparu cefnogaeth estynedig, gydlynol i deuluoedd, gan dynnu ynghyd raglenni cymorth i deuluoedd, sy'n canolbwyntio ar rianta cadarnhaol ac ymyrraeth gynnar
- treialu dull o ddatblygu ar y cyd mewn perthynas â system blynyddoedd cynnar mewn ardaloedd braenaru, gydag awdurdodau lleol a byrddau iechyd

Y canlyniadau a fwriadwyd o'r gwerthusiad blaenorol o'r rhaglen (2022) oedd:

- gwella’r graddau y mae gwasanaethau ar gael, a mynediad atynt
- llai o fylchau mewn gwasanaethau
- symleiddio llwybrau atgyfeirio
- mwy o ddealltwriaeth o angen a galw
- cwmpasu, llunio a gweithredu strategaeth ehangach

Canlyniad ychwanegol a fwriadwyd o resymeg polisi mewnol oedd ehangu arfer da yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

## 1.3. Nodau ac amcanion ymchwil

Cylch gwaith yr ymchwil yw cynhyrchu dadansoddiad thematig o ddogfennau gwerthuso’r rhaglen integreiddio a gyflwynwyd gan fraenarwyr, a chynnal grwpiau ffocws gyda braenarwyr.

Mae gan y prosiect hwn dri nod ymchwil. Mae'r rhain wedi'u rhestru isod gyda'r amcanion cysylltiedig.

### 1.3.1. Nod un

Myfyrio ar enghreifftiau o arfer da a gwersi a ddysgwyd gan fraenarwyr sy'n cymryd rhan yn y rhaglen integreiddio. Yr amcanion yw:

- asesu a oedd argaeledd gwasanaethau blynyddoedd cynnar a mynediad atynt wedi gwella, gan gynnwys a oedd bylchau yn y gwasanaethau a ddarparwyd wedi lleihau
- asesu i ba raddau y darparwyd gwasanaethau mewn modd cydgysylltiedig, integredig ac amserol ar draws y gwahanol ardaloedd braenaru
- sefydlu a oedd llwybrau atgyfeirio wedi'u symleiddio
- penderfynu a ddatblygodd braenarwyr well dealltwriaeth o angen yn eu hardaloedd lleol

### 1.3.2. Nod dau

Archwilio galluogwyr a rhwystrau o ran integreiddio systemau llwyddiannus. Yr amcanion yw:

- sefydlu'r prif themâu sy'n sail i integreiddio ar draws systemau cyfan
- nodi galluogwyr a rhwystrau o ran integreiddio.
- deall profiadau braenarwyr o strwythurau llywodraethu a gofynion monitro a gwerthuso o dan y rhaglen integreiddio

### 1.3.3. Nod tri

Datblygu dealltwriaeth o’r graddau y cyflawnwyd integreiddio systemau ('prif ffrydio'). Yr amcanion yw:

- archwilio i ba raddau yr helpodd y rhaglen integreiddio i roi system integredig ar waith
- archwilio a yw gwaith o dan y rhaglen integreiddio wedi'i brif ffrydio i ymarfer busnes fel arfer, a sut y cyflawnwyd hyn
- sefydlu a oes strwythurau llywodraethu clir ar waith i yrru integreiddio a thrawsnewid yn y dyfodol ymlaen
- darparu argymhellion ar gyfer sut y gellir symud ymlaen â gwaith integreiddio a thrawsnewid yn y dyfodol

# 2. Methodoleg

## 2.1. Adolygu dogfennau cefndir

Cynhaliwyd adolygiad pen desg o ddogfennau strategaeth a pholisi i ddeall y rhaglen. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth gefndir i'r rhaglen, canllawiau grantiau, strwythur gwahanol ardaloedd braenaru a throsolwg o ffrydiau gwaith braenarwyr.

## 2.2. Adolygiad o ddogfennau

Cyflwynodd braenarwyr eu dogfennaeth gwerthuso terfynol i gangen y rhaglen integreiddio o’r cyfnod y daeth y cyllid a ddaeth i ben tan fis Ionawr 2025.

### 2.2.1. Samplu dogfennau, Chwefror 2025

Cyflwynwyd cyfanswm o 131 o ddogfennau unigryw (mae unigryw yn golygu eithrio copïau dyblyg lle cyflwynwyd dogfennau yn Gymraeg a Saesneg). Roedd y rhain yn cynrychioli'r 7 ardal bwrdd iechyd rhanbarthol: Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Roedd nifer y dogfennau unigryw a gyflwynwyd yn amrywio rhwng ardaloedd bwrdd iechyd rhanbarthol, yn amrywio o 1 dogfen i 37 dogfen.

Gan mai prif bwrpas yr ymchwil oedd cynhyrchu adolygiad thematig o'r rhaglen, y dull methodolegol mwyaf priodol a bennwyd gan y Rhaglen Ymchwil Fewnol a thimau ymchwil Tystiolaeth Plant, Teuluoedd a Gofal Plant (CFCE) oedd cymryd sampl o'r dogfennau. Gwnaethpwyd hyn mewn dau gam.

Yng ngham un, cytunwyd y byddai cangen y rhaglen integreiddio a thîm ymchwil CFCE ill dau yn ymgymryd ag ymarferion i nodi dogfennau i'w cynnwys. Cynghorodd y timau Rhaglen Ymchwil Fewnol a CFCE y dylid eithrio unrhyw ddogfennau nad oeddent yn adroddiadau gwerthuso gan na fyddent yn darparu gwybodaeth briodol ar gyfer yr adolygiad thematig, fel ffeithluniau neu gyflwyniadau. Nododd cangen y rhaglen integreiddio 42 o ddogfennau i'w cynnwys yn seiliedig ar y prif feysydd dysgu yr oeddent yn eu hystyried yn bwysig i'r adolygiad eu cwmpasu. Nododd tîm ymchwil CFCE 23 o ddogfennau i'w cynnwys yn seiliedig ar y ffaith eu bod yn cynnwys gwybodaeth ar lefel ddigonol i ateb y nodau a'r cwestiynau ymchwil. Roedd y 23 dogfen a nodwyd gan dîm ymchwil CFCE wedi’u nodi hefyd gan gangen y rhaglen integreiddio. Gadawodd hyn 19 o ddogfennau a nodwyd gan gangen y rhaglen integreiddio na chawsant eu nodi gan y tîm ymchwil CFCE.

Yng ngham dau y samplu, creodd y Rhaglen Ymchwil Fewnol set o feini prawf cynhwysiant i gysoni'r 19 dogfen hyn. Yn gyntaf, roedd dogfennau yn cael eu heithrio os oeddent yn fersiwn gynharach a ddisodlwyd gan fersiwn ddiweddarach o'r ddogfen, neu os oedd y cynnwys hefyd yn ymddangos mewn adroddiad crynodol. Yna, os nad oeddent wedi’u disodli neu eu hailadrodd, roedd penderfyniadau ar gynhwysiant yn seiliedig ar y cwestiwn a oeddent yn mynd i'r afael â'r nodau a'r cwestiynau ymchwil. Aseswyd pob un o'r 19 dogfen yn erbyn y meini prawf hyn.

O ran y nod ymchwil o 'gynhyrchu dadansoddiad thematig o arfer da a gwersi a ddysgwyd gan fraenarwyr', cynhwyswyd dogfennau ar sail:

- a oeddent yn darparu canfyddiadau ar arfer da a gwersi a ddysgwyd
- a oedd y dulliau yn addas ac yn gadarn i roi mewnweledìad i arfer da neu wersi a ddysgwyd
- a oedd maint y sampl yn ddigon i sicrhau bod canfyddiadau yn gynrychioliadol ac yn ddefnyddiol

O ran y nod ymchwil o 'archwilio'r galluogwyr a'r rhwystrau o ran integreiddio systemau llwyddiannus', aseswyd dogfennau ar sail:

- a oeddent wedi nodi galluogwyr a/neu rwystrau
- a oeddent yn archwilio integreiddio

O ran y nod ymchwil 'i asesu i ba raddau y mae integreiddio systemau wedi'i brif ffrydio', aseswyd dogfennau ar sail a oeddent yn darparu gwybodaeth neu ganfyddiadau ar lefel systemau.

Yn seiliedig ar samplu cam 2, cytunwyd rhwng cangen y rhaglen integreiddio a'r Rhaglen Ymchwil Fewnol y byddai 5 o'r 19 dogfen yn cael eu cynnwys yn yr adolygiad thematig.

Yn gyffredinol, roedd y 5 dogfen hyn, ynghyd â'r 23 dogfen a oedd yn gorgyffwrdd yn y broses ddethol rhwng y timau yng ngham samplu un, yn golygu bod cyfanswm o 28 dogfen wedi'u cynnwys yn yr adolygiad o ddogfennau. Cyn i'r Rhaglen Ymchwil Fewnol adolygu'r dogfennau hyn, dilëwyd unrhyw ddata personol gan gangen y rhaglen integreiddio.

### 2.2.2. Dadansoddiad o ddogfennau, Mawrth i Awst 2025

Defnyddiwyd dull dadansoddi thematig. Defnyddiwyd MAXQDA (meddalwedd dadansoddi data ansoddol) ar gyfer codio a dadansoddi. Rhannwyd y 28 adroddiad rhwng tri ymchwilydd ar gyfer codio. Datblygodd yr ymchwilwyr fframwaith codio cychwynnol trwy godio un ddogfen fwy ac un ddogfen lai yr un. Yna trafodwyd a chytunwyd ar y fframwaith codio gan yr ymchwilwyr a'i gymhwyso wrth ymdrin â phob adroddiad. Roedd sicrhau ansawdd yn digwydd ar ddau gam o'r broses godio gyda’r ymchwilwyr yn cyfnewid ac yn adolygu codio ei gilydd i sicrhau bod y codau yn cael eu cymhwyso'n gyson. Yna echdynnwyd segmentau wedi'u codio. Dadansoddwyd y darnau hynny gan ddau uwch ymchwilydd i gynhyrchu themâu. Defnyddiwyd y rhain i ysgrifennu dadansoddiad llawn, a geir ym Mhennod 3 o'r adroddiad hwn.

### 2.2.3. Ystyriaethau methodolegol ar gyfer yr adolygiad o ddogfennau

Ar gyfer yr adolygiad o ddogfennau, wrth ddarllen y canfyddiadau, dylid ystyried:

- pwrpas yr ymchwil yw cynhyrchu adolygiad thematig, felly nid yw gwneud sylwadau ar ymyriadau neu brosiectau penodol o fewn y cwmpas

- rhanbarth bwrdd iechyd Betsi Cadwaladr a gyflwynodd y nifer fwyaf o ddogfennau, ac roedd yn cynnwys 14 o'r 28 dogfen a gynhwyswyd yn y sampl, felly efallai y bydd gogwydd tuag at y rhanbarth hwn yn yr adolygiad
- nid yw Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych yn cael eu cynrychioli yn y canfyddiadau gan nad oedd yn bosibl iddynt gymryd rhan yn y rhaglen integreiddio

## 2.3. Grwpiau ffocws gyda braenarwyr

Darparwyd manylion cyswllt ar gyfer y grwpiau ffocws i'r Rhaglen Ymchwil Fewnol gan gangen y rhaglen integreiddio. Roedd y sampl a ddarparwyd yn cynnwys cydgysylltwyr prosiectau, arweinwyr prosiectau, a chynrychiolwyr byrddau iechyd a oedd yn dal i fod yn eu swyddi. Roedd y sampl oedd ar gael yn amrywio o 1 cyswllt i 9 cyswllt fesul rhanbarth bwrdd iechyd. Gwahoddwyd y cysylltiadau trwy e-bost i gymryd rhan ym mis Mai 2025. Darparwyd hysbysiad preifatrwydd. Lle nad oedd cysylltiadau yn ymateb, anfonwyd nodyn atgoffa gan gangen y rhaglen integreiddio.

Ar gyfer rhai grwpiau ffocws, roedd cysylltiadau cychwynnol yn cynnig cysylltiadau ychwanegol i'w gwahodd (samplu peli eira). Diweddarwyd yr hysbysiad preifatrwydd i alluogi hyn a'i ail-anfon at bob cyswllt. Mewn rhai grwpiau ffocws, roedd hyn yn golygu nad oedd yr holl gyfranogwyr yn arweinwyr prosiect neu gydgysylltwyr, ond yn unigolion eraill a oedd yn ymwneud â chyflwyno’r rhaglen integreiddio. Roedd mathau ychwanegol o rolau yn cynnwys: staff ymweliadau iechyd, cynrychiolwyr Dechrau'n Deg, arbenigwyr lleferydd ac iaith, strategaeth, rheolwyr blynyddoedd cynnar, grantiau a chyllid, a data a monitro.

Datblygwyd y canllaw pwnc ar gyfer y grwpiau ffocws gan ymchwilwyr y Rhaglen Ymchwil Fewnol, yn seiliedig ar nodau a chwestiynau'r ymchwil. Adolygodd cangen y rhaglen integreiddio y canllaw pwnc. Roedd y cwestiynau yn trafod cyfnod y rhaglen, y cyfnod ar ôl y rhaglen a safbwyntiau am y dyfodol. Y pynciau eang oedd:

- effaith y rhaglen ar wasanaethau blynyddoedd cynnar a ddarperir, ac amseroldeb y gwasanaethau a ddarperir
- i ba raddau yr helpodd y rhaglen i roi system integredig ar waith
- a dynnwyd ar raglenni blynyddoedd cynnar eraill ac a oedd gwneud hynny yn helpu i greu system ymatebol
- a oedd integreiddio wedi parhau ar ôl i gyllid y rhaglen ddod i ben
- effaith darparu gwasanaethau integredig heb gyllid
- yr heriau disgwyliedig i integreiddio systemau yn y dyfodol
- anghenion yn y dyfodol i gefnogi integreiddio systemau blynyddoedd cynnar, a lliniaru heriau a ragwelir

### 2.3.1. Cynnal y grwpiau ffocws

Y nod oedd cynnal un grŵp ffocws fesul rhanbarth bwrdd iechyd. Cynhaliwyd 6 grŵp ffocws ym mis Mehefin a Gorffennaf 2025 a oedd yn amrywio o 3 i 10 o gyfranogwyr. Cynhaliwyd grwpiau ffocws ar-lein trwy Microsoft Teams ac roeddent yn parhau rhwng 1 a 2 awr. Roedd cynrychiolaeth yn cynnwys:

- rhai o bedwar o’r pum awdurdod lleol, a'r bwrdd iechyd, ar gyfer rhanbarth Aneurin Bevan
- rhai o dri o’r pedwar awdurdod lleol, a'r bwrdd iechyd, ar gyfer rhanbarth Betsi Cadwaladr
- rhai o'r holl awdurdodau lleol, a'r bwrdd iechyd, ar gyfer rhanbarth Caerdydd a'r Fro
- rhai o'r holl awdurdodau lleol, a'r bwrdd iechyd, ar gyfer rhanbarth Cwm Taf Morgannwg
- rhai o ddau o’r tri awdurdod lleol ar gyfer rhanbarth Hywel Dda
- rhai o un o’r ddau awdurdod lleol, a'r bwrdd iechyd, ar gyfer rhanbarth Bae Abertawe

### 2.3.2. Dadansoddiad o’r grwpiau ffocws

Ar ôl i'r grwpiau ffocws gael eu cwblhau, cafodd y trawsgrifiadau eu gwirio a'u golygu. Defnyddiwyd dull dadansoddi thematig. Defnyddiwyd Microsoft Office ar gyfer codio a dadansoddi. Rhannwyd y dadansoddiad rhwng dau uwch ymchwilydd. Trefnwyd data o'r trawsgrifiadau yn ôl y meysydd canllaw pwnc. Ym mhob maes, roedd yr ymchwilwyr yn codio’r data ac yn defnyddio hyn i ffurfio themâu. Defnyddiwyd y rhain i ysgrifennu dadansoddiad llawn, a geir ym Mhennod 4 o'r adroddiad hwn.

### 2.3.3. Ystyriaethau methodolegol ar gyfer y grwpiau ffocws

Ar gyfer grwpiau ffocws, wrth ddarllen y canfyddiadau, dylid ystyried:

- nid oedd cynrychiolaeth o ranbarth Powys gan fod staff wedi symud i rolau eraill a oedd yn golygu bod y sampl yn fach, ac nid oedd y sampl a ddarparwyd ar gael
- roedd y grwpiau ffocws ar gyfer rhanbarthau Aneurin Bevan, Betsi Cadwaladr, Hywel Dda a Bae Abertawe yn brin o gynrychiolaeth un awdurdod lleol
- nid oedd y bwrdd iechyd yn cael ei gynrychioli yng ngrŵp ffocws rhanbarth Hywel Dda

# 3. Canfyddiadau: adolygiad o ddogfennau

Mae'r bennod hon yn cyflwyno canfyddiadau'r dadansoddiad thematig a wnaed ar sampl o ddogfennau a gyflwynwyd gan yr holl fraenarwyr ar gyfer cyfnod y rhaglen integreiddio.

Mae'r canfyddiadau wedi'u categoreiddio yn ôl themâu a nodwyd yn ystod y cyfnod dadansoddi: cyd-destun, canlyniadau a fwriadwyd, datblygu rhaglenni, cydweithio, llywodraethu, cynaliadwyedd, staff, cyllid, data a theuluoedd. Mae pob un o'r themâu hyn yn cipio gwybodaeth wedi'i dogfennu gan sefydliadau braenaru sy'n ymwneud â'r thema yn gyffredinol, yn ogystal â rhwystrau a galluogwyr o ran newid systemau ar lefel leol (megis mewn trefi neu grwpiau cymunedol) a lefel system gyfan (megis rhanbarthol a chenedlaethol). Yn olaf, rhoddir argymhellion a awgrymwyd yn nogfennau braenarwyr ar gyfer gwella integreiddio a thrawsnewid yn y blynyddoedd cynnar.

Mae'n bwysig nodi bod y canfyddiadau hyn yn cael eu tynnu o’r hyn a oedd yn gyffredin ar draws yr adroddiadau braenaru yn unig. Nid ydynt o reidrwydd yn ganlyniadau ymchwil trylwyr neu astudiaethau gwerthuso.

## 3.1. Cyd-destun

Mae'r adran hon yn disgrifio'r cyd-destun yr adroddwyd ei fod yn bodoli cyn cyflwyno'r rhaglen integreiddio, gan dynnu sylw at yr angen am y rhaglen integreiddio.

Gweithredwyd y rhaglen integreiddio yn erbyn cefndir o heriau economaidd a chymdeithasol, a gafodd effaith ddofn ar allu braenarwyr i weithredu a chyflawni eu hamcanion. Roedd ffactorau cyd-destunol mynych a adroddwyd yn cynnwys diwallu anghenion plant a theuluoedd, pandemig y coronafeirws (COVID-19), yr argyfwng costau byw, capasiti’r sector cyhoeddus, anghysondebau mewn gwasanaethau ledled Cymru, integreiddio a ffyrdd o weithio, ac ymgysylltu â theuluoedd.

### 3.1.1. Anghenion heb eu diwallu

Roedd llawer o anghenion heb eu diwallu mewn cymunedau ledled Cymru ar adeg cyflwyno’r rhaglen integreiddio, yn enwedig mewn ardaloedd nad oeddent yn rhai Dechrau'n Deg. Roedd yr anghenion hyn heb eu diwallu oherwydd diffyg adnoddau ariannol a staffio yn y sector blynyddoedd cynnar. Adroddodd dogfennau braenaru ar rai o effeithiau negyddol yr angen hwn heb ei ddiwallu ar ddatblygiad plentyndod cynnar, er enghraifft llai o barodrwydd ar gyfer ysgol ymhlith plant, diffyg annibyniaeth oddi wrth rieni, lefelau canolbwyntio gwael, ac anhawster o ran addasu i'r amgylchedd dysgu yn yr ysgol.

Roedd lefel a dyfnder yr angen heb ei ddiwallu yn amrywio rhwng ac o fewn byrddau iechyd ac awdurdodau lleol ac fe'i dylanwadwyd gan benderfyniadau polisi ac anghysondebau wrth ddarparu gwasanaethau ar lefelau cenedlaethol a lleol. Rhoddwyd enghraifft o ddarpariaeth feithrin mewn ysgolion yn cael ei dileu gan un ardal awdurdod lleol. Roedd hyn wedi achosi cyfraddau uwch o anghenion datblygiadol ac emosiynol mewn plant ifanc.

### 3.1.2. Pandemig COVID-19

Cafodd pandemig COVID-19 effaith sylweddol ar y rhaglen integreiddio. Wrth i'r pandemig ddod i'r amlwg yn ystod cyfnod gweithredu'r rhaglen, symudodd blaenoriaethau ar unwaith tuag at ymateb i'r argyfwng iechyd cyhoeddus. Felly, cafodd rhywfaint o waith gweithredu'r rhaglen ei ohirio am gyfnod byr. Pan ailddechreuodd y gwaith gweithredu, gofynnodd Llywodraeth Cymru i fraenarwyr ailedrych ar eu cynlluniau ar gyfer gweithredu ar gyfer gweddill y flwyddyn. Roedd rhai yn ystyried bod hyn wedi digwydd ‘ar fyr rybudd'.

Roedd dogfennau braenaru yn cyfeirio at heriau sefydlu'r rhaglen integreiddio yn ystod y cyflwr hwn o argyfwng (rhyng)genedlaethol. Roedd yn rhaid i ymarferwyr addasu'n gyflym i gyfyngiadau, er enghraifft trwy symud o ymgynghoriadau wyneb yn wyneb i ymgynghoriadau ar-lein. Effeithiodd y symud i ymarfer ar-lein ar berthnasoedd gwaith a chydweithio rhwng staff a sefydliadau.

Cynyddodd y galw am wasanaethau fel diogelu, iechyd meddwl a cham-drin domestig yn ystod pandemig COVID-19 yn ogystal ag iechyd, addysg a gofal plant. Roedd effaith pandemig COVID-19 ar staff yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol yn sylweddol. Gwaethygodd blinder yn y gweithlu a chynyddodd achosion o salwch hirdymor. Achosodd hyn brinder staffio mewn cyfnod o alw cynyddol, felly roedd disgwyl i staff wneud mwy gyda llai o adnoddau. Achosodd pandemig COVID-19 hefyd oedi o ran recriwtio a chynllunio prosiectau, mwy o restrau aros, a llai o gyfranogiad strategol gan arweinwyr. Adroddodd rhai sefydliadau braenaru fod y ffocws ar y pandemig wedi tynnu sylw oddi wrth y rhaglen.

Cafodd y cyfyngiadau symud effaith negyddol ar blant a theuluoedd. Profodd llawer o rieni a gafodd blant yn ystod pandemig COVID-19 orbryder a hyder isel. Cafodd ffactorau fel iechyd meddwl, cwsg, datblygiad cynnar yr ymennydd a datblygiad lleferydd ac iaith i gyd eu heffeithio'n negyddol gan y pandemig COVID-19 a'r cyfyngiadau symud. Daeth yr anghenion a oedd eisoes gan blant a theuluoedd hyd yn oed yn fwy cymhleth yn ystod y pandemig, a rhoddodd hyn fwy o straen ar y sector blynyddoedd cynnar.

Gyda chyfyngiadau yn codi a chymdeithas yn ceisio dychwelyd i normalrwydd, teimlwyd effeithiau pandemig COVID-19 yn acíwt yn y sector blynyddoedd cynnar. Cynyddodd y galw am gymorth un-i-un oherwydd y cymhlethdodau cynyddol a brofwyd gan blant a theuluoedd yn ystod pandemig COVID-19. Roedd oedi o ran cael mynediad at gymorth ar ôl y pandemig, wrth i'r system geisio dal i fyny ag effaith COVID-19 ar y gwasanaethau a ddarparwyd.

Teimlwyd prinder staff yn y sector blynyddoedd cynnar ar ôl y pandemig. Daeth ymwelwyr iechyd o Dechrau'n Deg a byrddau iechyd at ei gilydd i ddelio â phrinder staff a galw cynyddol. I staff, achosodd y pandemig broblemau parhaus o ran cydweithio a chyfathrebu. Fodd bynnag, mae adroddiadau braenaru yn awgrymu bod y symud i weithio ar-lein yn caniatáu i staff â llwyth gwaith trwm fynychu mwy o gyfarfodydd, ac yn gyffredinol cynyddu capasiti i ddarparu gwasanaethau.

### 3.1.3. Argyfwng costau byw

Mae'r argyfwng costau byw wedi rhoi straen ariannol ar deuluoedd. Adroddodd nifer o rieni nad oeddent yn gallu fforddio talu am grwpiau a gweithgareddau oherwydd prisiau cynyddol mewn mannau eraill. Mae pwysau ychwanegol yr argyfwng costau byw ar deuluoedd hefyd wedi cynyddu'r galw am gymorth, ac adroddwyd hynny gan staff yn y sectorau iechyd ac addysg.

### 3.1.4. Capasiti yn y sector cyhoeddus

Mae pwysau ar y GIG a gwasanaethau statudol eraill wedi bod yn amlwg ers amser maith yng Nghymru a'r DU, lle mae'r galw yn sylweddol fwy na'r cyflenwad. Nododd dogfennau braenaru nifer o ffactorau cyd-destunol sy'n benodol i gyfyngiadau capasiti yn y sector cyhoeddus, er enghraifft toriadau i gyllidebau'r sector cyhoeddus, diffyg darpariaeth a gwasanaethau, pwysau clinigol, rhestrau aros hir, prinder staff, heriau recriwtio a chadw a llwythi gwaith anghynaladwy. Cyfeiriwyd at weithlu sy'n heneiddio hefyd fel ffactor arall sy'n rhoi pwysau ychwanegol ar y sector cyhoeddus. Oherwydd y pwysau hyn, roedd diwrnodau salwch gweithwyr, gorludded a phroblemau iechyd meddwl ar gynnydd ar draws y sector. Mae llawer o staff yn gweithio ar gontractau dros dro, rhai ar gontractau dim oriau gyda chyflogau isel. Roedd y gallu i rannu gwybodaeth wedi'i gyfyngu gan systemau TG anghydnaws, gydag o leiaf un bwrdd iechyd yn dal i ddefnyddio systemau ffeilio papur. Roedd hyn yn lleihau eu gallu i weithio mor effeithlon ag sy'n angenrheidiol.

### 3.1.5. Ansawdd gwasanaethau anghyson a mynediad atynt

Roedd dogfennaeth braenaru yn adlewyrchu cymhlethdod gwasanaethau blynyddoedd cynnar yng Nghymru. Maent wedi'u llunio gan drefniadau hanesyddol, mae nifer o sefydliadau a rhwydweithiau partneriaeth, ac amrywiaeth gofal gan ddarparwyr gwasanaethau statudol, anstatudol a'r trydydd sector. Yn gyffredinol, adroddwyd y gallai darpariaeth gwasanaethau blynyddoedd cynnar fod yn wahanol ledled Cymru. Roedd darpariaeth ar gael mewn rhai ardaloedd ac nid eraill, ac roedd anghenion rhai teuluoedd yn parhau heb eu diwallu. Er bod amddifadedd yn ffactor ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru, nid yw cymunedau yn homogenaidd ac mae ganddynt anghenion a blaenoriaethau gwahanol. Roedd yr amrywiaeth o fewn rhanbarthau yn ei gwneud hi'n anodd sefydlu gweledigaeth gyffredinol ranbarthol cyn y rhaglen integreiddio.

Thema berthnasol mewn dogfennaeth braenaru oedd mynediad is i wasanaethau mewn ardaloedd gwledig, gyda gwasanaethau wedi'u lleoli'n bennaf mewn dinasoedd a threfi mawr. Roedd hyn yn arbennig o wir ym Mhowys, sy'n ardal wledig bron yn gyfan gwbl. Roedd lleoliad y sir ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr yn achosi cymhlethdod ychwanegol, wrth i rai teuluoedd deithio i Loegr i gael gafael ar gymorth.

### 3.1.6. Integreiddio

Roedd integreiddio rhwng gwasanaethau cyn y rhaglen integreiddio wedi gwneud cynnydd mewn rhai meysydd, ond nid pob un ohonynt. Roedd tystiolaeth o ddarparu cymorth integredig rhwng gwasanaethau fel rhaglenni cynenedigol ac ôl-enedigol, a gwnaed hynny'n bosibl trwy alinio darpariaeth adnoddau. Nod y polisïau a'r deddfwriaeth amrywiol a weithredwyd gan Lywodraeth Cymru oedd adeiladu system blynyddoedd cynnar ymatebol i ddarparu canlyniadau cadarnhaol i blant. Fodd bynnag, roedd gwasanaethau a chymorth blynyddoedd cynnar ar draws gwasanaethau plant, addysg, iechyd a'r trydydd sector yn gymhleth ac yn aml yn anghyson.

### 3.1.7. Ffyrdd o weithio

Mae llawer o ddogfennau yn tynnu sylw at y ffaith bod timau a phroffesiynau sy'n gysylltiedig â'r blynyddoedd cynnar yn tueddu i weithio mewn seilo oddi wrth ei gilydd cyn y rhaglen integreiddio. Roedd gweithio mewn seilo yn golygu bod llawer o ddyblygu gwasanaethau, ac nid oedd ymarferwyr yn ymwybodol o ble roedd y dyblygu yn bodoli. Nid oedd unrhyw allu i nodi dyblygu cyn y rhaglen integreiddio, felly nid oedd modd mynd i'r afael â'r mater yn flaenorol.

### 3.1.8. Ymgysylltu â theuluoedd

Roedd ymgysylltu â theuluoedd â gwasanaethau statudol cyn y rhaglen yn gymysg. Roedd yna is-boblogaethau a oedd yn amheus o'r sector statudol oherwydd eu bod yn ymylol, ac roedd hynny'n achosi amharodrwydd i ymgysylltu. Nododd rhai sefydliadau braenaru fod ymdrechion i ymgysylltu â grwpiau lleiafrifoedd ethnig ymylol a rhieni sy'n cael trafferth gyda salwch meddwl amenedigol. Roedd pryder ymhlith rhai rhieni a gofalwyr y byddai gofyn am help yn golygu y byddent yn cael eu hystyried yn risg i'w plant o ran diogelu. Nododd dogfennau braenaru hefyd fod tadau wedi bod ar gyrion datblygiad gwasanaethau yn hanesyddol, a bod hynny wedi arwain at lefelau ymgysylltu is gan dadau. I deuluoedd sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, roedd ynysigrwydd a diffyg mynediad at wasanaethau amrywiol wedi gwneud ymgysylltu â gwasanaethau blynyddoedd cynnar yn heriol.

Mater arall a amlygwyd oedd bod rhieni a gofalwyr plant anabl a niwroamrywiol yn fwy tebygol o brofi problemau iechyd meddwl oherwydd straen corfforol ac emosiynol, ynysigrwydd, blinder a diffyg gwybodaeth. Roedd ymchwil wedi dangos bod rhieni yn fwy tebygol o gysylltu â rhieni eraill am gymorth a gwybodaeth, yn hytrach nag ymarferwyr. Dyfalwyd bod hyn oherwydd diffyg ymddiriedaeth mewn gwasanaethau statudol, embaras, peidio â gwybod pa ddarpariaeth oedd ar gael, a chanfyddiadau ynghylch pwy oedd gwasanaethau o'r fath wedi'u cynllunio ar eu cyfer. Effaith hyn oedd bod llawer o deuluoedd mewn argyfwng ar yr adeg yr oeddent yn ymwneud â gwasanaethau proffesiynol.

## 3.2. Canlyniadau arfaethedig

Roedd canlyniadau arfaethedig y rhaglen integreiddio o safbwynt sefydliadau braenaru, fel y'u nodwyd trwy’r adolygiad o ddogfennau, yn eang. Mae'r canlyniadau arfaethedig yn cael eu nodi fel is-benawdau ac yna'r disgrifiadau mewn dogfennau braenaru.

### 3.2.1. Gwell canlyniadau i blant

Mae pob plentyn yng Nghymru yn hapus, yn iach ac yn cael y dechrau gorau mewn bywyd. Maent yn byw mewn cymunedau cydnerth a theg. Mae ganddynt fynediad at y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt, pan fydd eu hangen arnynt, gan gynnwys plant anabl a phlant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae'r gefnogaeth a ddarperir i blant yn gyson, yn gynaliadwy, yn gyffredinol ac yn canolbwyntio ar blant. Arweiniodd gwell cyfraddau parodrwydd ar gyfer ysgol at lefelau gwell o gyrhaeddiad addysgol gan leihau anghydraddoldebau addysgol. Mae cymorth cynhwysfawr i rieni yn golygu bod llai o blant yn mynd i mewn i'r system ofal.

### 3.2.2. Cymorth cynhwysfawr i rieni a gofalwyr

Mae rhieni a gofalwyr yn ymwneud â'r system blynyddoedd cynnar, yn gallu rhoi adborth ac yn teimlo bod eraill yn gwrando arnynt. Mae ganddynt hyder i gefnogi eu plant i fod yn iach, yn ddiogel ac yn wydn. Mae rhieni a gofalwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi fel rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar gyfer eu plant. Maent yn cael eu grymuso i adnabod cymorth a chael mynediad ato pan fydd ei angen arnynt. Mae rhieni a gofalwyr yn gwneud mwy o ddefnydd o adnoddau yn y gymuned ac mae llai o ynysigrwydd ymhlith rhieni a gofalwyr. O ganlyniad, mae llai o debygolrwydd y bydd teuluoedd yn chwalu ac yn profi gwrthdaro.

### 3.2.3. Cydweithredu aml-asiantaeth

Mae ystod eang o wasanaethau yn cael eu cyd-gynhyrchu, eu cynllunio a'u darparu ar draws asiantaethau a disgyblaethau trwy arferion gweithio cydweithredol. Mae gwasanaethau yn gwneud y defnydd gorau o'r gallu presennol trwy hyrwyddo rhannu gwybodaeth a sgiliau ar draws proffesiynau. Mae llai o weithio mewn seilo gan fod gweithio mewn partneriaeth bellach yn ddull mwy prif ffrwd. Mae cydweithio a rhannu adnoddau yn arwain at well gwerth am arian.

### 3.2.4. Datblygiad parhaus y gweithlu

Mae gallu'r gweithlu yn cael ei wella'n barhaus trwy ddatblygiad proffesiynol, dysgu a rennir, ymarfer myfyriol a llwybrau datblygu clir. Mae anghenion y gweithlu yn cael eu nodi a’u mynegi'n glir, ac mae hyfforddiant yn mynd i’r afael a’r anghenion hyn. Mae gan staff lwythi achosion y gellir eu rheoli ac maent yn cael eu cefnogi'n briodol trwy hyfforddiant, goruchwyliaeth a chymorth o ran llesiant. Mae staff yn datblygu eu gwybodaeth, eu sgiliau, eu profiad ac yn ennill cymwysterau i gyflawni eu potensial proffesiynol.

### 3.2.5. System blynyddoedd cynnar hygyrch

Mae'r gwasanaethau a ddarperir yn seiliedig ar anghenion ac yn deg ar draws ardaloedd trefol a gwledig Cymru. Mae teuluoedd a oedd gynt yn ymylol yn ymgysylltu ac yn ymddiried mewn gweithwyr proffesiynol yn y system blynyddoedd cynnar. Mae atgyfeiriadau wedi'u targedu, yn briodol, yn symlach ac yn arbenigol, fel bod teuluoedd yn cael yr help sydd ei angen arnynt pan fydd ei angen arnynt heb orfod darparu gwybodaeth dro ar ôl tro. Mae gwybodaeth yn hygyrch ac ar gael i unrhyw un sydd ei hangen ar draws Cymru gyfan. Nid oes stigma na stereoteipiau negyddol ynghylch niwroamrywiaeth a niwroddatblygiad, felly mae gan bob plentyn fynediad at y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

### 3.2.6. System blynyddoedd cynnar ymatebol

Mae'r system blynyddoedd cynnar yng Nghymru yn ymateb i anghenion plant a theuluoedd, gan gynnwys ar wahanol gyfnodau bywyd gan gynnwys amenedigol, ôl-enedigol a phlentyndod. Mae dull system gyfan o nodi a mynd i'r afael ag anghenion wedi ymwreiddio. Mae atebion yn canolbwyntio ar deuluoedd, wedi'u personoli ac yn seiliedig ar gryfderau. Mae gan staff y sgiliau cywir a'r mynediad i'r offer cywir i ddarparu ymyrraeth gynnar (a pharhaus). Mae teuluoedd yn cael mynediad at y cymorth sydd ei angen arnynt ar yr adeg iawn iddynt.

### 3.2.7. System blynyddoedd cynnar gynaliadwy

Cefnogir ymdrechion presennol i ddarparu system blynyddoedd cynnar integredig yng Nghymru i sicrhau cynaliadwyedd yn y dyfodol hirdymor. Mae gan sefydliadau braenaru ddealltwriaeth fanwl o'u hardaloedd fel y gallant ddarparu'r gwasanaethau cywir a llenwi bylchau yn y ddarpariaeth i ddiwallu anghenion lleol. Mae rhwystrau o ran integreiddio yn cael eu nodi a'u datrys. Mae ffocws ar atal ac ymyrraeth gynnar yn golygu bod plant a theuluoedd yn cael eu cefnogi cyn i anghenion waethygu. Mae hyn yn lleihau dibyniaeth ar wasanaethau statudol ledled Cymru a'u costau yn y dyfodol. Yn ogystal, mae staff gyda'r sgiliau a'r profiad cywir yn cael eu recriwtio a'u cadw i feithrin a chynnal capasiti yn y tymor hir.

### 3.2.8. Gwell gallu o ran data

Mae data monitro yn cael ei gasglu yn rheolaidd. Mae bylchau yn y dystiolaeth yn cael eu nodi a'u llenwi. Mae setiau data yn gymharol ar draws rhanbarthau, gan ganiatáu dadansoddiad o ganlyniadau ac effaith ar draws systemau cyfan. Mae systemau TG ar waith sy'n galluogi proffesiynau a sefydliadau i rannu gwybodaeth rhyngddynt. Mae casglu data cyson yn cael ei hwyluso gan systemau TG swyddogaethol.

### 3.2.9. Alinio blaenoriaethau blynyddoedd cynnar

Mae gweithgarwch o dan y system blynyddoedd cynnar yn cyd-fynd â blaenoriaethau presennol ac yn eu hategu fel Rhaglen Plant Iach Cymru, Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, y Cynnig Gofal Plant a Fframwaith NYTH (iechyd meddwl a lles).

### 3.2.10. Llywodraethu effeithiol

Mae strwythurau llywodraethu ar waith sy'n hwyluso’r gwaith o wneud penderfyniadau effeithiol. Mae hyn yn sicrhau system blynyddoedd cynnar sy'n gynaliadwy, yn ymatebol ac yn hygyrch i bob plentyn a theulu ledled Cymru.

## 3.3. Datblygu rhaglenni

Mae datblygu yn cyfeirio at ffyrdd y cynlluniodd sefydliadau braenaru eu rhaglenni gwaith [Troednodyn 1].

### 3.3.1. Dulliau

Nododd dogfennau braenaru fod sefydliadau braenaru yn ystyried mentrau blynyddoedd cynnar eraill wrth gynllunio. Er enghraifft, wrth benderfynu ar ardaloedd lleol penodol ar gyfer eu peilot, nad oedd y rhain eisoes wedi'u cwmpasu gan Dechrau'n Deg fel na fyddai gwasanaethau yn cael eu dyblygu a byddai mynediad at wasanaethau'n cael ei ehangu. Roedd dogfennau hefyd yn disgrifio sut y nodwyd anghenion wrth gynllunio. Roedd hyn fel arfer yn cynnwys yr hyn a ddisgrifiodd braenarwyr fel 'mapio', i nodi bylchau a meysydd blaenoriaeth. Nodwyd bylchau ar draws gwahanol feysydd megis y gwasanaethau sydd ar gael, capasiti staff, hyfforddiant y gweithlu, ac argaeledd data. Mewn rhai achosion, disgrifiodd sefydliadau braenaru sut yr aethpwyd ati i ymgynghori â'u defnyddwyr gwasanaethau, i gasglu eu hadborth ynghylch y gwasanaethau a ddarperir. Hefyd, roedd achosion (cyfyngedig) lle nododd sefydliadau braenaru sut yr ymgynghorwyd â'r gweithlu blynyddoedd cynnar i gasglu tystiolaeth am yr hyn oedd yn gweithio'n dda neu ddim cystal. Disgrifiodd rhai sut y gwnaethant nodi eu canlyniadau arfaethedig neu ddangosyddion yn y cam cynllunio, er mwyn dangos beth oeddent am ei gyflawni a llywio cynnydd.

### 3.3.2. Offer

Yn y dogfennau braenaru, nodwyd sut y defnyddiwyd offer penodol wrth ddatblygu rhaglenni, gan gynnwys:

- y 'matrics aeddfedrwydd 7 lens (GOV.UK)', sef offeryn ymarferol sy'n caniatáu i dimau asesu trawsnewid a nodi meysydd i'w gwella
- 'Matrics Aeddfedrwydd Mamolaeth a Blynyddoedd Cynnar yr EIF' (a elwir bellach yn Foundations), sy'n offeryn hunanasesu i gefnogi ardaloedd lleol i fabwysiadu dulliau system gyfan o gefnogi plant a theuluoedd
- y dull 'Vanguard', sy'n cael ei ddarparu drwy raglen hwyluso ac sy’n rhoi’r modd i astudio sefydliadau gwasanaethau fel systemau (fel y disgrifir yn y Gwerthusiad o Raglen Trawsnewid ac Integreiddio’r Blynyddoedd Cynnar)

Troednodiadau
[1] Wrth iddynt ddechrau ymwneud â’r rhaglen integreiddio, gofynnwyd i bob braenarwr fapio eu gwasanaethau a nodi bylchau i lywio blaenoriaethau.

Mae dogfennau braenaru fel arfer yn disgrifio bod yr offerynnau hyn yn cael eu defnyddio i ddeall y system, ac i nodi meysydd gwaith blaenoriaeth wedyn. Nododd rhai hefyd eu bod wedi ailymweld â nhw trwy'r cyfan i ddeall cynnydd.

O ran adnoddau penodol, disgrifiodd rhai sefydliadau braenaru sut yr oeddent wedi manteisio ar waith oedd eisoes yn ei le, er enghraifft, sicrhau cydlyniad â strategaethau ac amcanion presennol ar draws y rhanbarth, neu adeiladu ar gynllunio blaenorol o faes gwaith gwahanol, ond cysylltiedig.

## 3.4. Cydweithio

Mae cydweithio yn cyfeirio at weithio o fewn ac ar draws proffesiynau, gwasanaethau a sefydliadau i ddarparu gwasanaethau a chanlyniadau i blant a theuluoedd o dan y rhaglen integreiddio. Gwnaed cydweithredu yn bosibl trwy weithio mewn partneriaeth effeithiol rhwng darparwyr gwasanaethau blynyddoedd cynnar, cyrff statudol, sefydliadau'r trydydd sector a theuluoedd. Roedd dogfennau braenaru yn amlinellu gwahanol feysydd lle cydweithiodd staff ar draws gwasanaethau a thimau: cynllunio a llywodraethu [Troednodyn 2], darparu gwasanaethau, data a hyfforddiant y gweithlu.

### 3.4.1. Cynllunio a llywodraethu

Disgrifiodd dogfennau braenaru gydweithio â staff o wahanol wasanaethau'r sector blynyddoedd cynnar i fapio gwasanaethau neu systemau cyfredol, datblygu dulliau, cynllunio a blaenoriaethu. Mewn rhai achosion, roedd cydweithio yn y cam cynllunio yn ddefnyddiol i sefydlu perthynas rhwng sefydliadau braenaru yn gynnar. Roedd hyn hefyd yn helpu o ran sicrhau aliniad ar ffyrdd o gydweithio. Roedd cydweithio yn y cam cynllunio yn cynyddu dealltwriaeth o'r cyd-destun ehangach (er enghraifft, ar draws gwahanol awdurdodau lleol mewn un ardal fraenaru) a sut mae gwahanol rannau o'r system yn rhyngweithio (er enghraifft, rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd).

Nododd dogfennau braenaru sut y datblygwyd blaenoriaethau neu ffrydiau gwaith ar lefel ranbarthol ac yn gyson ar draws y rhanbarth, gan amlygu meysydd lle roedd gorgyffwrdd. Fodd bynnag, roeddent hefyd yn disgrifio, oherwydd gwahaniaethau rhwng awdurdodau lleol o fewn rhanbarth y bwrdd iechyd, fod hyblygrwydd eisoes yn yr hyn a oedd ar waith ar y lefel ranbarthol i ganiatáu ar gyfer y gwahaniaethau lleol hyn. Mewn rhai achosion, datblygwyd cynlluniau lleol penodol y ddiweddarach o gynllun rhanbarthol lefel uwch.

### 3.4.2. Darparu gwasanaethau

Roedd cydweithio wrth ddarparu gwasanaethau yn cynnwys ystod o sefydliadau braenaru ar draws blynyddoedd cynnar, iechyd, a gwasanaethau cyfagos gan gynnwys gwasanaethau amenedigol, gofal plant, ysgolion, ymwelwyr iechyd a Rhaglen Plant Iach Cymru, bydwreigiaeth, nyrsio, iechyd meddwl, lleferydd ac iaith, ADY, seicoleg, gweithwyr teulu, Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd

---

Troednodiadau
[2] Roedd cael cytundeb cydweithio ar waith rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn un o amodau cyllid grant y rhaglen integreiddio.

awdurdodau lleol, gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau tai, llyfrgelloedd, a'r trydydd sector.

Canfu sefydliadau braenaru fod y rhaglen integreiddio yn darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer cydweithio. Roedd y cyfleoedd hyn yn hwyluso’r gwaith o feithrin a chryfhau perthnasoedd a rhwydweithiau, deall sgiliau a rolau sefydliadau eraill, gwella cyfathrebu, rhannu gwybodaeth, cyfuno adnoddau a rhannu enghreifftiau o arfer gorau a gwersi a ddysgwyd. Ystyriwyd bod y cyfle i gydweithio â sefydliadau yn y trydydd sector yn bwysig oherwydd eu cysylltiadau cryf â chymunedau lleol, gwella cyrhaeddiad gwasanaethau, a mynediad at wasanaethau lleol eraill a chysylltiadau â nhw.

Roedd cydweithio hefyd yn cefnogi’r ymgais i ddarparu gwasanaethau ar y cyd trwy ad-drefnu neu greu timau newydd i ddod â gwahanol weithwyr proffesiynol blynyddoedd cynnar ac iechyd at ei gilydd. Roedd modd rhannu neu symud cyfrifoldebau i ddiwallu'r anghenion cyd-destunol yn well. Mewn rhai achosion, adroddwyd am fylchau neu aneffeithlonrwydd yn y gwasanaethau a ddarperir oherwydd bylchau mewn cydweithredu lle roedd angen i wasanaethau gydweithio ond nad oeddent yn gwneud hynny eto, neu lle roedd cydweithredu a chyfathrebu anghyson neu aneffeithiol.

### 3.4.3. Datblygiad y gweithlu

Adroddodd dogfennau braenaru fod cydweithredu yn cefnogi’r gwaith o ddatblygu a darparu hyfforddiant i staff. Weithiau cynlluniwyd a chyflwynwyd cyrsiau a chynlluniau hyfforddi ar y cyd ar draws gwasanaethau (megis arbenigwyr iaith a lleferydd yn darparu hyfforddiant i ysgolion ac ymwelwyr iechyd, neu hyfforddiant rhwng gwasanaethau teulu ac ymwelwyr iechyd ar ADY). Weithiau cyflwynwyd hyfforddiant i dimau, gwasanaethau a sefydliadau ar draws ardal fraenaru. Roedd yna hefyd enghreifftiau o hyfforddiant yn cael ei ddarparu gan sefydliadau allanol (yn y trydydd sector, y sector preifat neu'r byd academaidd).

### 3.4.4. Data

Adroddodd sefydliadau braenaru am gydweithio ar ffrydiau gwaith data rhwng awdurdodau lleol, byrddau iechyd ac, mewn rhai achosion, gyda sefydliad allanol (yn y trydydd sector neu'r byd academaidd). Roedd y gwaith hwn yn cynnwys mapio'r setiau data sy'n cofnodi gwasanaethau blynyddoedd cynnar, gwybodaeth ac anghenion carfannau blynyddoedd cynnar, a chyflwyno Cytundebau Rhannu Data. Helpodd hyn i nodi argaeledd data, hygyrchedd, defnyddioldeb a dichonoldeb dulliau rhanbarthol arfaethedig.

### 3.4.5. Cydweithio â theuluoedd

Cydweithiodd sefydliadau braenaru â theuluoedd i ddeall eu hanghenion a'u safbwyntiau ar bynciau fel ymwybyddiaeth o wasanaethau, barn am gymorth sydd ar gael, rhwystrau o ran cael cymorth, ac argymhellion ar gyfer gwella gwasanaethau cymorth. Digwyddodd y cydweithio trwy grwpiau ffocws, cyfweliadau, ymgynghoriadau ac arolygon.

Mewn rhai achosion, roedd yr adborth yn bwydo i waith a wnaed gan staff fel creu cynlluniau cyflawni neu greu adnoddau (ar gyfer staff cyflawni a theuluoedd). Roedd teuluoedd hefyd yn ymwneud â darparu gwasanaethau, megis bod yn hyrwyddwyr rhieni,

datblygu cynlluniau cymorth, datblygu cynnwys ar gyfer adnoddau ar-lein, a datblygu gweledigaeth y blynyddoedd cynnar ar gyfer y rhanbarth.

### 3.4.6. Ffactorau sy'n cefnogi cydweithio

#### 3.4.6.1. Partneriaethau sefydledig

Ymhlith y ffactorau a oedd yn cefnogi cydweithio ar draws y system roedd partneriaethau sefydledig ac effeithiol rhwng sefydliadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, cyfleoedd i gydweithio â Llywodraeth Cymru, mewnbwn aml-asiantaeth i ddatblygu strategaeth a strwythurau llywodraethu da. Darparodd y rhaglen integreiddio yr amser a'r lle i bartneriaethau ddatblygu, a hynny'n hwyluso cydweithio. Roedd manteision hyn yn cynnwys:

- adnabod anghenion cymorth yn well ac yn fwy amserol
- ei gwneud yn haws i lywio'r system, mwy o gysondeb a llai o atgyfeiriadau amhriodol i deuluoedd
- gwelliannau o ran darparu gwasanaethau ac argaeledd y gwasanaethau hynny
- rhannu gwybodaeth
- monitro a gwerthuso]
- cyfathrebu symlach

#### 3.4.6.2. Rolau pwrpasol i gefnogi cydweithio

Roedd rolau penodol yn hanfodol i gynorthwyo cydweithio. Disgrifiodd dogfennau braenaru sut y gwnaeth cydgysylltwyr prosiectau gysylltiadau rhwng gwasanaethau, trefnu cyfarfodydd, cefnogi hyfforddiant a sicrhau goruchwyliaeth ar draws partneriaid darparu. Helpodd rolau strategol i sicrhau bod gwahanol feysydd gwasanaeth yn gweithio gyda'i gilydd (megis iechyd ac addysg). Helpodd rolau cyflawni i yrru cydweithio trwy berchnogaeth a chyfrifoldeb am dasgau a dod â staff at ei gilydd i gyflwyno pecynnau gwaith.

#### 3.4.6.3. Arweinyddiaeth gefnogol

Roedd anogaeth a chefnogaeth gan uwch arweinwyr yn ysgogi cynnydd tuag at integreiddio a thrawsnewid. Teimlwyd bod arweinwyr yn atgyfnerthu'r berthynas rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn arwydd bod integreiddio yn gwella.

#### 3.4.6.4. Elfennau ymarferol

Ar lefel leol, manteisiodd sefydliadau braenaru ar ffactorau ymarferol a oedd yn cefnogi cydweithio, megis cyflwyno cyfarfodydd rheolaidd rhwng sefydliadau penodol ac ehangu presenoldeb mewn cyfarfodydd, cydleoli, a chyfleoedd rhwydweithio fel cynadleddau a gweithdai.

### 3.4.7. Rhwystrau o ran cydweithio

#### 3.4.7.1. Gwahaniaethau sefydliadol

Adroddwyd bod ffactorau sefydliadol, megis gwahanol ddiwylliannau, ieithoedd, blaenoriaethau a dulliau, newidiadau i arweinyddiaeth a rheolaeth, diffyg cefnogaeth, cyfathrebu, a materion rhannu gwybodaeth, i gyd yn effeithio ar allu staff i gydweithio.

#### 3.4.7.2. Capasiti cyfyngedig

Mae pwysau cynyddol ar wasanaethau yn cynyddu llwyth gwaith staff, ac felly mael llai o amser ar gyfer cydweithio. Roedd ymgysylltu gwael ag offer cydweithredu a chyfathrebu gan rai sefydliadau yn gwneud cydweithredu yn anodd ac yn anghyson. Roedd eithrio rhai gwasanaethau neu sectorau yn effeithio'n negyddol ar gydweithredu llawn o dan y rhaglen integreiddio. Cafwyd enghreifftiau o sefydliadau’r trydydd sector yn teimlo eu bod wedi'u gwthio i’r ymylon gan y sector statudol, sy'n adlewyrchu adborth rhai sefydliadau sector statudol ynghylch amharodrwydd i ddibynnu ar sefydliadau'r trydydd sector oherwydd yr ansefydlogrwydd yn eu dyfodol. Roedd diffyg gofod cyd-leoli yn rhwystr arall o ran cydweithio.

#### 3.4.7.3. Diffyg strwythurau llywodraethu priodol

Ymhlith y ffactorau a effeithiodd yn negyddol ar weithio rhyng-asiantaeth roedd diffyg strwythurau atebolrwydd clir a ffiniau proffesiynol, a diffyg dealltwriaeth o broffesiynau eraill. O ran llywodraethu, adroddodd rhai dogfennau braenaru fod strwythurau annigonol a diffyg gweledigaeth glir yn rhwystro cydweithredu.

#### 3.4.7.4. Tirwedd ariannu cymhleth

Mae presenoldeb ffrydiau cyllido niferus weithiau yn golygu bod cylchoedd gwaith yn gwrthdaro, sydd wedi gwneud cydweithredu yn fwy heriol. Mae mecanweithiau cyllido tymor byr hefyd yn peryglu'r parodrwydd i fuddsoddi mewn meithrin cysylltiadau i rai staff.

## 3.5. Llywodraethu

Mae llywodraethu yn cyfeirio at y strwythurau a'r prosesau ar gyfer arwain a rheoli strategaeth.

### 3.5.1. Disgrifiadau o strwythurau llywodraethu

Creodd sefydliadau braenaru strwythurau llywodraethu newydd ar gyfer y rhaglen integreiddio a oedd yn cynnwys byrddau canolog i'r rhaglen integreiddio, llywodraethu lefel uchaf neu lywodraethu lefel is, fel y disgrifir yn yr is-benawdau canlynol.

#### 3.5.1.1. Bwrdd canolog

Roedd yn gyffredin i sefydliadau braenaru fabwysiadu bwrdd rhaglen integreiddio ar lefel ranbarthol, gydag aelodau yn cynnwys cydgysylltwyr ac arweinwyr prosiectau ar draws awdurdodau lleol a byrddau iechyd. Roedd cynrychiolwyr eraill y bwrdd yn dod o addysg, gwasanaethau blynyddoedd cynnar eraill, y trydydd sector, iechyd y cyhoedd, cynghorau lleol, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, a grwpiau darparu rhanbarthol. Rôl y bwrdd oedd goruchwylio'r gwaith cyflawni a darparu cyfeiriad strategol. Roedd strwythurau llywodraethu wrth ymyl y bwrdd canolog yn cynnwys grwpiau pwnc-benodol (er enghraifft, rhianta), a oedd yn aml yn cynnwys aelodau o'r bwrdd canolog. Roedd y grwpiau hyn yn tynnu ar drefniadau llywodraethu ac aelodaeth o wasanaethau sefydledig eraill (megis Dechrau'n Deg, bydwreigiaeth, addysg ac iechyd). Mewn rhai achosion, roedd hyn hefyd yn cynnwys trefniadau llywodraethu lleol (fel byrddau ar lefel awdurdod lleol), yr oedd y grwpiau rhanbarthol yn atebol iddynt.

#### 3.5.1.2. Llywodraethu lefel uchaf

Roedd llywodraethu lefel uchaf yn gorwedd uwchben byrddau canolog y rhaglen integreiddio er mwyn darparu goruchwyliaeth a sicrhau bod trawsnewid ac integreiddio blynyddoedd cynnar yn bwydo i'r gwaith rhanbarthol ehangach. Roedd hyd a lled y trefniadau llywodraethu lefel uchaf yn amrywio ar draws rhanbarthau braenaru. Disgrifiodd rhai fod y bwrdd canolog yn adrodd i mewn i strwythurau llywodraethu presennol; megis ffrydiau gwaith penodol, is-grwpiau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, neu Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Yn gyffredinol, ystyriwyd bod y trefniadau hyn yn gweithio'n dda. Creodd rhanbarthau eraill strwythur llywodraethu lefel uchaf newydd, fel grŵp llywio strategol. Roedd y rhain yn fwy tebygol na strwythurau llywodraethu eraill o gael eu hystyried fel rhai a oedd yn profi problemau fel diffyg cyfeiriad neu faterion ynghylch llunio penderfyniadau strategol.

#### 3.5.1.3. Llywodraethu lefel is

Roedd strwythurau llywodraethu lefel is yn cynnwys grwpiau pwnc-benodol neu grwpiau ffrwd waith gydag aelodaeth o blith darparwyr gwasanaethau, awdurdodau lleol, byrddau iechyd a sefydliadau eraill. Mewn rhai achosion, crëwyd grwpiau pwnc-benodol o dan y rhaglen integreiddio, ond mewn achosion eraill roeddent yn grwpiau presennol y nododd y sefydliadau braenaru eu bod yn bwysig i'w cynnwys, gan gryfhau'r strwythur.

### 3.5.2. Ffactorau sy'n cefnogi llywodraethu effeithiol

Roedd ffactorau sy’n galluogi llywodraethu effeithiol yn cynnwys arweinyddiaeth gref, aelodaeth o grwpiau llywodraethu sy’n gynrychioladol, cael pwrpas clir, a gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

#### 3.5.2.1. Arweinyddiaeth gref

Roedd ffactorau llywodraethu sy'n gysylltiedig â galluogi newid system gyfan yn cynnwys arweinyddiaeth gref a sefydlog a oedd yn darparu gweledigaeth hirdymor a chlir, pwrpas ac eglurder ynghylch strwythurau, systemau a dulliau sydd eu hangen ar gyfer trawsnewid llwyddiannus. Roedd angen i arweinwyr gael ffocws ar y system a gwelededd yn rhanbarthol i fod yn effeithiol. Roedd strwythurau atebolrwydd rhwng y gwahanol lefelau llywodraethu yn bwysig ar gyfer darparu arweiniad strategol a thryloywder.

Roedd strategaeth ranbarthol lwyddiannus yn dystiolaeth o lywodraethu effeithiol. Roedd hyn yn cynnwys cydbwyso'r tensiwn rhwng cyd-destunau ac anghenion amrywiol ac anghenion cystadleuol mewn gwahanol awdurdodau lleol yn y gwahanol ardaloedd braenaru. Roedd llywodraethu effeithiol yn caniatáu hyblygrwydd lleol tra hefyd yn darparu cyfeiriad rhanbarthol trosfwaol.

#### 3.5.2.2. Aelodaeth gynrychioladol

Roedd angen i strwythurau llywodraethu fod yn gynrychioliadol o'r holl sefydliadau rhanddeiliaid perthnasol i sicrhau bod gan arweinyddiaeth ehangder o ran persbectif. Teimlwyd bod eglurder a dealltwriaeth a rennir ar y lefel strategol yn bwysig ar gyfer sut mae hyn yn llywio gweithredu strategaethau, ac felly gwaith trawsnewid, ar draws pob lefel lywodraethu. Roedd y gallu i ddefnyddio strwythurau presennol yn alluogydd arall ar gyfer llywodraethu effeithiol.

Roedd gwaith rhanbarthol yn codi proffil y sector blynyddoedd cynnar gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ac aelodau etholedig. Gwnaeth un Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ymrwymiadau a blaenoriaethu darpariaeth wedi'i thargedu lle roedd ei hangen fwyaf. Adroddodd dogfennau braenaru mai arwydd o strwythurau llywodraethu effeithiol o dan y rhaglen integreiddio oedd mwy o welededd gwaith blynyddoedd cynnar ymhlith cynghorau lleol, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Roedd cysylltiadau sefydledig rhwng byrddau a chyrff llywodraethu eraill yn sicrhau cysondeb wrth ddarparu gwasanaethau ar draws awdurdodau lleol a chyflenwyr gwasanaethau rhanbarthol eraill. Awgrymwyd y dylai cyrff llywodraethu gydblethu â phartneriaethau presennol er mwyn osgoi dyblygu a gwastraffu adnoddau.

#### 3.5.2.3. Pwrpas eglur

Roedd eglurder ar aelodaeth a phwrpas yn bwysig ar gyfer llywodraethu effeithiol. Er mwyn hwyluso gweithdrefnau a blaenoriaethau llywodraethu, roedd angen rolau cydgysylltu. Roedd gan y cydgysylltwyr y gallu i oruchwylio'r rhaglen ac ymgymryd â gweithgareddau cynllunio, ymchwil a gwerthuso.

#### 3.5.2.4. Gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth

Roedd dulliau ac offer rheoli prosiect yn cefnogi llywodraethu effeithiol. Roedd y rhain yn cynnwys defnyddio meddalwedd (fel Power BI) i goladu gwybodaeth a gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a defnyddio pwyntiau gwirio ar gyfer adrodd yn rheolaidd.

### 3.5.3. Rhwystrau o ran llywodraethu

Roedd y rhwystrau o ran llywodraethu effeithiol yn cynnwys strwythurau llywodraethu rhy gymhleth, diffyg atebolrwydd gan arweinwyr, cyfeiriad strategol ac arweinyddiaeth annigonol, a dim digon o arweiniad a chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru.

#### 3.5.3.1. Strwythurau llywodraethu cymhleth

Roedd amcanion sefydliadol anghyfatebol, blaenoriaethau cystadleuol a diffyg eglurder yn achosi cymhlethdod mewn strwythurau llywodraethu o dan y rhaglen integreiddio. Ar gyfer un ardal fraenaru, roedd yn rhaid treulio llawer iawn o amser yn mapio'r strwythurau llywodraethu a phartneriaeth oherwydd eu cymhlethdod. Roedd yr ymarfer mapio hwn i nodi sut y dylid gwneud penderfyniadau ymhlith grwpiau llywodraethu ar lefel leol a rhanbarthol, ochr yn ochr â gwaith a blaenoriaethau trawsnewid ac integreiddio eraill. Roedd y cymhlethdod hwn mewn strwythurau llywodraethu yn achosi system ddarniog mewn rhai achosion, ac roedd partneriaethau a oedd wedi gweithio’n dda yn flaenorol yn cael eu hatal rhag gwneud newid effeithiol.

Roedd yr anallu i ddefnyddio strwythurau llywodraethu presennol yn rhwystr arall o ran llywodraethu effeithiol o fewn y rhaglen integreiddio. Enghraifft a ddarparwyd oedd diffyg aliniad ag amcanion Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a pheidio ag egluro o'r dechrau sut mae'r lefel uwch hon o lywodraethu yn effeithio ar waith y rhaglen integreiddio. Roedd peidio â deall y darlun ehangach, megis sut mae'r grŵp llywio yn ffitio i dirwedd llywodraethu rhanbarthol sydd eisoes yn gymhleth, yn effeithio ar ei allu i wneud penderfyniadau effeithiol. Ar ben hynny, codwyd pryderon bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn rhy bell i ffwrdd o waith darparu gwasanaethau i allu gwerthfawrogi anghenion teuluoedd a staff yn llawn.

Achosodd diffyg eglurder ynghylch rolau, cylch gwaith a chyfrifoldebau heriau o ran llywodraethu effeithiol. Roedd problemau gydag aelodaeth hefyd yn her i lywodraethu effeithiol. Roedd achosion o gynrychiolwyr byrddau iechyd nad oeddent yn ymuno â grwpiau llywio tan yn ddiweddarach yn y rhaglen neu o ddiffyg cynrychiolaeth o broffesiynau yn gyfan gwbl (roedd bydwreigiaeth a'r trydydd sector yn enghreifftiau a ddarparwyd). Mae newidiadau mewn strwythurau rheoli yn aml yn effeithio ar awdurdodau lleol llai o faint yn fwy na rhai mwy o faint, oherwydd nad ydynt yn gallu amsugno effaith aflonyddwch gystal.

#### 3.5.3.2. Diffyg atebolrwydd

Nododd dogfennau braenaru fylchau mewn arweinyddiaeth ac atebolrwydd a effeithiodd ar gyflawni'r rhaglen integreiddio. Roedd hyn yn weladwy trwy ddiffyg gwneud penderfyniadau gan grwpiau llywio neu benderfyniadau byrddau canolog yn cael eu gwneud heb i’r aelodau priodol fod yn bresennol. Roedd cwynion nad oedd byrddau canolog yn cyfarfod yn ddigon rheolaidd i yrru cynnydd yn ei flaen ac i ymgysylltu â darparwyr gwasanaeth. Beirniadwyd

Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus hefyd mewn rhai rhanbarthau am eu diffyg arweinyddiaeth a chyfathrebu â rhanddeiliaid.

I rai sefydliadau braenaru, roedd y bylchau hyn mewn arweinyddiaeth ac atebolrwydd yn golygu, ar ddiwedd cyfnod ariannu'r rhaglen integreiddio, nad oeddent yn llwyddo i gynnal brwdfrydedd dros integreiddio a thrawsnewid na gweithredu argymhellion. Roedd hyn yn effeithio ar waddol y rhaglen integreiddio.

#### 3.5.3.3. Cyfeiriad ac arweinyddiaeth strategol annigonol

Roedd diffyg gweledigaeth neu strategaeth gydlynol yn her lywodraethu arall. Mewn rhai achosion, ymddengys nad oedd strategaeth blynyddoedd cynnar rhanbarthol yn bodoli o gwbl. Nododd y ddogfennaeth yr angen i greu strategaeth blynyddoedd cynnar ranbarthol, gan gynnwys sicrhau bod hyn yn dod â'r holl strategaethau neu gynlluniau perthnasol at ei gilydd ar draws yr awdurdodau lleol a'r bwrdd iechyd yn y gwahanol ranbarthau.

Adroddwyd am heriau penodol wrth greu strategaethau rhanbarthol, megis amrywiadau yn y gwasanaethau a ddarperir, o fewn awdurdodau lleol (er enghraifft, amrywiaeth rhwng ardaloedd trefol a gwledig) ac ar draws awdurdodau lleol. Roedd hyn hefyd yn cynnwys anghydbwysedd mewn cynrychiolaeth ar draws awdurdodau lleol yn rhanbarth y bwrdd iechyd, lle teimlwyd bod cyfeiriad y gwaith neu'r blaenoriaethau yn cyd-fynd yn well ag anghenion a chyd-destun yr awdurdodau lleol mwy o faint, oherwydd gwelededd staff mewn strwythurau llywodraethu a bod mwy o wasanaethau wedi'u lleoli yno. Un enghraifft oedd diffyg strategaeth ar draws yr awdurdodau lleol mewn rhanbarth bwrdd iechyd oherwydd iddynt ganolbwyntio ar ddefnyddio'r cyllid ar waith prosiect, yn hytrach na defnyddio'r cyllid fel mecanwaith ar gyfer newid ac integreiddio; ni nodwyd ar y dechrau pa drawsnewidiad strategol ehangach yr oeddent yn anelu at ei gyflawni.

O ran arweinyddiaeth, cwynodd un sefydliad braenaru am ddiffyg eglurder neu gysondeb yn ymwneud â strwythurau, gweledigaeth a strategaeth. Adroddwyd hefyd am ddiffyg presenoldeb neu ysgogiad gan uwch arweinwyr o fewn strwythurau llywodraethu; mewn rhai achosion, teimlwyd bod cefnogaeth uwch arweinyddiaeth yn gostwng dros gyfnod y rhaglen.

#### 3.5.3.4. Llywodraethu gan Lywodraeth Cymru

Y mater y cyfeiriwyd ato amlaf yn ymwneud â llywodraethu'r rhaglen integreiddio o dan Lywodraeth Cymru oedd arweiniad a chymorth annigonol. Weithiau roedd sefydliadau braenaru yn teimlo bod diffyg eglurder ac arweiniad ar yr hyn yr oedd Llywodraeth Cymru eisiau ei gyflawni: y cyfeiriad strategol a'r weledigaeth ar gyfer integreiddio'r blynyddoedd cynnar. Roedd hyn yn cynnwys adrodd am ddiffyg cymorth parhaus. Roedd sefydliadau braenaru hefyd yn cael trafferth yn sgil ymgysylltiad isel gan Lywodraeth Cymru tuag at ddiwedd y rhaglen (ar ôl pandemig COVID-19), gyda llai o gyfarfodydd i ddod â sefydliadau braenaru at ei gilydd.

Soniodd dogfennau braenaru hefyd am broblemau gydag amserlenni. Roedd hyn yn cynnwys oedi wrth gadarnhau cyllid. Hefyd, cyfeiriwyd at amserlenni a oedd yn rhy fyr i ddatblygu a chyflwyno cynlluniau busnes i Lywodraeth Cymru, gyda hynny'n effeithio ar ddatblygu amcanion strategol.

Soniwyd mewn dogfennau braenaru am heriau gyda'r gofynion monitro ac adrodd a nodir yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru. Roedd hyn yn cynnwys datgan bod y gofynion a'r amserlenni hyn yn aneglur ac yn brin o ganllawiau digonol. Hefyd, roedd maint ac amlder y wybodaeth yn ormod. Yn olaf, her lywodraethu arall oedd diffygion o ran cysylltu'r rhaglen integreiddio â blaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru.

Roedd materion llywodraethu eraill sy'n ehangach na'r rhaglen integreiddio a brofwyd gan sefydliadau braenaru gyda Llywodraeth Cymru yn cynnwys llywodraethu or-gymhleth oherwydd ffrydiau ariannu lluosog, a dangosyddion gwahanol wedi'u gosod ar gyfer awdurdodau lleol a byrddau iechyd (a oedd yn rhwystr o ran gweithio integredig yn rhanbarthol).

## 3.6. Staff

Roedd y thema 'staff' yn cwmpasu pwyntiau yn ymwneud â'r gweithlu, a oedd yn canolbwyntio'n bennaf ar faterion capasiti fel recriwtio, cadw gweithwyr ac uwchsgilio. Roedd y mathau o rolau yr ymgymerodd staff â hwy fel rhan o'r rhaglen integreiddio hefyd yn amlwg, yn ogystal ag effaith diwedd y cyllid.

### 3.6.1. Meithrin capasiti

Roedd recriwtio, sefydlu a hyfforddiant yn weithgareddau cyffredinol a gynhaliwyd yn ymwneud â staff. Roedd recriwtio llwyddiannus yn cynyddu’r gwasanaethau a ddarparwyd, yn enwedig lle roedd gofyn am sgiliau arbenigol (er enghraifft, gweithio gyda thadau). Nodwyd bod galwadau’r gwaith integreiddio yn gofyn am fwy o staff oherwydd llwythi gwaith cynyddol. Mabwysiadodd sefydliadau braenaru wahanol ddulliau i fynd i'r afael â heriau recriwtio. Roedd prosesau recriwtio yn aml yn hirach na'r disgwyl. Lle roedd oedi wrth recriwtio a sefydlu staff newydd, ni chasglwyd unrhyw ddata i ddangos sut roedd bylchau mewn gwasanaethau yn cael eu llenwi.

Roedd hyfforddiant yn cwmpasu ystod eang o weithgareddau, gan gynnwys uwchsgilio, mentora a datblygu llwybrau dilyniant gyrfa. Roedd y rhaglen integreiddio yn rhoi cyfle i weithwyr proffesiynol sydd eisoes â sgiliau medrus iawn i ddatblygu sgiliau newydd na fyddent wedi gallu eu hennill fel arall. Adroddodd rhai sefydliadau fod cefnogaeth gyson wedi'i darparu fel rhan o'r pecyn hyfforddi, gan gynnwys cymorth ôl-hyfforddiant. Roedd trosiant uchel o staff yn y sector blynyddoedd cynnar yn golygu bod cynnig hyfforddiant a chymorth parhaus yn hanfodol o dan y rhaglen integreiddio.

Datblygwyd hyfforddiant yn aml gyda mewnbwn a chydweithrediad amlddisgyblaethol, er mwyn sicrhau bod rhaglenni hyfforddi yn diwallu anghenion y rhaglen integreiddio. Mewn un ardal, datblygwyd rôl benodol i nodi anghenion hyfforddi staff. Roedd rheolwyr yn aml yn gyfrifol am adolygu hyfforddiant i sicrhau ei fod yn berthnasol ac yn briodol i'w staff. Adroddodd rhai sefydliadau braenaru fod tanwariant yn eu cyllidebau rhaglen integreiddio blynyddol wedi'i fuddsoddi yn ôl mewn hyfforddiant staff. Mewn un achos, manteisiwyd ar gyllid y rhaglen integreiddio i'r eithaf trwy greu rôl benodol (yn gysylltiedig ag awdurdod lleol penodol) a oedd gyfrifol am arwain, cyflwyno a chyflawni’r rhaglen hyfforddi ar draws y rhanbarth. Cynhaliwyd sesiynau hyfforddi mewn sawl lleoliad ledled y rhanbarth i gynyddu hygyrchedd i staff.

### 3.6.2. Effaith y cyllid yn dod i ben

Cafodd diwedd cyllid y rhaglen integreiddio effaith sylweddol ar rai staff, yn enwedig os oedd rolau'n cael eu hariannu gan y rhaglen integreiddio. Adroddodd dogfennaeth fod rhai swyddi wedi'u dileu’n llwyr tra bod eraill wedi'u hamsugno i raglenni eraill (er enghraifft, Dechrau'n Deg). Wrth gael gwared ar swyddi, collwyd gwybodaeth, sgiliau, perthnasoedd, cydgysylltiad a momentwm i gyflawni nodau’r rhaglen integreiddio.

### 3.6.3. Ffactorau sy'n cefnogi staff

Ymhlith y ffactorau galluogi sy'n cefnogi'r thema 'staff', roedd arferion recriwtio a chadw llwyddiannus, rolau pwrpasol, cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a datblygu, gweithio mewn partneriaeth a morâl staff cadarnhaol.

#### 3.6.3.1. Arferion recriwtio a chadw llwyddiannus

Adroddodd dogfennau sut roedd recriwtio effeithlon o fudd i'r rhaglen integreiddio yn gyffredinol, oherwydd gallai'r rhaglen symud ymlaen gyda'r bobl iawn yn y swyddi a lleddfu pwysau o ran capasiti. Soniwyd bod y rhaglen integreiddio wedi hwyluso recriwtio i'r sector blynyddoedd cynnar oherwydd ei henw da. Galluogwyd recriwtio llwyddiannus gan ddulliau wedi'u targedu, gan hyrwyddo'r rhaglen a'r ffyrdd o weithio i ddenu ymgeiswyr. Roedd poblogrwydd y 'ffyrdd o weithio' o dan y rhaglen integreiddio yn gymorth o ran cadw staff.

Pan nad oedd recriwtio staff yn bosibl, disgrifiodd sefydliadau newidiadau mewn arddulliau gweithio a helpodd gyda chapasiti a llwyth gwaith (yn enwedig ar gyfer ymwelwyr iechyd). Roedd addasiadau yn cynnwys llwybrau atgyfeirio unigol a hyfforddi proffesiynau eraill i gyflwyno asesiadau penodol.

#### 3.6.3.2. Rolau

Soniwyd am ystod eang o rolau yn y ddogfennaeth fraenaru fel rhai sy'n ymwneud â'r rhaglen integreiddio. Roedd hyn yn cynnwys rolau a ariannwyd yn uniongyrchol gan y rhaglen integreiddio a'r rhai a oedd yn gysylltiedig ond heb eu hariannu. Roedd swyddi a ariannwyd yn cynnwys cydgysylltwyr, rolau ymgysylltu â'r gymuned, rolau hyfforddi/datblygu’r gweithlu, hyfforddwyr, a dadansoddwyr data arbenigol. Roedd rolau heb eu hariannu a chwaraeodd ran sylweddol wrth drawsnewid ac integreiddio gwasanaethau blynyddoedd cynnar yn cynnwys gweithwyr iechyd proffesiynol (megis ymwelwyr iechyd, therapyddion lleferydd, iaith a chyfathrebu, gweithwyr iechyd meddwl, bydwragedd, nyrsys cofrestredig, partneriaid iechyd cyhoeddus), darparwyr gofal plant (er enghraifft, gweithwyr meithrin), gweinyddwyr, arbenigwyr data, gweithwyr cymunedol, darparwyr hyfforddiant ac arweinwyr (megis arweinwyr strategol, arweinwyr ffrwd waith, arweinwyr rhanbarthol). Cyfrannodd gwirfoddolwyr hefyd at y gwaith o dan y rhaglen integreiddio.

Mae llawer o ddogfennau braenaru yn disgrifio manteision rhai rolau a oedd naill ai wedi'u hariannu trwy'r rhaglen integreiddio, neu'n gweithio fel rhan ohoni. Er enghraifft, disgrifiwyd y cydgysylltwyr fel staff 'allweddol' i holl oes y rhaglen, o adolygu i gynllunio a darparu gwasanaethau. Un o gryfderau rôl cydgysylltwr oedd gallu edrych yn wrthrychol ar y darlun cyffredinol a chanolbwyntio ar ddatblygu'r weledigaeth ar gyfer y rhanbarth. Roedd y cydgysylltwyr yn gweithio'n hyblyg, yn canolbwyntio ar weithredu, ac yn gweithredu fel

cyfrwng rhwng gwasanaethau a theuluoedd, a oedd yn hanfodol i lwyddiant y rhaglen. Disgrifiwyd rolau iechyd penodol sy'n darparu gwasanaethau yn gadarnhaol, gan gynnwys seicolegwyr clinigol, nyrsys cymunedol ac ymwelwyr iechyd arbenigol. Roedd rolau eraill sy'n ymwneud â thrawsnewid hefyd yn cynnwys arweinwyr bydwreigiaeth, arweinwyr clinigol, swyddogion ymgysylltu â rhieni, rheolwyr gwasanaethau, swyddogion cynllunio, datblygu a monitro, a swyddogion cyngor.

Roedd rolau eraill a grybwyllwyd fel rhai allweddol yn llwyddiant cyffredinol y rhaglen integreiddio yn cynnwys rolau sy'n canolbwyntio ar y gweithlu, a oedd yn nodi anghenion hyfforddi ac yn cyfrannu at uwchsgilio cyffredinol y gweithlu blynyddoedd cynnar. Roedd rolau rheoli prosiectau, fel yr Uwch Swyddog Cyfrifol, yn bwysig ar gyfer meithrin a chynnal momentwm ac ymgysylltu trwy gydol y rhaglen a sicrhau bod data yn cael ei gasglu'n gyson. Roedd swyddi sy'n cefnogi datblygu a chydgysylltu hyfforddiant yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer datblygiad proffesiynol staff.

Ffactor arwyddocaol a alluogodd drawsnewid ac integreiddio systemau cyfan oedd mwy o ddealltwriaeth ymhlith gweithwyr proffesiynol ac ymarferwyr o rolau a galluoedd ei gilydd.

#### 3.6.3.3. Cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a datblygiad

Credwyd bod y datblygiad yn y gweithlu blynyddoedd cynnar o dan y rhaglen integreiddio yn alluogydd sylfaenol i'w llwyddiant. Helpwyd hyn gan y cynnydd sylweddol yn y cynnig hyfforddiant, gan fod y cynnig hyfforddiant yn berthnasol i anghenion staff a bod ganddo rolau pwrpasol i gefnogi datblygiad proffesiynol. Roedd rheolwyr hefyd yn hanfodol o ran cefnogi a galluogi datblygiad staff.

Disgrifiodd dogfennau braenaru yr ystod eang o hyfforddiant a ddarparwyd gan y sefydliadau braenaru i'r gweithlu yn ystod y rhaglen integreiddio. Roedd hyn yn cynnwys hyfforddiant ar feysydd iechyd meddwl amenedigol, lleferydd, iaith a chyfathrebu, datblygiad plant, lles rhieni, cwsg, synhwyraidd ac ymataliaeth. Roedd darparu hyfforddiant mewn ffordd gydgysylltiedig a chydweithredol yn cefnogi datblygiad staff ar draws y sector blynyddoedd cynnar. Roedd cydgysylltu hyfforddiant yn golygu sicrhau bod staff ar draws sefydliadau, timau a phroffesiynau yn cael mynediad cyfartal i'r un hyfforddiant, neu gyfleoedd i rannu gwybodaeth.

#### 3.6.3.4. Gweithio mewn partneriaeth

Roedd staff yn gweithio gyda'i gilydd ac yn meithrin partneriaethau yn hanfodol i lwyddiant y rhaglen integreiddio. Roedd staff profiadol iawn yn rhan o'r rhaglen a oedd yn rhannu gwybodaeth ac yn helpu i feithrin perthynas waith dda â gweithwyr proffesiynol eraill. Adroddodd un ddogfen fod partneriaid y trydydd sector yn teimlo bod y rhaglen yn hwyluso'r berthynas rhyngddynt a'r sector statudol.

#### 3.6.3.5. Morâl

Mae dogfennaeth yn dangos bod staff yn teimlo bod cael eu gwerthfawrogi yn bwysig. Roedd teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi yn ganlyniad i wahanol arferion a dulliau, gan gynnwys staff yn deall sut mae eu rôl yn ffitio yn y system ehangach ac ar draws timau, teimlo bod eu hadborth neu syniadau yn cael eu croesawu a'u hystyried, a gweld angerdd neu ymrwymiad gan y rhai mewn rolau arwain (fel cydgysylltwyr).

### 3.6.4. Rhwystrau i staff

Roedd rhwystrau i staff yn cynnwys materion ynghylch sefydlogrwydd a chynaliadwyedd, materion recriwtio a chadw, yr anallu i fodloni gofynion hyfforddi, materion capasiti a heriau demograffig.

#### 3.6.4.1. Materion ynghylch sefydlogrwydd a chynaliadwyedd

Dangosodd adroddiadau fod sefydlogrwydd a chynaliadwyedd ymdrechion trawsnewid ac integreiddio yn cael eu peryglu gan gyllid tymor byr oherwydd yr hyn y gellid ei gyflawni'n realistig yn amser y rhaglen integreiddio. Mae heriau gyda recriwtio, cadw staff a gallu wedi creu ansefydlogrwydd mewn timau trwy atal datblygiad cysylltiadau a chymunedau proffesiynol hirdymor.

Nododd un ddogfen fraenaru fod diffyg cynllun gweithlu blynyddoedd cynnar yn rhwystr sylweddol o ran nodi a chefnogi anghenion datblygiad proffesiynol staff sy'n gweithio ar integreiddio systemau.

Roedd diffyg cefnogaeth a gallu gan uwch reolwyr ac arweinwyr, ynghyd â diffyg gwybodaeth am brif faterion 'ar lawr gwlad', yn amlwg yn y prinder momentwm ac ymdrech i weithredu trawsnewid ac integreiddio mewn un ardal fraenaru. Roedd cyfeiriad strategol yn lleihau pan nad oedd rolau penodol bellach ar waith. Rhwystr arall oedd diffyg eglurder o gyfrifoldebau a ffiniau rhai rolau. Roedd hyn yn cynnwys rolau strategol a rolau arbenigol.

#### 3.6.4.2. Materion recriwtio a chadw

Roedd problemau gyda recriwtio a chadw yn rhwystr y soniwyd amdano yn aml. Roedd rhai sefydliadau braenaru yn adrodd fod recriwtio staff yn broses hir a’u bod weithiau yn wynebu oedi; nid yw hynny’n cyd-fynd â natur tymor byr y rhaglen. Roedd trosiant staff uchel, gyda sôn am gontractau tymor byr a phenodol, contractau dim oriau, a thâl hefyd yn heriau sy'n ymwneud â staff.

Disgrifiodd dogfennau braenaru sut roedd problemau gyda recriwtio yn effeithio ar gyflawni. Gan fod recriwtio yn cymryd amser hir, roedd hyn gan amlaf yn achosi oedi o ran cyflwyno ac yn golygu bod yr hyn y gellid ei gyflawni yn yr amserlen yn gyfyngedig. Fe wnaethant hefyd ddisgrifio sut roedd problemau gyda chadw yn effeithio ar ddarpariaeth, gan gynnwys diffyg ymgysylltiad gan rai timau, colli gwybodaeth neu ddysgu, neu golli rolau arbenigol sy'n arwain at fylchau mewn gwasanaethau arbenigol.

#### 3.6.4.3. Anallu i fodloni'r holl ofynion hyfforddi

Soniodd dogfennau braenaru hefyd am broblemau gyda hyfforddiant, sydd, mewn rhai achosion, yn gysylltiedig â'r problemau gyda recriwtio a chadw gan fod lefelau uchel o drosiant yn golygu bod galw am uwchsgilio staff newydd. Roedd heriau eraill gyda hyfforddiant yn cynnwys anawsterau creu cynlluniau hyfforddi a oedd yn mynd i'r afael â'r amrywiaeth ar draws anghenion y gweithlu, staff yn methu mynychu hyfforddiant oherwydd capasiti isel, a rheolwyr yn dad-flaenoriaethu hyfforddiant ar ôl y rhaglen integreiddio. Nid oedd ymdrech i greu cynlluniau hyfforddi ar lefel ranbarthol, gan fod ffocws ar gynlluniau hyfforddi yn digwydd ar lefel sefydliadol.

#### 3.6.4.4. Materion o ran capasiti

Roedd capasiti staff cyfyngedig, o ran llwythi gwaith uchel a diffyg staffio, yn golygu nad oedd prosiectau'n gallu cyflawni amcanion y rhaglen integreiddio yn llawn. Roedd llwythi gwaith staff ar draws llawer o broffesiynau blynyddoedd cynnar yn golygu eu bod eisoes yn gweithio i’r eithaf, gan olygu nad oedd llawer o amser i gynllunio a darparu gwasanaethau ychwanegol. Roedd y gallu i gyd-gynhyrchu gwasanaethau i blant a theuluoedd hefyd yn brin am y rheswm hwn. Weithiau, roedd staff yn teimlo eu bod wedi'u llethu gan yr angen i gyflawni'r gweithgareddau peilot ac integreiddio yn ogystal â'u rolau arferol.

#### 3.6.4.5. Heriau demograffig

Nododd dogfennau braenaru effaith gweithlu sy'n heneiddio. Roedd y gweithlu sy'n heneiddio yn cynnwys hyblygrwydd ynghylch ymddeol a dychwelyd i'r gwaith yn ddiweddarach, a oedd yn bositif i weithwyr, ond hefyd yn arwain at rai canlyniadau negyddol (ac anfwriadol). Roedd y rhain yn cynnwys cyfran sylweddol o weithwyr rhan-amser, ansefydlogrwydd, ac anghysondebau ynghylch cadw staff profiadol, ac angen ailhyfforddi staff.

Ar ben hynny, nodwyd her gyda recriwtio siaradwyr Cymraeg a hyrwyddo'r iaith a diwylliant Cymraeg mewn gwasanaethau blynyddoedd cynnar. Canfuwyd anghysondebau yn genedlaethol ac yn lleol o ran argaeledd darpariaeth gwasanaethau Cymraeg. Roedd y mater hwn yn fwy nodedig mewn ardaloedd lle mae'r gyfran o'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg yn uwch, ac felly mae'r galw am wasanaethau Cymraeg yn uwch. Mewn achosion lle cafodd siaradwyr Cymraeg eu recriwtio, roedd cyfraddau cadw gwael (oherwydd ansefydlogrwydd rolau a ariennir yn y tymor byr) yn golygu bod yr her yn parhau.

Ar gyfer rhanbarthau sy’n rhannu ffin â Lloegr, roedd her ychwanegol wedi'i nodi gyda'r angen am weithio trawsffiniol. Roedd hyn yn ychwanegu haen o gymhlethdod wrth ddarparu gwasanaetha; roedd gofyn am wybodaeth am sut roedd awdurdodau Lloegr yn gweithio a deall anghenion teuluoedd sy'n byw mewn ardaloedd ar y ffin.

## 3.7. Cyllido

### 3.7.1. Trawsnewid ac integreiddio craidd

Mae'r gwaith a wnaeth ardaloedd lleol oherwydd y cyllid wedi galluogi trawsnewid ehangach ar draws rhanbarthau. Er bod y cyllid yn fyrdymor, roedd yn dal i ganiatáu i fraenarwyr greu'r ffordd graidd o weithio a'i sefydlu i barhau heb gyllid. Hwylusodd cyllid y rhaglen integreiddio y prosiectau a wellodd fynediad at wasanaethau i deuluoedd. Yn gyffredinol, roedd sefydliadau braenaru yn teimlo bod cyllid y rhaglen integreiddio yn cefnogi’r gwaith o ddarparu gwasanaethau, megis gallu cyfrannu cyllid ar gyfer rolau ymarferwyr penodol neu allu darparu grwpiau a gweithgareddau y gall teuluoedd eu cyrchu am ddim. Roedd cyllid hefyd yn cefnogi cydweithio trwy alluogi gwasanaethau i ddod at ei gilydd a gweithio mewn partneriaeth.

### 3.7.2. Meysydd buddsoddi

Nododd dogfennau braenaru sawl maes a oedd wedi bod yn bwysig ar gyfer buddsoddi yn ystod y rhaglen, gan gynnwys hyfforddiant, recriwtio, marchnata a darparu gwasanaethau.

### 3.7.3. Effaith COVID-19

Achoswyd heriau ariannol gan ffactorau allanol. Er enghraifft, roedd pandemig COVID-19 yn golygu bod gweithredu wedi'i atal dros dro a bod cyllid wedi’i ddargyfeirio, fel yr adroddwyd mewn dogfennau braenaru. Roedd hyn yn dylanwadu ar allu sefydliadau braenaru i gynllunio a darparu gwasanaethau fel y bwriadwyd.

### 3.7.4. Effaith y cyllid yn dod i ben

Soniodd adroddiadau braenaru am lawer o oblygiadau diwedd cyllid y rhaglen integreiddio. Yr effaith ar gynhaliaeth y soniwyd amdani fwyaf aml; roedd sefydliadau braenaru yn pryderu am gynaliadwyedd darparu gwasanaethau, systemau data, cadw staff, momentwm ar gyfer y weledigaeth o integreiddio systemau, a chynllunio yn y dyfodol. Nodwyd nifer o risgiau, gan gynnwys risg i gydweithio ac o dychwelyd i’r ffyrdd o weithio a ddefnyddiwyd cyn y rhaglen (sef gweithio mewn seilo), ehangu’r rhaglen, ac effaith negyddol ar deuluoedd sy'n cael mynediad at wasanaethau. Mewn rhai achosion, nododd dogfennau, y byddai gwasanaethau yn dychwelyd i'r hyn a gynigiwyd cyn y rhaglen integreiddio, megis cael eu cyfyngu i ardaloedd daearyddol penodol neu gyfrifoldebau craidd yn unig.

Ers i'r cyllid ddod i ben, mae braenarwyr wedi gorfod bod yn greadigol wrth ddefnyddio’r arian, adolygu cyllidebau, a chwilio am ffrydiau cyllido eraill i barhau i weithio tuag at integreiddio systemau.

### 3.7.5. Galluogwyr cyllid

#### 3.7.5.1. Defnyddio adnoddau i’r eithaf

Disgrifiodd dogfennau braenaru sut y defnyddiwyd adnoddau i’r eithaf i allu darparu'r gwasanaeth gorau posibl o fewn cyfyngiadau'r rhaglen integreiddio. Roedd y ffyrdd yr oedd sefydliadau braenaru wedi arbed arian neu ddefnyddio adnoddau i’r eithaf yn cynnwys:

- darparu hyfforddiant yn fewnol, yn hytrach na defnyddio darparwyr allanol
- dod â ffrydiau cyllido at ei gilydd, er enghraifft o iechyd, iechyd meddwl a'r byd academaidd
- gweithio ar y cyd ar draws gwasanaethau o fewn rhanbarthau i gyfuno cyllidebau
- archwilio opsiynau i ailddosbarthu ac ailalinio cyllidebau i ddarparu gwasanaethau
- symleiddio prosesau darparu gwasanaethau fel y gallai mwy o deuluoedd a phlant gael mynediad at wasanaethau ond heb gostau ychwanegol i sefydliadau braenaru
- addasu modelau a chynllunio strategol i fynd i'r afael â materion a achosir gan heriau ariannol wrth iddynt godi

#### 3.7.5.2. Llwyddiannau cyllidebu

Disgrifiodd dogfennau braenaru hefyd lwyddiannau sy'n ymwneud â chyllidebau hyfforddi. Roedd darparu hyfforddiant yn fewnol neu gymryd ymagwedd strategol at yr hyfforddiant a gynigir ar draws y gweithlu blynyddoedd cynnar yn darparu gwerth am arian.

#### 3.7.6. Rhwystrau o ran ariannu

Roedd rhwystrau o ran ariannu yn cynnwys effaith cyllid tymor byr, prosesau cyllido cymhleth ac anhyblyg, goruchwyliaeth ariannol annigonol, ac effaith y rhain ar deuluoedd a sefydliadau.

##### 3.7.6.1. Effaith cyllid tymor byr

Heb os, yr her y soniwyd amdani fwyaf wrth geisio integreiddio a thrawsnewid system oedd cyllid tymor byr. Mae'r diffyg cyllid tymor hwy wedi effeithio ar allu sefydliadau i gwrdd â chanlyniadau integreiddio a thrawsnewid. Roedd sefydliadau braenaru o'r farn bod cael cyllid ar gyfer tymor byr, sefydlog yn cyfleu'r neges bod integreiddio'r blynyddoedd cynnar yn rhywbeth 'braf i'w gael' yn hytrach na mecanwaith ar gyfer newid go iawn. Credwyd bod perygl colli unrhyw newid a gyflawnwyd o dan y rhaglen integreiddio yn sgil yr amser cyfyngedig yr oedd cyllid y rhaglen integreiddio ar gael oherwydd y pwysau ar wasanaethau craidd. Roedd hyn yn risg i gynaliadwyedd a gwaddol hirdymor y rhaglen integreiddio.

Teimlwyd bod diffyg cyllid hirdymor wedi achosi ansefydlogrwydd mewn staffio, trosiant uchel a llai o gapasiti ar gyfer gweithio mewn partneriaeth hirdymor. Adroddodd dogfennau yn aml nad oedd y cyllid tymor byr yn ddigonol i ddatrys y nod hirdymor o integreiddio systemau. Roedd hyn yn peri i rai gredu nad oedd Llywodraeth Cymru yn cymryd y dasg o ddifrif, yn enwedig o'i gymharu â chronfeydd mwy 'arwyddocaol' a hirdymor.

Roedd cyllid sefydlog i bob blwyddyn ariannol yn cyfyngu ar hyblygrwydd sefydliadau braenaru i wneud cynllunio adnoddau hirdymor effeithiol ac yn golygu bod yn rhaid iddynt ailwerthuso dyraniad adnoddau yn rheolaidd. Teimlwyd bod amserlenni mor fyr ar gyfer cyllid wedi creu ymdeimlad o frys i wario arian, yn hytrach na chymryd yr amser i ddeall ble y byddai'n cael ei ddefnyddio orau.

##### 3.7.6.2. Prosesau ariannu cymhleth

Roedd sefydliadau braenaru yn gweld y broses ariannu gyffredinol yn hir ac yn gymhleth. Gwaethygwyd y cymhlethdod gan fodolaeth ffrydiau cyllido lluosog, a ddisgrifiwyd gan ddogfennau braenaru fel 'dryslyd'. Roedd y ffrydiau cyllido a'r polisïau y soniwyd amdanynt yn cynnwys: y Cynnig Gofal Plant, Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, Plant Iach Cymru, y 1000 Diwrnod Cyntaf, y Gronfa Gofal Integredig, Adeiladu Cymru Iachach, y Rhaglen Cefnogi Pobl (pdf), Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar, cyllid gwasanaethau statudol a phrosiectau'r sector gwirfoddol. Mae gan bob ffynhonnell ariannu ei meini prawf ei hun ar gyfer cymhwysedd, sy'n creu cymhlethdod i rieni a gweithwyr proffesiynol. Yn ogystal, adroddwyd bod ffrydiau cyllido ar wahân yn achosi dyblygu ac yn effeithio ar ansawdd y cymorth a gynigir i blant a theuluoedd.

##### 3.7.6.3. Prosesau ariannu anhyblyg

Adroddodd dogfennau fod anhyblygrwydd gyda chyllid y rhaglen integreiddio yn achosi problemau, er enghraifft methu dargyfeirio arian i'r flwyddyn ariannol nesaf. Mewn achosion lle roedd tanwariant yn y flwyddyn gyntaf, bu'n rhaid cyfaddawdu ym mlwyddyn dau fel cyflogi staff ar gontractau tymor byr. Roedd gweithgareddau darparu gwasanaethau, recriwtio, cadw a chynllunio ar gyfer y dyfodol yn cael eu rhwystro gan amserlenni tynn a chyllid tymor byr. Roedd sefydliadau braenaru eisiau canllawiau mwy eglur ar gyllid gan

Lywodraeth Cymru i alluogi cynllunio hirdymor, i allu cadw staff yn well a denu staff profiadol a gwybodus. Roedd hyn yn her arbennig i sefydliadau'r trydydd sector, a oedd angen mwy o gyllid yn y tymor hwy i allu chwarae rhan sylweddol yn y rhanbarth.

#### 3.7.6.4. Goruchwyliaeth ariannol

Teimlwyd bod yr oruchwyliaeth ariannol ar gyfer y rhaglen integreiddio yn rhy feichus ac yn anghymesur â gwerth y grant. Roedd llawer yn nodi bod y ffordd y cafodd cyllid y rhaglen integreiddio ei drin gan Lywodraeth Cymru yn achosi heriau. Er enghraifft, roedd oedi o ran ariannu gwaith gweithredu yn golygu bod sefydliadau braenaru yn gorfod gwario gwerth blwyddyn o gyllid mewn amserlen llawer byrrach, a oedd yn effeithio'n sylweddol ar eu gallu i symud ymlaen tuag at nodau'r rhaglen a recriwtio a hyfforddi staff. Roedd oedi o ran cadarnhau cyllid yn golygu bod rhai sefydliadau braenaru yn gyndyn o gymryd risgiau, ac felly nid oedd y gwaith o gyflwyno prosiectau yn dechrau nac yn parhau nes bod y cyllid wedi'i gadarnhau. Roedd oedi o ran penderfyniadau cyllido hefyd yn cyfyngu ar drafodaethau ynghylch strategaethau ymadael, a effeithiodd yn negyddol ar waddol y rhaglen integreiddio. Roedd sefydliadau braenaru yn teimlo bod y disgwyliad gan Lywodraeth Cymru i barhau â'r gwaith trawsnewid ac integreiddio ar ôl i'r cyllid ddod i ben yn afrealistig ac yn tanbrisio'r gwaith yr oedd braenarwyr wedi'i gyflawni hyd yn hyn.

Mewn rhai achosion, roedd effaith cyllid tymor byr a chyllid yn dod i ben yn arwain at ddiffyg ymgysylltiad gan uwch reolwyr. Yn dilyn hynny, roedd staff sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau yn derbyn llai o gefnogaeth.

#### 3.7.6.5. Effaith ar deuluoedd

Mynegodd dogfennau braenaru bryder am dalu costau'r cymorth sydd ei angen ar blant a theuluoedd o gyllidebau presennol yn y dyfodol. Roedden nhw hefyd yn poeni am ganlyniadau i blant a theuluoedd sy'n deillio o fethu â nodi anghenion, colli perthnasoedd a llai o ymddiriedaeth ar ôl i gyllid y rhaglen integreiddio ddod i ben. Am fanylion am ganlyniadau cadarnhaol i deuluoedd, cyfeiriwch at adran 3.9 'Teuluoedd'.

#### 3.7.6.6. Effaith ar sefydliadau

Roedd effaith y cyllid yn dod i ben ar sefydliadau darparu gwasanaethau yn sylweddol. Roedd angen i sefydliadau werthuso'r holl rolau a ariannwyd o dan y rhaglen integreiddio o ran budd i blant a theuluoedd, a gwneud penderfyniadau anodd ynghylch pa rolau na fyddai'n bodoli mwyach.

Roedd rhai sefydliadau braenaru yn teimlo bod cyhoeddiadau gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r cyllid yn dod i ben yn annisgwyl, a oedd yn golygu nad oeddent yn gallu paratoi ac alinio eu gwaith â ffrydiau gwaith eraill Llywodraeth Cymru.

## 3.8. Data

### 3.8.1. Gweithgareddau a gynhaliwyd

Roedd gweithgareddau sy'n ymwneud â data a adroddwyd gan ddogfennau braenaru yn cynnwys mapio gwasanaethau, cynllunio a datblygu, datblygu offer asesu, monitro a gwerthuso, nodi ffynonellau data presennol, rheoli prosiectau, gwneud argymhellion a lledaenu gwybodaeth.

### 3.8.2. Offer

Roedd yr offer a ddefnyddiwyd gan sefydliadau braenaru ar gyfer gweithgareddau sy'n gysylltiedig â data (megis monitro a gwerthuso) yn cynnwys y system Vanguard, Matrics Aeddfedrwydd Mamolaeth a Blynyddoedd Cynnar yr EIF (a elwir bellach yn Foundations), Power BI, Survey Monkey, Prince2, Talk Boost, a theori newid.

### 3.8.3. Anghenion a nodwyd

Nododd dogfennau braenaru nifer o anghenion sy'n ymwneud â data, gan gynnwys casglu data, manteisio i'r eithaf ar adnoddau presennol, mesur effaith a chydweithio.

### 3.8.4. Casglu a dadansoddi data

Roedd llawer o sefydliadau braenaru yn nodi bod bylchau o ran tystiolaeth, a oedd yn effeithio ar eu gallu i ddyrannu adnoddau lle roedd eu hangen fwyaf neu eu defnyddio yn y modd mwyaf defnyddiol. Adroddodd rhai sefydliadau fod data meintiol yn fwy prin na data ansoddol, a fyddai'n deillio o gyfranogiad ac adborth yn eang.

Nodwyd yr angen am gael data mwy cadarn a allai ddangos effaith ar feysydd gwaith fel llwybrau atgyfeirio, cydweithio, profiadau plant a theuluoedd, integreiddio gwasanaethau ac anghenion a gofynion. Roedd rhywfaint o bryder nad oedd casglu data wedi'i sefydlu'n ddigon cynnar o dan y rhaglen integreiddio i allu darparu tystiolaeth o ganlyniadau, gan gynnwys casglu a defnyddio data sylfaenol. Teimlwyd mai'r ffocws ar roi camau cynnar y gweithredu ar waith oedd y rheswm am hyn. Fodd bynnag, sefydlodd rhai sefydliadau braenaru ganlyniadau arfaethedig o'r cychwyn cyntaf, naill ai trwy fframwaith canlyniadau neu theori newid.

Awgrymodd dogfennaeth braenaru bod llawer o ffynonellau data yn ddefnyddiol i allu monitro a gwerthuso nodau'r rhaglen integreiddio. Mae'r rhain yn cynnwys ffynonellau meintiol fel:

- y Cyfrifiad
- y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (PLASC)
- yr Arolwg Rhieni a Gofalwyr
- data cod post
- data genedigaethau

- data atgyfeiriadau cleifion allanol
- Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Mae'r rhain hefyd yn cynnwys ffynonellau ansoddol fel:

- holiaduron adborth rhieni
- holiaduron adborth staff
- gweithdai
- nodiadau achosion
- ymgynghoriadau
- data o wasanaethau eraill, megis Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yr awdurdod lleol

### 3.8.5. Mesur effaith

Roedd y diffyg data i fesur effaith yn fater a godwyd mewn nifer o werthusiadau braenaru. Roedd y mater hwn yn golygu nad oedd sefydliadau braenaru yn gallu gwybod a oedd prosiectau a'r rhaglen wedi bod yn llwyddiannus a sut. Roedd hefyd yn anodd sefydlu gwerth am arian heb y wybodaeth berthnasol. Datgelodd dogfennaeth fod angen nodi canlyniadau ac effeithiau gan sawl proffesiwn a sefydliad sy'n cydweithio. Roedd angen gwneud hyn ymlaen llaw a'i gadw mewn ffocws trwy gydol y rhaglen.

Mae'n bwysig cipio effaith i wybod a wnaeth y rhaglen integreiddio newidiadau cadarnhaol i blant a theuluoedd. Roedd rhai yn teimlo bod natur tymor byr y rhaglen yn ei gwneud hi'n anoddach mesur effaith, gan y byddai llawer o'r effeithiau a ddymunir yn debygol o ddod i'r amlwg dros y tymor hwy.

Roedd y mesurau a awgrymwyd ynghylch hyfforddiant yn cynnwys:

- nifer y staff ar gyrsiau hyfforddi
- presenoldeb ar gyrsiau o wahanol wasanaethau neu sectorau
- cyfraddau cyfranogiad a chwblhau
- sgoriau adborth
- metrigau ynghylch gwella sgiliau
- rhoi dysgu ar waith yn ymarferol
- nifer y cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol

Roedd y mesurau a awgrymwyd ynghylch teuluoedd yn cynnwys:

- nifer y rhieni sy'n cyrchu gweithdai cymunedol
- nifer y themâu sy'n cael eu trafod mewn gweithdai cymunedol
- nifer y rhieni sy'n cael mynediad at gymorth 1:1
- nifer y plant sy'n cael eu dargyfeirio rhag cael mynediad at lwybrau niwroddatblygiadol
- adborth rhieni ar gynnwys a chyflwyniad gweithdai
- adborth rhieni ar gyngor, arweiniad a chymorth
- pellter a deithiwyd o ran ymgysylltu â gwasanaethau
- lefelau hyder cyn ac ar ôl ymyrraeth
- nifer y sesiynau cyswllt gyda gweithwyr proffesiynol blynyddoedd cynnar
- canran y plant sy'n cyflawni canlyniadau disgwyliedig yn ôl oedran, cyn ac ar ôl ymyrraeth

Roedd y mesurau a awgrymwyd ynghylch gwasanaethau yn cynnwys:

- canran yr asiantaethau sy'n adrodd bod cydgysylltiad dulliau darparu gwasanaethau wedi gwella
- dadansoddiad o amrywiad yr anghenion ar draws gwasanaethau ac ardaloedd
- nifer yr atgyfeiriadau at wasanaethau arbenigol
- canran yr asiantaethau sy'n adrodd fod ganddynt well gwybodaeth a dealltwriaeth o integreiddio

Roedd yna feysydd eraill hefyd lle awgrymwyd mesurau. Roedd hyn yn cynnwys cyfraddau recriwtio a chadw ar gyfer effeithiau sy'n gysylltiedig â staff. Awgrymwyd dadansoddiadau cost a budd i fesur gwerth am arian. Roedd mesurau a awgrymwyd ynghylch strategaeth yn cynnwys effaith hirdymor nodau strategol.

### 3.8.6. Defnyddio adnoddau i'r eithaf

Nododd dogfennau braenaru fod angen gwirioneddol i fanteisio i'r eithaf ar adnoddau trwy osgoi dyblygu, cael gwared ar wastraff yn y system, symleiddio ac ymyrraeth gynnar. Yn flaenorol, roedd diffyg arian, adnoddau a hyfforddiant yn llesteirio'r ymdrechion hyn, ond rhoddodd y rhaglen integreiddio gyfle i ganolbwyntio ar y materion hyn.

### 3.8.7. Cydweithio

Nododd dogfennau braenaru fod angen cydweithio rhwng sefydliadau braenaru ar gyfer monitro data effeithiol. Roedd hyn yn cynnwys gweithgorau, arweinwyr strategol, y prosiect

Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL), Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, rheolwyr gwasanaeth blynyddoedd cynnar, Nesta, swyddogion monitro data a dadansoddwyr data arbenigol. Gwnaed rhywfaint o waith tuag at sicrhau cydweithredu, er ar wahanol gamau datblygu.

### 3.8.8. Ffactorau sy'n cefnogi gweithgareddau sy'n gysylltiedig â data

Er gwaethaf y problemau niferus a nodwyd yn y dogfennau braenaru ynghylch y gallu i gasglu, rhannu, dadansoddi a lledaenu data, roedd rhywfaint o dystiolaeth o arfer da. Pe bai mwy o awdurdodau lleol a byrddau iechyd wedi gallu mabwysiadu'r arferion hyn, efallai y byddai integreiddio a thrawsnewid systemau cyfan wedi gwneud cynnydd pellach.

Roedd enghreifftiau o'r arferion hyn a ddisgrifiwyd mewn dogfennau yn cynnwys casglu data cynhwysfawr, lledaenu gwybodaeth yn effeithiol, rhwyddineb cyrchu data, gallu staff i gasglu a dadansoddi data, cysondeb mewn adrodd data, systemau TG swyddogaethol, y gallu i rannu data, prosesau sicrhau ansawdd ar waith a chydymffurfiaeth â rheoliadau (fel GDPR y DU).

#### 3.8.8.1. Arferion casglu data

Disgrifiodd dogfennau braenaru sut y gallwyd nodi anghenion y boblogaeth (teulu a phlant) a mapio argaeledd gwasanaethau o dan y rhaglen integreiddio. Roedd systemau gwybodaeth a ddefnyddir wrth ddarparu gwasanaethau yn galluogi staff i storio a chael mynediad at setiau data cynhwysfawr. Roedd staff rheng flaen yn gallu mewnbynnu data yn uniongyrchol i'r system berthnasol, y gallai gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio gyda'r teulu hwnnw ei weld. Roedd cael y gweithdrefnau a'r hyfforddiant priodol ar waith i staff ddefnyddio'r systemau hyn yn hanfodol.

#### 3.8.8.2. Arferion rhannu data

Roedd rhannu data rhwng gwasanaethau, yn enwedig awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn gadarnhaol. Roedd hysbysiadau preifatrwydd, cytundebau rhannu data a phrotocolau rhannu gwybodaeth yn sail i'r arferion hyn. Roedd manteision gwelliannau mewn systemau gwybodaeth a rhannu data y soniwyd amdanynt yn cynnwys adnabod anghenion teuluoedd yn yr ardal yn well a sicrhau na fyddai teuluoedd yn gorfod ailadrodd eu hunain.

#### 3.8.8.3. Galluogwyr monitro a gwerthuso

Roedd llwyddiannau ynghylch monitro a gwerthuso yn cynnwys gosod mesurau a monitro canlyniadau ac effaith ymyriadau. Roedd mynediad at ddata a dadansoddiadau addysgiadol gan ddefnyddio dulliau meintiol ac ansoddol yn cefnogi'r gwaith o wneud penderfyniadau.

### 3.8.9. Rhwystrau o ran defnyddio data yn effeithiol

Roedd heriau ynghylch defnyddio data yn helaeth ac amrywiol. Cawsant effaith sylweddol ar allu braenarwyr i gynhyrchu tystiolaeth o lwyddiant o'r rhaglen integreiddio. Roedd y rhwystrau y soniwyd amdanynt fwyaf aml o ran sicrhau cynnydd ar draws systemau fel a ganlyn:

- materion ynghylch casglu data, megis dim data wedi'i gasglu o gwbl, diffyg data sylfaenol, neu gyfraddau ymateb isel
- materion ynghylch dadansoddi, er enghraifft lle roedd data wedi’i gasglu ond heb ei ddadansoddi
- materion ynghylch ansawdd data, megis anghysondebau wrth gasglu data, neu fylchau mewn tystiolaeth
- materion ynghylch diogelu data, megis canfod bod cydymffurfiaeth GDPR yn gyfyngol, neu fethu â rhannu data'n ddiogel
- materion ynghylch samplu, fel rhagfarn hunan-ddethol gydag arolygon a ffurflenni adborth
- materion ynghylch lledaenu, gan gynnwys dadansoddiadau data nad ydynt yn cael eu lledaenu
- materion systemig, megis cynnydd o amgylch data yn dibynnu ar unigolion yn hytrach na bod prosesau systematig yn eu lle
- Materion ynghylch TG, megis methu diweddaru systemau, diffyg platfform data cyffredin, cyfyngiadau systemau presennol o ran rhedeg dadansoddiadau, anhawster cyrchu gwybodaeth, rhannu data, opsiynau storio data annigonol, neu llywio anodd

Roedd llawer o'r materion hyn yn dal i fod yn amlwg o dan y rhaglen integreiddio oherwydd eu bod yn cymryd gormod o amser i’w datrys neu'n ddrud i'w datrys, er enghraifft uwchraddio TG a chyflwyno systemau newydd. Rhwystr ychwanegol o amgylch data oedd y diffyg ystyriaeth ar gyfer gwerthuso a mesur canlyniadau o ddechrau prosiectau. Roedd hyn yn golygu bod gwerthuso yn aml yn digwydd ar ddiwedd prosiectau, gan olygu bod data yn anamserol a’i ddefnyddioldeb yn brin.

## 3.9. Teuluoedd

Mae'r adran hon yn tynnu ar safbwyntiau sefydliadau braenaru a theuluoedd a gafodd eu cynnwys mewn gwerthusiadau ac asesiadau o brosiectau'r rhaglen integreiddio.

### 3.9.1. Ymgysylltu

Canfu'r adolygiad o ddogfennau fod teuluoedd a ymgysylltodd ac a dderbyniodd gymorth o dan y rhaglen integreiddio wedi profi manteision gan gynnwys perthynas â gweithwyr proffesiynol, cyfleoedd gwirfoddoli, gwybodaeth a chyfeirio at wasanaethau, a mynediad at adnoddau.

Roedd y rhaglen integreiddio yn fecanwaith cefnogol ar gyfer meithrin perthnasoedd rhwng gweithwyr proffesiynol a theuluoedd. Mae dogfennau gwerthuso yn dangos bod y rhaglen integreiddio wedi galluogi gweithwyr proffesiynol i gyrraedd ystod ehangach a mwy amrywiol o deuluoedd. Roedd cael gwahanol fathau o opsiynau cyswllt a chyfathrebu (mae enghreifftiau'n cynnwys ar-lein, dros y ffôn, wyneb yn wyneb) yn fuddiol ar gyfer meithrin ymddiriedaeth, yn enwedig gyda grwpiau rhieni a oedd yn draddodiadol yn fwy ymylol. Roedd gallu cyrchu cymorth yn rhwydd yn annog rhieni i ymgysylltu â gwasanaethau.

Roedd y gallu i rannu gwybodaeth yn caniatáu i staff feithrin perthnasoedd cynnar â theuluoedd a thargedu cymorth yn fwy effeithiol. Roedd teuluoedd yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi fwyaf pan fyddai eu llais yn cael gwrandawiad, a phan fyddent yn cael cyfle i fynegi barn ar y gwasanaethau a gawsant. Roedd gweithwyr proffesiynol yn creu amgylchedd croesawgar, agored ac anfeirniadol gyda theuluoedd yn rhan annatod o feithrin perthnasoedd cryf. Roedd meithrin y perthnasoedd hyn rhwng teuluoedd a gweithwyr proffesiynol yn bwysig ar gyfer cyfranogiad ac ymgysylltu; roedd teuluoedd yn fwy tebygol o fod yn rhagweithiol wrth geisio cymorth pan fyddai'r perthnasoedd hyn eisoes yn bodoli.

Mae'r rhaglen integreiddio hefyd wedi hwyluso perthnasoedd rhwng teuluoedd. Roedd rhieni a oedd yn newydd i gymunedau o'r farn bod grwpiau yn ddefnyddiol wrth iddynt ymgartrefu mewn ardal a chael cymorth. Roedd teuluoedd yn gwerthfawrogi gallu cysylltu â theuluoedd eraill sy'n wynebu heriau tebyg, ac roedd hyn yn helpu llawer i ddatblygu grwpiau cyfeillgarwch.

Adroddodd sefydliadau braenaru fod rhai grwpiau yn llai ymgysylltiedig â gwasanaethau, gan gynnwys teuluoedd ag anghenion ynghylch niwroamrywiaeth ac iechyd meddwl, a thadau.

### 3.9.2. Cyrchu gwybodaeth

Roedd teuluoedd yn aml yn ansicr pa wasanaethau ac adnoddau oedd ar gael iddynt, yn cael trafferth dod o hyd i wybodaeth am yr hyn sydd ar gael, ac yn teimlo y dylid rhoi mwy o gyhoeddusrwydd i wasanaethau ac adnoddau. Nododd adroddiadau fod teuluoedd yn tueddu i ddod i wybod pa gymorth oedd ar gael wrth siarad gyda'u cymheiriaid. Fodd bynnag, y broblem o ran dibynnu ar wybodaeth cymheiriaid yw y gall hyn fod yn wybodaeth anghywir neu anghyflawn. Er mwyn helpu hyn, mewn rhai achosion ffurfiolwyd cymorth gan gymheiriaid trwy benodi gwirfoddolwyr o blith rhieni (fel hyrwyddwyr rhieni).

Nodwyd bod Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yr awdurdodau lleol, gweithwyr teulu, ac ymwelwyr iechyd hefyd yn ffyrdd y gallai teuluoedd ddod o hyd i wybodaeth a chyngor. Fodd bynnag, ymddengys bod problemau o hyd a greodd anawsterau wrth ddod o hyd i wybodaeth, er enghraifft, nid oedd rhai teuluoedd yn ymwybodol o'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd. Nodwyd bod sefydliadau cymunedol yn gallu hyrwyddo cefnogaeth, ond roedd allgymorth yn anghyson ar draws sefydliadau. Er bod adroddiadau yn dangos bod cyfryngau cymdeithasol weithiau yn cael eu defnyddio i ddarparu gwybodaeth, roedd prosesau mewnol cyfyngol yn rhwystro'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol yn achos rhai sefydliadau (fel awdurdodau lleol).

Cafwyd adborth cadarnhaol gan grwpiau cymunedol a chanolfannau teuluoedd lle cafodd y Gymraeg ei chefnogi a'i hannog. Roedd rhieni'n gwerthfawrogi teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i gyfathrebu'n weithredol â'u plant yn Gymraeg, a bod hynny’n datblygu sgiliau caffael iaith plant. Roedd y canfyddiad hwn yn berthnasol i rieni sy'n siarad Cymraeg a rhieni nad ydynt yn siarad Cymraeg. Fodd bynnag, nododd ardaloedd eraill bod diffyg darpariaeth o ran adnoddau a gwasanaethau Cymraeg mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith. Nodwyd bylchau eraill mewn meysydd penodol hefyd, er enghraifft cymorth ar gyfer niwroamrywiaeth ac ADY.

### 3.9.3. Cyrchu gwasanaethau

#### 3.9.3.1. Mynediad corfforol

Chwaraeodd grwpiau cymunedol, rhai sy'n bodoli eisoes a'r rhai a ffurfiwyd yn ystod y rhaglen integreiddio, ran fawr yn llwyddiant y rhaglen integreiddio ar lefel leol. Soniodd sawl sefydliad braenaru am y ffyrdd y mae grwpiau cymunedol wedi bod o fudd i deuluoedd yn eu hardal. Un elfen o'r llwyddiant hwn oedd bod grwpiau ar gael yn rhad ac am ddim. Roedd hyn yn arbennig o bwysig mewn ardaloedd â chyfraddau uwch o dlodi, ond hefyd i fenywod sy'n profi heriau ariannol yn ystod absenoldeb mamolaeth. Roedd cyfranogwyr grwpiau cymunedol wedi darparu adborth fel rhan o rai gwerthusiadau braenaru, ac roedd y rhain yn dangos bod y grwpiau yn cynnig lle diogel i gael mynediad at gymorth a dysgu am ddatblygiad plant. Roedd y grwpiau hyn yn fuddiol nid yn unig i rieni, ond hefyd i blant, a oedd yn gallu rhyngweithio'n gymdeithasol â phlant eraill. Mewn rhai achosion, roedd grwpiau cymunedol hefyd yn agored i’r teulu estynedig.

Fodd bynnag, roedd rhwystrau ffisegol weithiau yn atal mynediad at wasanaethau. Er enghraifft, roedd y lleoliad lle cynhaliwyd gwasanaethau, argaeledd isel o leoliadau cymunedol, lleoliadau anghyfleus, ac anawsterau dod o hyd i leoliadau addas mewn cymunedau gwledig yn effeithio ar hygyrchedd gwasanaethau. Roedd gallu teuluoedd i deithio yn effeithio ar eu mynediad at wasanaethau, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig lle roedd dibyniaeth ar gar neu drafnidiaeth gyhoeddus yn angenrheidiol. Roedd y costau sy'n gysylltiedig â theithio yn atal rhai teuluoedd rhag cael mynediad at wasanaethau. Ond disgrifiwyd y gwaith a wnaed mewn rhai cymunedau i wella mynediad at wasanaethau i blant a theuluoedd sy'n byw mewn ardaloedd gwledig fel 'creadigol', 'strategol' a 'hyblyg'. Gwnaed ymdrechion i ddod â gwasanaethau i rai cymunedau gwledig trwy ddigwyddiadau untro, canolfannau cymunedol, gwasanaethau symudol a thimau o weithwyr iechyd a rhianta proffesiynol sy'n gweithio yn y gymuned.

Roedd argaeledd gofal plant ar draws gwasanaethau blynyddoedd cynnar yn anghyson, er enghraifft os oedd rhieni a gofalwyr yn mynychu cyrsiau, grwpiau neu wasanaethau. Yn aml, cynigiwyd gwasanaethau a grwpiau yn ystod dyddiau'r wythnos ac oriau gwaith, felly nid oedd rhieni a gofalwyr yn gallu mynychu.

Nodwyd bod y polisi allgymorth ac atgyfeirio a fabwysiadwyd mewn rhai rhanbarthau yn briodol ac yn effeithlon o ran cefnogi pobl sy'n gadael gofal a'r rhai sy'n gadael cymorth diogelu. Roedd cefnogaeth ar gael ar draws yr ardal gyfan, nid mewn ardaloedd Dechrau'n Deg yn unig fel y gwelwyd cyn y rhaglen integreiddio. O ganlyniad i'r rhaglen integreiddio, derbyniodd mwy o blant gefnogaeth gartref yn ogystal ag mewn lleoliadau addysgol.

#### 3.9.3.2. Atgyfeiriadau a llywio gwasanaethau

Mae gwerthusiadau braenaru yn dangos bod atgyfeiriadau ar gyfer asesiadau yn amserol mewn rhai ardaloedd. Roedd plant hefyd yn elwa o fynediad at gymorth cynharach o dan y rhaglen integreiddio. Mae sgrinio a nodi anghenion yn gynnar wedi arwain at ymyriadau yn cael eu rhoi ar waith yn gynharach i blant.

Roedd rhai teuluoedd yn cael heriau wrth lywio tirwedd gymhleth gwasanaethau ac atgyfeiriadau blynyddoedd cynnar. Roedd aneffeithlonrwydd yn y broses atgyfeirio yn amrywio ar draws ardaloedd braenaru. Mewn rhai achosion, roedd yn rhaid i deuluoedd hunan-gyfeirio o wasanaethau a oedd wedi'u dangos iddynt. Roedd diffyg gwybodaeth am feini prawf cymhwysedd ar gyfer gwasanaethau ac argaeledd cymorth yn golygu bod y pwysau ar deuluoedd i gysylltu a dilyn i fyny â gwahanol ddarparwyr gwasanaeth.

Mewn ardaloedd eraill, safonwyd atgyfeiriadau trwy un ffurflen a aseswyd gan weithwyr proffesiynol i nodi anghenion y teulu. Fodd bynnag, roedd ffurflenni atgyfeirio ac asesiadau yn ôl pob sôn yn gymhleth ac yn faich i rai gwasanaethau (fel cymorth cymunedol), ac roedd hyn yn creu oedi yn y broses atgyfeirio. Nid oedd llwybrau atgyfeirio bob amser yn cael eu deall gan staff awdurdodau lleol neu fwrdd iechyd, yn enwedig lle roedd newidiadau wedi digwydd.

#### 3.9.3.3. Cymorth ynghylch diagnosis

Adroddwyd hefyd am heriau yn ymwneud â mynediad at gymorth ynghylch diagnosis. Yn gyntaf, heriau wrth dderbyn y diagnosis. Mewn un achos roedd amseroedd aros hir am ddiagnosis yn golygu bod oedi wedyn o ran cymorth gyda mynediad cyfyngedig neu ddim mynediad o gwbl at wybodaeth neu gymorth wrth aros. Adroddwyd hefyd fod y system yn anodd ei llywio i rieni.

Hefyd, roedd problemau wrth dderbyn cymorth ar ôl diagnosis. Yn ôl sefydliadau braenaru, mae'n bosibl na fydd derbyn diagnosis o reidrwydd yn golygu bod adnoddau neu wasanaethau ar gael. Mewn rhai achosion, roedd y camau nesaf yn aneglur i deuluoedd. Roedd bylchau penodol mewn adnoddau a gwasanaethau yn cynnwys ADY neu niwroamrywiaeth a lleferydd ac iaith.

### 3.9.4. Darparu gwasanaethau

Adroddwyd am faterion a oedd yn effeithio ar ansawdd y gwasanaethau a ddarperir, gan gynnwys amrywioldeb yn y cymorth neu'r gwasanaethau sy’n cael eu cynnig a’u derbyn, teuluoedd yn ymwneud â nifer o wasanaethau ar unrhyw un adeg, gwasanaethau yn rhy fyrdymor i ddiwallu anghenion teuluol, capasiti gwasanaeth cyfyngedig, gwasanaethau heb fod yn weledol iawn mewn cymunedau, anawsterau cysylltu â staff gwasanaeth, a diffyg arloesedd (megis dibynnu ar arferion ac offer sydd wedi dyddio).

### 3.9.5. Gwirfoddolwyr

Cafodd rhai rhieni eu denu i wirfoddoli yn y blynyddoedd cynnar yn eu cymunedau lleol o dan y rhaglen integreiddio, naill ai fel hyrwyddwyr neu fel arweinwyr neu hwyluswyr grwpiau cymunedol. Profodd y rhai a ymgymerodd â rolau gwirfoddoli fwy o hyder a mwy o sgiliau cyfathrebu a gwybodaeth, a bu’n hynny’n help i rai gael cyfleoedd cyflogaeth.

#### 3.9.5.1. Hyrwyddwyr rhieni

Dywedodd rhai sefydliadau braenaru rieni bod rhieni wedi dod yn hyrwyddwyr a oedd yn cefnogi gweithgareddau lleol, yn darparu allgymorth yn y gymuned, yn cyfeirio rhieni eraill at wasanaethau ac yn cynnig cymorth i gymheiriaid. Roedd hyrwyddwyr rhieni hefyd yn ymwneud â lledaenu gwybodaeth i ategu gwaith blynyddoedd cynnar arall sy'n digwydd yn y rhanbarth; roedd yr ymgysylltiad hwn dan arweiniad cymheiriaid yn annog rhieni a gofalwyr eraill i deimlo'n fwy hyderus wrth gael mynediad at gymorth statudol.

#### 3.9.5.2. Grwpiau dan arweiniad rhieni

Sefydlwyd gwahanol grwpiau o dan y rhaglen integreiddio a oedd yn cael eu rhedeg naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol gan wirfoddolwyr rhieni. Roedd y grwpiau hyn yn cynnwys cefnogaeth i rieni plant niwroamrywiol ac ADY, gwasanaethau gwybodaeth i deuluoedd, a gwasanaethau allgymorth.

## 3.10. Cynaliadwyedd

Mae cynaliadwyedd yng nghyd-destun y rhaglen integreiddio yn cyfeirio at ddichonoldeb gwaith integreiddio a thrawsnewid yn y tymor hir. Mae hyn yn cynnwys y tu hwnt i gyfnod ariannu'r rhaglen. Ymhlith y pynciau cyffredin a adroddir gan ddogfennau braenaru mae cynlluniau i barhau ag ymdrechion integreiddio a thrawsnewid heb gyllid y rhaglen integreiddio, anghenion ar gyfer gweithio cynaliadwy, ffactorau sy’n cefnogi a rhwystrau o ran cynaliadwyedd.

### 3.10.1. Cynlluniau i barhau â'r gwaith integreiddio a thrawsnewid

Wrth barhau â'r gwaith integreiddio a thrawsnewid heb gyllid y rhaglen integreiddio, disgrifiodd dogfennau ystod o ganlyniadau wedi'u cynllunio a oedd yn cynnwys: cynlluniau penodol i fynd â gweithgarwch yn ei flaen, y bwriad i fynd â gweithgarwch yn ei flaen, ac atal gweithgarwch yn llwyr. Roedd cymysgedd o elfennau yn parhau ac yn dod i ben, o fewn braenarwyr unigol a rhwng nifer o fraenarwyr.

Ymhlith yr enghreifftiau o waith sy'n cael ei fwrw ymlaen roedd gweithgareddau yn ymwneud â'r cymorth a gynigir (ysgolion, grwpiau cymunedol, rhianta), data (systemau, rhannu gwybodaeth), monitro anghenion y boblogaeth, a chynnwys digidol (gwefannau, ymgyrchoedd cyfathrebu). Mae rolau penodol hefyd yn parhau, fel gweithwyr cymorth teulu ac arbenigwyr lleferydd ac iaith.

Roedd y gweithgareddau yr oedd sefydliadau braenaru yn bwriadu parhau â hwy yn cynnwys: cymorth i deuluoedd (er enghraifft, cysylltiadau Plant Iach Cymru ychwanegol, cymorth amenedigol, hyrwyddwyr rhieni), gwaith ar bwnc lleferydd, iaith a chyfathrebu, cymorth i'r gweithlu (er enghraifft, hyfforddiant ar ADY, arferion recriwtio, a chadw rolau gan gynnwys cydgysylltwyr, arweinwyr a rolau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gwasanaethau), data (gan gynnwys casglu data, systemau, rhannu gwybodaeth, a rolau swyddi arbenigol) a pharhad strwythurau llywodraethu. Roedd sefydliadau braenaru yn aml yn cydnabod pwysigrwydd parhau â'r gweithgaredd hwn, ond roedd ansicrwydd ar adeg ysgrifennu o ran sut y byddai hyn yn bosibl.

Nododd dogfennau braenaru hefyd y byddai rhywfaint o weithgaredd yn debygol o ddod i ben neu’n cael ei atal am beth amser yn sgil colli cyllid a chapasiti staff y rhaglen integreiddio. Roedd enghreifftiau o feysydd yr effeithiwyd arnynt yn cynnwys cymorth i deuluoedd, cadw rolau penodol yn y gweithlu, hyfforddiant i’r gweithlu, datblygu systemau digidol a data, a datblygu strategaeth.

### 3.10.2. Anghenion am weithio cynaliadwy

Er mwyn i waith integreiddio a thrawsnewid fod yn gynaliadwy yn y tymor hir, soniodd dogfennau am yr angen i fanteisio ar wersi a ddysgwyd ac enghreifftiau o arfer gorau. Teimlwyd bod angen cefnogaeth ar lefel uwch ynghyd â gwneud penderfyniadau ar fesurau cynaliadwyedd wrth symud ymlaen, yn enwedig heb gyllid y rhaglen integreiddio. Roedd hyn yn cynnwys gweithgareddau i ddiweddaru strategaethau presennol, ailasesu blaenoriaethau neu ddatblygu strategaethau newydd lle bo angen i archwilio opsiynau ymarferol a chynaliadwy gyda llai o adnoddau.

Nodwyd hefyd bod angen i Lywodraeth Cymru ddarparu cyfeiriad i gefnogi cynaliadwyedd yn y sector blynyddoedd cynnar. Ymhlith y meysydd penodol a nodwyd roedd dull cenedlaethol o wella systemau data, strategaeth wedi'i diweddaru ar ddyfodol integreiddio a thrawsnewid blynyddoedd cynnar, a mwy o gydlyniant rhwng grantiau, cynlluniau a strategaethau Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â'r blynyddoedd cynnar. Mewn rhai achosion, roedd sefydliadau braenaru yn amharod i barhau â'r gwaith integreiddio a thrawsnewid heb yr arweiniad hwn gan Lywodraeth Cymru.

### 3.10.3. Ffactorau sy'n cefnogi cynaliadwyedd

Roedd y galluogwyr ar gyfer cynaliadwyedd yn y sector blynyddoedd cynnar yn cynnwys strategaethau ymgysylltu llwyddiannus, llywodraethu ac arweinyddiaeth effeithiol, adolygu effaith yn rheolaidd, gweithio mewn partneriaeth barhaus, buddsoddi mewn datblygu staff defnyddio adnoddau i’r eithaf.

#### 3.10.3.1. Strategaethau ymgysylltu

Roedd strategaethau ymgysylltu llwyddiannus rhwng gweithwyr proffesiynol a theuluoedd yn cefnogi cynaliadwyedd systemau cyfan. Mae'r rhain wedi helpu i oresgyn rhai anghydraddoldebau strwythurol fel amddifadedd a rhwystrau iaith. Roedd ffocws ar newid systemau yn dileu'r ddibyniaeth ar unigolion. Datblygwyd ffordd graidd o weithio a'i hymgorffori o dan y rhaglen integreiddio, a oedd yn dileu rhywfaint o ddibyniaeth ar Lywodraeth Cymru.

#### 3.10.3.2. Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Nododd dogfennau braenaru bwysigrwydd llywodraethu wrth sicrhau cynaliadwyedd. Trwy arweinyddiaeth a phartneriaethau effeithiol, roedd gweledigaeth a phwrpas clir yn hwyluso newid systemau hirdymor mewn rhai ardaloedd. Nodwyd bod Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn fecanwaith addas i barhau i yrru gwaith integreiddio a thrawsnewid yn ei flaen ar draws rhanbarthau. Ystyriwyd bod byrddau, grwpiau neu gyfarfodydd blynyddoedd cynnar penodol a sefydlwyd yn wreiddiol o dan y rhaglen integreiddio yn bwysig o ran parhau i yrru'r gwaith ymlaen, yn enwedig ar lefel ranbarthol.

#### 3.10.3.3. Adolygu effaith

Roedd adolygu gwaddol ac effaith braenaru yn rheolaidd yn galluogi'r arferion gwaith gorau i gael eu cynnal ac argymhellion i’w dwyn ymlaen ar gyfer dyfodol cynaliadwy. Cryfder un ardal fraenaru oedd profi hyfywedd a chynaliadwyedd dulliau i ganiatáu i waith integreiddio a thrawsnewid barhau.

#### 3.10.3.4. Gweithio mewn partneriaeth

Cynhyrchodd partneriaethau traws-broffesiwn ddatblygiadau sylweddol mewn gwybodaeth a rennir, a effeithiodd yn gadarnhaol ar y gwasanaethau a ddarparwyd yn y tymor hir (er enghraifft, lleihau atgyfeiriadau amhriodol). Roedd yna achosion lle roedd ymyrraeth gynnar effeithiol yn golygu nad oedd angen uwchgyfeirio at wasanaethau sydd eu hangen i drin cyflyrau mwy difrifol. Effaith hyn oedd gwell defnydd o adnoddau ac arbed arian dros y tymor hir, sy'n golygu bod gwasanaethau yn fwy cynaliadwy. Byddai cynnal perthnasoedd yr oedd staff wedi'u datblygu yn ystod y rhaglen integreiddio yn cefnogi integreiddio a

thrawsnewid cynaliadwy i'r dyfodol. Nododd rhai sefydliadau braenaru fod ymroddiad ac ymdrech staff wedi helpu i gynnal gwaith integreiddio a thrawsnewid hyd yn hyn, er gwaethaf yr heriau parhaus i gynaliadwyedd.

#### 3.10.3.5. Buddsoddi mewn datblygu staff

Cafwyd newid cynaliadwy hefyd trwy fuddsoddi mewn hyfforddiant a datblygiad proffesiynol, gan arwain at uwchsgilio staff yn gyffredinol. Teimlwyd bod sgiliau, hyfforddiant a datblygiad staff yn y sector blynyddoedd cynnar yn hanfodol ar gyfer integreiddio a thrawsnewid cynaliadwy. Rhoddwyd enghreifftiau ar sut i gyflawni hyn heb ddefnyddio gormod o adnoddau, gan gynnwys 'hyfforddi'r hyfforddwr' (lle mae un person yn cwblhau hyfforddiant allanol ac yna'n trosglwyddo’r dysgu ymlaen i eraill yn fewnol), datblygu dysgu ar-lein, neu barhau i ddefnyddio cynlluniau hyfforddi'r gweithlu a ddatblygwyd o dan y rhaglen integreiddio.

#### 3.10.3.6. Defnyddio adnoddau i’r eithaf

Er mwyn parhau â'r gwaith integreiddio a thrawsnewid, manteisiodd sefydliadau braenaru ar adnoddau y tu allan i'r rhaglen integreiddio, megis ffrydiau cyllido amgen neu wahanol raglenni. Er mwyn cefnogi gwaith o amgylch data a gallu digidol, roedd dogfennau yn cyfeirio at enghreifftiau yn cynnwys gweithio gyda rhaglen ddigidol ranbarthol benodol a gyda sefydliad trydydd sector yn y maes polisi ac ymchwil. O ran darparu gwasanaethau, darparwyd enghreifftiau ar gyfer gweithgarwch parhaus trwy raglenni blynyddoedd cynnar eraill (fel Dechrau'n Deg), gan gynnwys symud staff rheng flaen i'r rhaglenni hyn.

### 3.10.4. Rhwystrau o ran cynaliadwyedd

Roedd rhwystrau o ran cynaliadwyedd yn cynnwys natur tymor byr y rhaglen integreiddio, ansicrwydd ac ansefydlogrwydd, a materion ymgysylltu.

#### 3.10.4.1. Dull tymor byr

Roedd rhai sefydliadau braenaru yn teimlo bod Llywodraeth Cymru yn ceisio datrys problem hirdymor sydd wedi bodoli ers cenedlaethau gyda datrysiad cyllido anghynaladwy, tymor byr. Hyd yn oed lle roedd arferion gwaith da wedi'u hymwreiddio i ddiwallu anghenion cyfredol, bydd materion cymdeithasol yn newid dros amser. Mae angen i'r system fod yn dda am ragweld ac ymateb yn gyflym i newid cymdeithasol er mwyn caniatáu ymyrraeth gynnar, a heb waith integreiddio parhaus, roedd ofn y byddai hyn yn anghyraeddadwy.

Tynnwyd sylw at y ffaith bod trawsnewid ac integreiddio yn broses uchelgeisiol a hir a fyddai ond yn ymarferol dros gyfnod hir o amser yn unig.

#### 3.10.4.2. Ansicrwydd ac ansefydlogrwydd

Mae'r diffyg cyllid hirdymor ar gyfer y rhaglen integreiddio wedi achosi llawer o bryder i sefydliadau braenaru. Adroddodd rhai fod ganddynt bryderon am yr ansefydlogrwydd a achoswyd gan drosiant staff, a oedd yn rhwystro meithrin perthynas rhwng sefydliadau. Yn ogystal, roedd perygl y byddai'r wybodaeth a oedd gan yr aelodau staff hyn yn cael ei cholli gyda throsiant uchel. Codwyd pryderon difrifol gan nifer o ddogfennau braenaru ynghylch cynaliadwyedd y gwaith a wnaed eisoes gan staff a gyflogwyd yn benodol i reoli integreiddio a thrawsnewid (fel cydgysylltwyr), na fyddai eu swyddi yn cael eu hariannu mwyach. Teimlwyd na fyddai'r gwaith yn parhau heb staff ymroddedig oherwydd nad oes gan staff mewn sefydliadau braenaru y gallu i ymgymryd â'r gwaith ychwanegol.

#### 3.10.4.3. Materion ynghylch ymgysylltu

Roedd natur tymor byr, dros dro y rhaglen yn effeithio ar sefydlogrwydd a sicrwydd gwaith blynyddoedd cynnar ac ar barodrwydd partneriaid posibl i ymgysylltu. Credwyd bod hyn yn arbennig o wir yn achos partneriaid trydydd sector, a oedd angen adnoddau i chwilio am gyllid trwy geisiadau neu i ailfodelu gwasanaethau i fodloni gofynion cyllid. Gallai hyn olygu nad oedd gwasanaethau mor addas ag y gallent fod i anghenion defnyddwyr, gan beryglu cynaliadwyedd gwasanaethau.

Roedd diwedd y cyllid hefyd yn golygu bod achosion o lai o ymgysylltu gan uwch reolwyr, a oedd yn ei dro yn effeithio ar y gefnogaeth gyffredinol ar gyfer gwaith integreiddio a thrawsnewid parhaus. Roedd llawer o sefydliadau braenaru yn teimlo bod cyllid y rhaglen integreiddio wedi dod i ben heb rybudd digonol gan Lywodraeth Cymru. Nid oedd hyn yn rhoi'r amser i sefydliadau braenaru ddatblygu cynlluniau ymadael ac olyniaeth, gan gynnwys ystyried pa adnoddau y gellid eu defnyddio i barhau i gyflawni ac i gael cymeradwyaeth gan uwch arweinwyr. Roedd dogfennau'n disgrifio effeithiau yn y dyfodol ar ddisgwyliadau plant a theuluoedd o wasanaethau a mynediad atynt. Roedd teimlad bod diwedd cyllid gan Lywodraeth Cymru yn arwydd bod integreiddio a thrawsnewid gwasanaethau blynyddoedd cynnar yn llai o flaenoriaeth.

## 3.11. Argymhellion o ddogfennau braenaru

Daw’r argymhellion hyn o adroddiadau braenaru sydd wedi'u cynnwys yn y sampl. Dylid nodi bod yr argymhellion hyn yn deillio o safbwynt sefydliadau braenaru yn unig.

### 3.11.1. Ar gyfer Llywodraeth Cymru

#### 3.11.1.1. Gweledigaeth

- Darparu gweledigaeth dryloyw ar gyfer dyfodol y blynyddoedd cynnar.
- Sicrhau bod y weledigaeth yn cael ei chyfathrebu'n glir i'r holl randdeiliaid.
- Cynnwys rhanddeiliaid wrth ddatblygu'r weledigaeth ar gyfer y sector blynyddoedd cynnar.

#### 3.11.1.2. Cyllido

- Darparu canllawiau mwy eglur ar gyllid i gynorthwyo gyda chynllunio hirdymor.
- Darparu cyllid ar gyfer parhau â'r gwaith trawsnewid ac integreiddio ledled Cymru.

#### 3.11.1.3. Aliniad â blaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru

- Darparu rhagor o wybodaeth am sut mae integreiddio a thrawsnewid y blynyddoedd cynnar yn cysylltu â blaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru.
- Darparu strategaeth blynyddoedd cynnar sy'n dwyn ynghyd bolisïau, blaenoriaethau strategol a chyllid Llywodraeth Cymru.

#### 3.11.1.4. Adrodd

- Cynhyrchu fframwaith adrodd data clir a chyson ar gyfer y blynyddoedd cynnar.
- Darparu system ddata genedlaethol ar gyfer cipio data er mwyn caniatáu i benderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth gael eu gwneud.

### 3.11.2. Ar gyfer ymarferwyr

#### 3.11.2.1. Hyfforddiant

- Cydgysylltu cynnig hyfforddiant rhanbarthol a lleol cyson sydd ar gael ar draws gwasanaethau a sefydliadau.
- Nodi bylchau yn y cynnig hyfforddiant a cheisio eu llenwi.
- Caniatáu amser i staff fynychu hyfforddiant, myfyrio a rhannu arfer gorau sy'n gysylltiedig â datblygiad proffesiynol.
- Ymwreiddio hyfforddiant a rennir ar bob lefel.
- Hyrwyddo diwylliant sy'n cefnogi hyfforddiant a datblygiad proffesiynol.

#### 3.11.2.2. Staffio

- Ymgymryd â gwaith i ddeall capasiti, recriwtio, cadw a gallu yn y gweithlu.
- Sicrhau bod model cadarn o oruchwyliaeth a chefnogaeth effeithiol i staff ar faterion ymarferol a lles.
- Parhau â rolau cydgysylltu a rolau ymarferwyr arbenigol sy'n cefnogi'r gwaith o drawsnewid ac integreiddio’r blynyddoedd cynnar.

#### 3.11.2.3. Atgyfeiriadau

- Sefydlu disgwyliadau clir ynghylch atgyfeiriadau o'r sector iechyd.
- Sicrhau cyfathrebu effeithiol a phrosesau rhannu gwybodaeth rhwng gwasanaethau, er mwyn lleihau'r angen i deuluoedd ailadrodd gwybodaeth.
- Sicrhau cyfathrebu effeithiol â theuluoedd sy'n lleihau dyblygu ac yn symleiddio llwybrau mynediad.

#### 3.11.2.4. Cydweithio

- Parhau i gefnogi a hwyluso cydweithio effeithiol ar draws gwasanaethau, proffesiynau, sefydliadau a rhanbarthau.

#### 3.11.2.5. Cyfathrebu

- Parhau i hwyluso cyfeirio a rhannu gwybodaeth rhwng gweithwyr proffesiynol.
- Hyrwyddo gwaith y system blynyddoedd cynnar fel bod teuluoedd yn ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael.
- Sicrhau bod negeseuon o amgylch gwasanaethau yn gyson ac yn glir.
- Ystyried anghenion cyfathrebu cymunedau lleol.
- Ystyried hygyrchedd cyfathrebu a darparu cyfieithiadau lle bo angen.
- Datblygu cynllun cyfathrebu ar gyfer gwasanaethau blynyddoedd cynnar.

### 3.11.2.6. Gofod ffisegol

- Ceisio cyd-leoli lle bo'n bosibl.
- Sicrhau bod mannau ffisegol yn briodol ar gyfer yr hyn maen nhw'n cael eu defnyddio.
- Cynnal gwasanaethau mewn lleoliadau sy'n gyfleus i deuluoedd lle bo hynny'n bosibl.

### 3.11.2.7. Y Gymraeg

- Sicrhau bod digon o adnoddau Cymraeg, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn brif iaith y gymuned.
- Cynnig gwasanaethau cwbl ddwyieithog lle mae galw.
- Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau ac allgymorth cymunedol.

### 3.11.2.8. Anghenion y boblogaeth

- Ymgymryd ag ymarfer mapio i ddeall pa anghenion, cymorth a gwasanaethau sydd ar gael yn yr ardal.
- Gwella llais rhieni a chyd-gynhyrchu trwy fwy o ymgysylltu â theuluoedd.
- Deall beth mae teuluoedd ei eisiau o wybodaeth a chyfathrebu.

### 3.11.2.9. Ar gyfer rhieni a theuluoedd

- Symleiddio'r broses ar gyfer darparu gwybodaeth.
- Gwella cyfathrebu i egluro gwahanol gynigion cymorth.
- Ymestyn oriau agor cymorthfeydd galw heibio a gweithgareddau eraill i alluogi mwy o deuluoedd i fynychu.
- Hyrwyddo digwyddiadau a sesiynau i wella presenoldeb, gan gynnwys defnyddio cyfryngau cymdeithasol.
- Rhannu amserlenni digwyddiadau sydd i ddod.
- Cynnig amrywiaeth ehangach o ran y math o grwpiau a gynigir lle bo'n bosibl.
- Gwella mynediad at wybodaeth am rianta plant ag ADY, hyrwyddo'r gymuned ADY a chefnogi ymdrechion i feithrin perthynas rhwng rhieni plant ag ADY.
- Darparu mwy o gymorth teilwredig i rieni a gofalwyr plant sy'n cael diagnosis niwroddatblygiadol neu'n aros amdano.
- Ystyried sut i wneud grwpiau cymorth yn fwy hygyrch i deuluoedd sy'n dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus neu'n byw mewn lleoliadau gwledig.

- Ymestyn y gefnogaeth a gynigir gan Dechrau'n Deg i bob ardal.
- Darparu cymorth i deuluoedd heb breswylfa barhaol a materion eraill sy'n gysylltiedig â thai.
- Darparu mwy o gymorth teilwredig i rieni a gofalwyr ag anghenion iechyd meddwl cymhleth.

### 3.11.3. Ar gyfer arweinwyr braenaru

#### 3.11.3.1. Llywodraethu

- Gweithredu strwythur rheoli unigol, unedig.
- Sicrhau bod strwythurau atebolrwydd priodol ar waith.
- Cynhyrchu diffiniad clir o 'lywodraethu' sy'n cael ei ddeall ar draws y rhanbarth.
- Sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir, gan gynnwys gwneud penderfyniadau.
- Parhau â'r cydweithrediad â strwythurau rhanbarthol eraill sydd â'r blynyddoedd cynnar yn eu cylch gorchwyl.
- Ystyried sut mae llywodraethu rhanbarthol yn cysylltu â strwythurau llywodraethu lleol.
- Parhau i redeg byrddau rhanbarthol i sicrhau bod gwaith integreiddio a thrawsnewid yn parhau gyda chyfeiriad clir.
- Mabwysiadu archwaeth risg uwch wrth edrych i'r dyfodol, lle bo hynny'n bosibl.
- Datblygu cynllun i fynd i'r afael â rhwystrau o ran integreiddio (er enghraifft, herio diwylliannau sefydliadol anghynhyrchiol).
- Eirioli anghenion y rhanbarth i lunwyr polisi Llywodraeth Cymru i helpu i uno gweledigaeth y blynyddoedd cynnar.
- Adolygu datblygiad y gweithlu a chreu cynllun hyfforddi safonol ar gyfer yr holl staff yn y sector blynyddoedd cynnar.

#### 3.11.3.2. Cyllido

- Nodi ffynonellau cyllid sy'n golygu bod modd parhau â'r gwaith integreiddio a thrawsnewid, gan gynnwys ariannu swyddi cydgysylltwyr.
- Alinio ffrydiau cyllido presennol.
- Datblygu ceisiadau cyllid ar y cyd.

#### 3.11.3.3. Cynaliadwyedd

- Cynnal y model gweithio o wasanaethau cymorth i deuluoedd y tu hwnt i'r rhaglen integreiddio.
- Dylai awdurdodau lleol ddatblygu cynlluniau hirdymor gyda phartneriaid ar gyfer y rhanbarth, sy'n cynnwys bylchau mewn tystiolaeth a chyflawni i sicrhau mynediad teg at wasanaethau.
- Gweithredu 'dull awdurdod cyfan' o gefnogi teuluoedd drwy ddod â phartneriaid sy'n gweithio mewn adrannau sy'n gysylltiedig yn anuniongyrchol â'r blynyddoedd cynnar at ei gilydd (megis tai, hamdden, trafnidiaeth).
- Parhau i fyfyrio ac adolygu aeddfedrwydd y system (gan gynnwys y defnydd o Fatrics Aeddfedrwydd Mamolaeth a Blynyddoedd Cynnar yr EIF (a elwir bellach yn Foundations) i nodi meysydd gwaith a chynnydd tuag at integreiddio a thrawsnewid systemau cyfan.
- Datblygu cynlluniau i fwrw ymlaen â gwaith integreiddio a thrawsnewid heb gyllid y rhaglen integreiddio.

#### 3.11.3.4. Meithrin capasiti

- Archwilio dichonoldeb cynyddu capasiti system i'w gwneud yn fwy canolog.
- Hwyluso cyfleoedd rhannu gwybodaeth rhwng proffesiynau'r sector blynyddoedd cynnar.

#### 3.11.3.5. Argymhellion data

- Gwella swyddogaethau data craidd, megis diweddaru systemau a ddefnyddir ar gyfer rhannu data.
- Nodi ffynonellau data priodol.
- Gwella gallu systemau fel y gellir cynnal dadansoddiadau defnyddiol a thrwyadl.
- Gwella galluoedd rhannu data, gan gynnwys cymorth GDPR y DU.
- Cyflwyno mesurau i gasglu data (megis anghenion y boblogaeth, parodrwydd ar gyfer yr ysgol, datblygiad y gweithlu, darparu a gwella gwasanaethau, adborth staff).
- Cynnal adolygiad o offer TG (megis ffonau clyfar, apiau, templedi a diweddariadau systemau) a rhoi gwelliannau ar waith.
- Gweithredu system i ymarferwyr allu gweld hanes y teulu gyda gwasanaethau eraill yn yr ardal.

### 3.11.3.6. Ymchwil a gwerthuso pellach

- Ystyried anghenion gwerthuso ar ddechrau prosiectau a gwaith rhaglenni, gyda fframwaith gwerthuso cyffredin ac offer gwerthuso yn ategu hynny.
- Gosod canlyniadau a fframweithiau gwerthuso i allu mesur effeithiau ar draws partneriaid a sefydliadau.
- Diweddaru strategaethau integreiddio yn rheolaidd i adlewyrchu dysgu ac arfer gorau.
- Deall gwerth cyd-gynhyrchu.
- Lledaenu gwybodaeth i gynyddu ymwybyddiaeth, gallu a diddordeb.
- Cynhyrchu dadansoddiad o arbedion cost a gwerth am arian.
- Ymgymryd ag ymchwil:
    - sy’n canolbwyntio'n benodol ar 0 i 4 oed i adeiladu sylfaen dystiolaeth
    - i ddeall llwybrau diagnostig yn fanylach
    - i ddeall ail-atgyfeiriadau a gwneud gwelliannau i brosesau presennol
    - gyda theuluoedd, plant ac ymarferwyr i ddeall eu persbectif o'r gwasanaethau a'r cymorth
    - i ddeall manteision darpariaeth gyffredinol yn erbyn darpariaeth yn seiliedig ar anghenion a darpariaeth yn seiliedig ar ddaearyddiaeth.
    - ar ganlyniadau i blant a theuluoedd sy'n defnyddio gwasanaethau blynyddoedd cynnar, gan gynnwys yn hydredol i asesu newid dros amser
    - ar ddatblygu a defnyddio deallusrwydd busnes
- Mabwysiadu dulliau o werthuso canlyniadau hyfforddiant a datblygiad y gweithlu, gan gynnwys ar gyfer staff a theuluoedd.
- Archwilio cyfleoedd ar gyfer cysylltu data.

# 4. Canfyddiadau: grwpiau ffocws

Mae'r adran hon yn cyflwyno canfyddiadau'r grwpiau ffocws, a gynhaliwyd ar sail rhanbarthau byrddau iechyd. Gofynnwyd i gyfranogwyr y grŵp ffocws nodi faint o integreiddio a gyflawnwyd yn ystod ac ar ôl y rhaglen, a'r hyn y maent yn ei ddisgwyl ar gyfer integreiddio'r system blynyddoedd cynnar yn y dyfodol.

Mae pob dyfyniad o'r cyfweliadau yn yr adroddiad Cymraeg hwn yn gyfieithiadau o'r dyfyniadau gwreiddiol. Gellir dod o hyd i'r dyfyniadau gwreiddiol yn fersiwn Saesneg yr adroddiad.

## 4.1. Yn ystod y rhaglen integreiddio

Gofynnwyd i gyfranogwyr y grŵp ffocws drafod integreiddio a thrawsnewid yn ystod y rhaglen integreiddio. Yn benodol, gofynnwyd iddynt am amseroldeb gwasanaethau, faint o integreiddio'r system a gyflawnwyd, a'u profiad o dynnu ar elfennau o raglenni blynyddoedd cynnar eraill.

### 4.1.1. Amseroldeb gwasanaethau

Yn gyffredinol, roedd gan gyfranogwyr deimladau cadarnhaol ynghylch a oedd 'plant a theuluoedd yn gallu derbyn cymorth ar yr adeg iawn, yn y ffordd iawn ac yn y lle iawn'.

Dywedodd cyfranogwyr eu bod yn darparu cymorth ar 'yr adeg iawn, yn y ffordd iawn ac yn y lle iawn' trwy weithredu model sy'n seiliedig ar anghenion, o'i gymharu â dull sy'n seiliedig ar ddaearyddiaeth. Wrth wneud hynny, roedd modd ymestyn cymorth i deuluoedd y tu allan i ardaloedd Dechrau'n Deg, neu y tu allan i ystod oedran Dechrau'n Deg. Cafodd y dull hwn a arweinir gan anghenion ei ddisgrifio ychydig yn wahanol ar draws y grwpiau ffocws rhanbarthol. Roedd yn cynnwys cynllunio, megis nodi ardaloedd lle roedd annhegwch yn y ddarpariaeth (er enghraifft, ardaloedd gwledig). Roedd hefyd yn cynnwys diwygio prosesau, megis y ffordd y nodwyd lefel y cymorth oedd yn angenrheidiol, y broses atgyfeirio, neu sut y gweithiodd timau gyda'i gilydd i nodi'r gwasanaeth mwyaf priodol i deuluoedd. Dywedodd cyfranogwyr hefyd, wrth dreialu model a arweinir gan anghenion mewn awdurdod lleol penodol yn unig, eu bod wedi cydweithio â'r awdurdodau lleol eraill a'r bwrdd iechyd i feddwl sut y gellid gweithredu'r model a thrafod yr hyn a ddysgwyd.

> *"… Rwy'n credu bod yna brosiectau a oedd yn bendant yn helpu plant a theuluoedd i gael cymorth ar adeg na fyddent efallai byth wedi ei gael... oherwydd ... yr ardaloedd y gallent fod wedi bod yn byw ynddynt... oherwydd roedd cryn dipyn o ffocws ar ardaloedd nad oeddynt yn rhan o Dechrau'n Deg er mwyn ceisio cael cynnig mwy teg..."*

Ffordd arall y dywedodd cyfranogwyr eu bod yn darparu cymorth ar 'yr adeg iawn, yn y ffordd iawn ac yn y lle iawn' fel rhan o'r rhaglen integreiddio oedd trwy nodi bylchau mewn gwasanaethau ac enghreifftiau o ddyblygu gwasanaethau. Fe wnaethant ymateb i'r wybodaeth hon trwy roi gwasanaethau ar waith. Roedd gwahanol ddulliau yn cynnwys dod â phartneriaid at ei gilydd a siarad â theuluoedd i ddeall eu hanghenion.

*“... edrych ar wasanaethau y gellid eu rhoi ar waith i gefnogi [teuluoedd] tra eu bod ar y rhestr aros hir honno... roeddem yn darganfod ... gyda... ymyrraeth... efallai na fyddai angen iddynt o reidrwydd aros ar y rhestr aros. Felly, roedd yn ein helpu i nodi pecynnau llai o gymorth y gallem eu rhoi ar waith..."*

Ymhlith y meysydd eraill a drafodwyd roedd datblygu cymorth cynenedigol fel rhan o'r prosiectau, er mwyn cyrraedd teuluoedd yn gynnar. Darparwyd hyfforddiant rhanbarthol (ar draws awdurdodau lleol yn rhanbarth y bwrdd iechyd) hefyd i sicrhau bod teuluoedd yn derbyn negeseuon cyson ar draws pob ardal.

Fodd bynnag, nid oedd rhai cyfranogwyr yn teimlo bod 'plant a theuluoedd yn gallu derbyn cymorth ar yr adeg iawn, yn y ffordd iawn ac yn y lle iawn'. Roedd hyn yn ymwneud â natur tymor byr y rhaglen. Thema gyffredin a godwyd oedd yr amser a gymerwyd i recriwtio staff, a oedd yn golygu bod oedi cyn dechrau darparu gwasanaethau. Mewn rhai achosion, soniodd cyfranogwyr mai newydd ddechrau oedden nhw tuag at ddiwedd cyfnod y cyllid. Roedd amser cyfyngedig i'r newid ymwreiddio, ac i ganfod a oedd teuluoedd yn gweld eu bod yn derbyn cymorth amserol.

*“… a oeddem yn cyrraedd y plant iawn ar yr adeg iawn a'r teuluoedd cywir, mae'n anodd gwybod hynny oherwydd dim ond newydd ddigwydd oedd y cyfan, ac mewn gwirionedd byddai'n rhaid i ni ymgynghori â'r teuluoedd i ofyn iddyn nhw a oedden nhw'n teimlo hynny, ac nid oeddem wedi cyrraedd y cam hwnnw..."*

### 4.1.2. Hyd a lled integreiddio systemau

Er bod cyfranogwyr yn teimlo eu bod wedi cymryd rhai camau tuag at integreiddio, y teimlad mwyaf cyffredin oedd nad oeddent wedi cyflawni integreiddio systemau yn ystod y rhaglen integreiddio. Roedd achosion lle roedd cyfranogwyr yn teimlo eu bod ‘ymhell iawn’ o gyflawni hyn.

*“… Dydw i ddim yn credu ein bod wedi cyflawni system integredig blynyddoedd cynnar eto... rwy'n credu ein bod ni flynyddoedd i ffwrdd. Felly, rwy'n credu ei fod wedi ein helpu i nodi... sut yr hoffen ni iddo edrych. Dydw i ddim yn meddwl ei fod wedi ein helpu ni i wneud iddo ddigwydd mewn gwirionedd..."*

Ar y llaw arall, roedd achos lle roedd cyfranogwyr o fewn un rhanbarth yn teimlo bod y rhaglen integreiddio yn helpu i weithredu system blynyddoedd cynnar integredig, er bod hyn yn lleol. Gwireddwyd hyn wrth i awdurdodau lleol weithredu dull a arweinir gan anghenion ar draws eu priod ardaloedd.

*"Rwy'n credu ein bod ni... wedi gweithredu'r rhaglen ar draws y fwrdeistref gyfan... rydym wedi paratoi rhyw ychydig am y dyfodol yn yr ystyr ein bod ni'n teimlo bod gennym y model cywir..."*

Fodd bynnag, roedd rhai cyfranogwyr yn yr un rhanbarth yn llai cadarnhaol, gan nodi nad oedd integreiddio yn gweithio yn rhanbarthol. Nid oedd y model ddarparu yn addas i'r holl awdurdodau lleol yn y rhanbarth, oherwydd gwahaniaethau yn y ffordd y strwythurwyd gwasanaethau.

*"… ar draws pob un o'r ... awdurdodau lleol a'r bwrdd iechyd... yr holl amser a neilltuwyd i nodi ... sut i gyflawni'r dull integredig hwnnw... nid oeddem wedi llwyddo i wireddu hynny erbyn diwedd y rhaglen a gwneud hynny'n weithredol ar lefel [enw'r rhanbarth]... roedd yr awydd i sicrhau'r model integredig hwn yno, ond roedd gormod o ffactorau a rhwystrau o'n cwmpas i'n hatal rhag gwneud hynny..."*

#### 4.1.2.1. Heriau ar gyfer integreiddio

Y rheswm mwyaf cyffredin dros beidio â gallu gweithredu system integredig oedd amser. Adroddodd y cyfranogwyr nad oedd y rhaglen integreiddio fel rhaglen tymor byr yn gydnaws â gweithredu system blynyddoedd cynnar integredig, sy'n dasg hirdymor. Ar ben hynny, nid yw'r integreiddio hwnnw o reidrwydd yn rhywbeth y gellir ei gyflawni, gan fod hyn yn fwy o daith barhaus a bydd yn esblygu gyda chyd-destun y system.

*"… nid yw hynny'n mynd i ddigwydd yn ystod oes y rhaglen, rydych chi'n gwybod bod y system blynyddoedd cynnar yn system gymhleth... nid oes gobaith cael system sydd wedi'i hintegreiddio'n llawn mewn rhaglen tair blynedd...."*

Nododd cyfranogwyr hefyd bod y ffordd tymor byr o drefnu'r cyllid, gan gynnwys yr ansicrwydd a greodd hyn, yn effeithio ar yr hyn y gwnaethant ddewis ei gynllunio a'i gyflawni. Yn yr achosion hyn, trafododd cyfranogwyr fod hyn yn golygu bod prosiectau 'diogel' yn cael eu dewis yn hytrach na mynd ar drywydd dull trawsnewidiol, neu eu bod yn ffitio'r hyn yr oeddent wedi bwriadu ei wneud i'r gyllideb a'r amserlen gan na fyddent wedi gallu cyflawni'r hyn y byddent yn hoffi ei wneud yn llawn.

*"... roedden ni'n gwybod bod y cyllid yn mynd i fod yn gyfyngedig, felly mewn gwirionedd, fyddech chi ddim yn dechrau'r hyn yr oeddem eisiau ei gyflawni'n llawn oherwydd nad oedd modd ei gyflawni."*

Roedd achosion lle gwnaed cymariaethau â'r rhaglen Better Start (Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol) sy'n gweithredu mewn rhai mannau yn Lloegr. Adroddwyd bod hyn yn cynnig lefel uwch o gyllid dros 10 mlynedd, a ystyriwyd yn fwy addas ar gyfer integreiddio.

Yn gysylltiedig â heriau amser, trafododd cyfranogwyr heriau gyda'r ffordd y dyrannwyd cyllid o fewn y rhaglen tymor byr. Roedd hyn yn nhermau peidio ag ystyried yr amser y mae'n ei gymryd i greu cynlluniau busnes a meddwl am flaenoriaethau, ac ar gyfer recriwtio. Gan fod y rhain yn brosesau sylweddol, roedd yr her hon yn golygu bod llai o amser ar gyfer dechrau ac ymwreiddio'r gwaith ac roedd yn golygu bod ffenestr fer i wario'r cyllid.

*"… dydw i ddim yn credu bod rhai o'r ardaloedd, wedi elwa cymaint ag y gallem fod wedi ei wneud. Gallai fod wedi bod yn llawer cryfach pe baem wedi cael 6 i 12 mis arall i ymwreiddio'r newid oherwydd cymerodd gymaint o amser i ni weithio ar y newid, penderfynu, cyrchu, hyfforddi..."*

Her arall yn ymwneud ag amser oedd cyfyngiadau ar sicrhau tystiolaeth o'r gwaith. Trafododd cyfranogwyr nad oedd digon o amser i brofi eu gwaith a chasglu tystiolaeth ynghylch effeithiolrwydd neu unrhyw newidiadau. Mewn un achos, adroddwyd bod y pwysau amser yn golygu nad oedd unrhyw waelodlin neu fframwaith wedi'i roi ar waith ar y dechrau i asesu cynnydd neu newidiadau yn ei erbyn. Nodwyd hefyd nad oedd amser

penodol wedi'i neilltuo ar ddiwedd y rhaglen i fyfyrio ar y canlyniadau a'r dysgu, sy'n golygu bod y gweithgaredd hwn yn effeithio ar y ddarpariaeth.

*"… dydw i ddim yn meddwl bod y sensitifrwydd amser o gwmpas y darn hwn o waith wedi helpu pethau... heb y cyfle hwnnw i brofi pethau a dangos tystiolaeth y... byddai model penodol yn fuddiol; rydych chi'n mynd i ddychwelyd at yr hyn sydd wedi digwydd erioed oherwydd nad oes gennych y dystiolaeth bendant honno i yrru'r newid..."*

Trafododd y cyfranogwyr hefyd fod diffyg eglurder ynglŷn â beth yw 'integreiddio', gan gynnwys y disgwyliadau o sut olwg ddylai fod ar 'integreiddio' o ystyried amser a chyllideb gyfyngedig y rhaglen integreiddio.

Her arall ar gyfer integreiddio oedd nodi'r bobl 'iawn' i fod yn rhan o'r lefel strategol a allai wthio'r gwaith ymlaen. Adroddwyd bod hyn yn cymryd amser. Hefyd, her oedd sicrhau cefnogaeth ar lefel arweinyddiaeth, gan gynnwys adroddiadau bod hyn yn anodd lle roedd blaenoriaethau yn wahanol ar draws sefydliadau unigol. Mewn rhai achosion, nododd cyfranogwyr nad oedd llawer yn llifo i lawr o'r lefel strategol i'r lefel weithredol. Mewn un achos roedd diffyg awydd gweithredol am newid gan nad oedd y weledigaeth neu'r model arfaethedig yn cael ei ddeall.

*"… Roedd gweithredu'r model yn un o'r pethau anoddaf rydw i wedi'i wneud erioed... i ddyfeisio'r rhaglen... nid oedd llawer o arweinwyr yn bresennol... ac yna pan wnaethon ni gynnig ein ffordd newydd o weithio, roedd yn eithaf anodd gweithredu hynny ar lefel leol. Roedd llawer o her yn gorfforaethol..."*

Gan fod gwasanaethau ar draws awdurdodau lleol wedi'u sefydlu'n wahanol, disgrifiodd y cyfranogwyr hefyd yr anawsterau wrth greu rhaglen waith ranbarthol, gydag un cyfranogwr yn nodi "*nid yw'n mynd i fod yn fath o 'un darpariaeth gwasanaeth*'". Disgrifiodd y cyfranogwyr hefyd sut roedd gwahanol awdurdodau lleol ar wahanol gamau cyflawni, ac er y gallai hyn fod yn fuddiol i ddysgu (gweler 'llwyddiannau o ran integreiddio'),roedd yn creu anawsterau wrth geisio rhoi dull rhanbarthol ar waith.

Yn olaf, roedd capasiti isel mewn rhai gwasanaethau yn golygu nad oeddent yn gallu neu'n barod i gyfranogi. Yn ogystal, adroddwyd bod gwahanol systemau TG ar draws sefydliadau yn effeithio ar integreiddio gan ei fod yn ei gwneud hi'n anodd rhannu gwybodaeth.

#### 4.1.2.2. Llwyddiannau o ran integreiddio

Er gwaethaf y teimlad cyffredinol nad oedd integreiddio'r system blynyddoedd cynnar wedi'i weithredu'n llawn, trafododd cyfranogwyr pa elfennau o integreiddio yr oedd y rhaglen integreiddio yn eu cefnogi i'w gwneud.

Trafododd y cyfranogwyr sut datblygodd perthnasoedd a rhwydweithiau rhwng gwasanaethau a sefydliadau na fyddai wedi digwydd fel arall. Roedd yna hefyd well dealltwriaeth o wahanol rolau a chyfrifoldebau.

Adroddodd cyfranogwyr hefyd fod y rhaglen integreiddio yn rhoi cyfle i ddod â staff at ei gilydd a gweithio gyda ffocws penodol. Disgrifiwyd y rhaglen integreiddio mewn un achos fel 'catalydd' ar gyfer meddwl am newid. Roedd enghreifftiau o feddwl ar sail ranbarthol yn

cynnwys beth oedd yn gweithio a beth nad oedd yn gweithio, nodi bylchau a dyblygu, datblygu strategaeth, a chreu blaenoriaethau neu ffrydiau gwaith a rennir.

*"… Rhoddodd sbardun go iawn i ni weithio mewn ffordd fwy cydgysylltiedig â... chydweithwyr o fewn [bwrdd iechyd] er enghraifft... Nid cydweithwyr awdurdodau lleol yn unig, roedd yna... gydweithwyr ehangach... Rwy'n credu ei fod wedi ein helpu i edrych yn fanylach, gan wneud yn siŵr nad oeddem yn dyblygu ymdrechion hefyd..."*

Roedd meddwl rhanbarthol hefyd yn amlwg lle roedd rhai awdurdodau lleol yn fwy o ran maint neu lle roeddent eisoes wedi gwneud cynnydd ar bwnc neu ffrwd waith; roeddent felly yn cymryd rôl arweiniol ar ddarn penodol. Yna roedd hyn o fudd i'r awdurdodau lleol eraill yn y rhanbarth, a rhannwyd dysgu ar draws y rhanbarth. Roedd rhannu'r hyn a ddysgwyd hefyd yn digwydd lle roedd awdurdodau lleol yn dechrau yn hwyrach nag eraill, gan dynnu ar yr hyn a wnaed eisoes gan awdurdodau lleol a oedd wedi ymuno yn gynharach.

*"… Rwy'n credu bod cryfder mewn cydweithio ac rwy'n credu mai'r peth gorau a wnaeth Llywodraeth Cymru oedd ei gwneud yn rhaglen ranbarthol. Yn enwedig o fod... yr awdurdod lleol lleiaf o fewn ein hôl troed rhanbarthol... does dim ffordd y byddai [awdurdod lleol] wedi cael yr arbenigedd na'r nifer o staff o fewn y tîm, i allu creu... [offeryn a greodd awdurdod lleol arall]."*

Er bod yr elfennau nesaf hyn hefyd wedi dod i'r amlwg fel heriau, cawsant eu hystyried yn gadarnhaol gan rai. Adroddodd cyfranogwyr fod cynrychiolaeth effeithiol o uwch reolwyr ar draws y rhanbarth. Trafododd y cyfranogwyr hefyd fod y rhaglen integreiddio yn cefnogi blaenoriaethu'r gwaith o fewn sefydliadau neu gefnogaeth gan reolwyr neu arweinwyr. Roedd hyn hefyd yn cynnwys gallu defnyddio'r cyfeiriad rhanbarthol i ddylanwadu ar waith o fewn sefydliadau unigol.

Crynhowyd yr hyn a ddisgrifiwyd yn y paragraffau blaenorol mewn un achos; er bod enghreifftiau penodol neu bocedi o weithio integredig, nid integreiddio 'systemau cyfan' yw hyn.

#### 4.1.2.3. Ehangu yn ystod y rhaglen

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr pa feysydd a gyflwynwyd ar sail leol neu ranbarthol. Trafododd un rhanbarth sut oedd eu hawdurdodau lleol yn cyflwyno fesul ardal o ardal beilot i'r awdurdod lleol ehangach. Dywedodd sawl awdurdod lleol eu bod wedi dechrau eu peilot mewn tref neu bentref, cyn datblygu hyn ar draws yr awdurdod lleol cyfan. Fe wnaethant adrodd bod eu dull wedi ehangu ystod oedran gwasanaethau y tu hwnt i Dechrau'n Deg (megis hyd at saith oed) neu ehangu cynigion y tu hwnt i ardaloedd Dechrau'n Deg.

Trafododd rhanbarthau eraill sut yr oeddent wedi cyflwyno ar sail ranbarthol, felly o un sefydliad i'r llall. Trafododd y cyfranogwyr enghreifftiau o wasanaethau penodol a ddechreuodd mewn un awdurdod lleol, ac a weithredwyd wedyn ar draws awdurdodau lleol eraill. Roedd y rhesymau yn cynnwys bylchau neu gapasiti isel ar gyfer gwasanaeth penodol yn yr awdurdod lleol gwreiddiol, felly dewiswyd hwnnw fel lle i gyflwyno'r gwasanaeth ymhellach. Rheswm arall oedd bod yr awdurdod lleol gwreiddiol wedi defnyddio eu hadnoddau i fapio lle roedd angen gwasanaethau yn rhanbarthol, a oedd yn

nodi bod angen ehangu'r gwasanaeth ar draws awdurdodau lleol. Nododd cyfranogwyr bod y gwasanaethau wedi'u haddasu pan gawsant eu cyflwyno ar draws y rhanbarth.

Trafododd cyfranogwyr hefyd fod hyfforddiant neu adnoddau neu offer penodol a ddatblygwyd yn cael eu cyflwyno ar draws y rhanbarth. Roedd yna hefyd achosion lle soniodd braenarwyr fod gwaith data (fel cronfa ddata neu waith dadansoddi) yn cael ei ddatblygu mewn un awdurdod lleol a'i fabwysiadu ar draws rhai eraill.

Nid soniodd rai am enghraifft benodol o brosiect neu gynnig a gyflwynwyd yn rhanbarthol. Yn hytrach, gan fod awdurdodau lleol yn gwneud pethau gwahanol, soniwyd bod y dysgu hwn wedi'i rannau ac y gellid ei ddefnyddio fel syniadau y gallai awdurdod lleol arall roi cynnig arnynt (gweler 'Llwyddiannau o ran integreiddio').

### 4.1.3. A oedd tynnu ar elfennau o raglenni eraill wedi helpu i greu system ymatebol

Roedd teimladau ynghylch elfennau o raglenni blynyddoedd cynnar eraill yn helpu i greu system fwy ymatebol yn gadarnhaol ar y cyfan.

Soniodd cyfranogwyr eu bod wedi manteisio ar Dechrau'n Deg o ran ehangu'r cynnig hwn i ardaloedd daearyddol eraill (naill ai ardal benodol neu ar draws yr awdurdod lleol) neu ehangu ystod oedran y cynnig. Fe wnaethant hefyd nodi eu bod wedi llenwi bylchau ychwanegol i ddarparu gwasanaethau ar draws meysydd sydd y tu hwnt i'r hyn y mae Dechrau'n Deg yn ei gynnig, megis creu rolau newydd neu ddarparu gwasanaethau mewn gwahanol feysydd. Felly, disgrifiwyd ymateboldeb yn nhermau cyrhaeddiad gwell a gwell ystod o wasanaethau.

Adroddodd cyfranogwyr hefyd eu bod wedi cysylltu Dechrau'n Deg â gwasanaethau eraill i ehangu'r gwasanaethau a gynigir. Er enghraifft, cysylltu elfennau rhianta Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf, neu ddileu'r gwahaniaeth rhwng ymweliadau iechyd Dechrau'n Deg ac ymweliadau iechyd generig. Roedd achosion hefyd lle soniodd cyfranogwyr eu bod wedi manteisio ar staffio, arbenigedd a gwybodaeth rhaglenni eraill i symud ymlaen a chyflawni, gan gynnwys Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a phartneriaid trydydd sector. Felly, disgrifiwyd ymateboldeb yn nhermau gwell cydweithredu a pherthnasoedd rhwng gwahanol dimau rhaglenni blynyddoedd cynnar a bod hyn yn arwain at fwy o gapasiti.

Soniodd cyfranogwyr hefyd eu bod wedi tynnu ar raglenni eraill yn nhermau defnyddio cyllid, megis dod â ffrydiau cyllido at ei gilydd. Nododd un grŵp ffocws fod angen cydgysylltu cyllid y rhaglen integreiddio â chyllid ar gyfer rhaglenni blynyddoedd cynnar eraill gan nad oedd yn ddigonol ar ei ben ei hun, a bod angen cydlyniant er mwyn osgoi dyblygu.

Mae'r is-adran hon hyd yma wedi trafod sut y daethpwyd ag elfennau o raglenni eraill i'r rhaglen integreiddio. Er hynny, soniodd rhai braenawyr bod y gwrthwyneb wedi digwydd o ran ymestyn adnoddau i raglenni eraill. Roedd hyn yn cynnwys ariannu'n rhannol rai rolau mewn rhaglen blynyddoedd cynnar arall (fel Teuluoedd yn Gyntaf) i weithio o fewn prosiectau'r rhaglen integreiddio. Hefyd, datblygwyd adnoddau a'u cyflwyno wedyn i rai sy'n

ymwneud â rhaglenni blynyddoedd cynnar eraill, er enghraifft cyflwyno hyfforddiant ADY i ddarparwyr gofal plant, gan gynnwys darparwyr Dechrau'n Deg.

Fodd bynnag, roedd yna hefyd un achos lle soniodd cyfranogwyr fod tynnu ar rai elfennau o raglenni eraill wedi bod yn niweidiol i ymateboldeb. Dyma lle nad oedd y model o integreiddio ymwelwyr iechyd generig ac ymwelwyr iechyd Dechrau'n Deg yn addas i'r ffordd yr oedd pob sefydliad yn y rhanbarth wedi'i strwythuro. Mae cyfuno llwythi achosion fel hyn wedi cael effaith negyddol ar adnoddau Dechrau'n Deg a'r cymorth y mae teuluoedd yn ei dderbyn gan ei fod wedi lleihau nifer y cysylltiadau Dechrau'n Deg a gyflawnwyd:

*“... roedd gennym bryderon dwys y byddai’n gwanhau faint o waith ac ymyriadau yr oedd teuluoedd Dechrau'n Deg yn eu cael ar hyn o bryd... wrth uno ymweliadau iechyd Dechrau'n Deg ac ymweliadau iechyd generig o dan y rhaglen blynyddoedd cynnar... nid oeddem yn fodlon o’r dechrau fod gennym y gallu a'r gweithlu cywir... Ac rydyn ni'n gweld canlyniadau hynny nawr wrth edrych ar lefel cysylltiadau Dechrau'n Deg. Maen nhw’n llawer is na lle roedden nhw'n arfer bod cyn rhaglen trawsnewid y blynyddoedd cynnar."*

## 4.2. Ar ôl y rhaglen integreiddio

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr a oedd y gwaith o amgylch integreiddio yn parhau ers i'r rhaglen integreiddio ddod i ben. Gofynnwyd iddynt siarad am y rhesymau pam, gan gynnwys ffactorau cefnogol neu rwystrau, a llywodraethu.

### 4.2.1. Hyd a lled yr integreiddio parhaus a gyflawnwyd

Disgrifiodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr fod gwaith integreiddio yn lleihau ers i gyllid y rhaglen ddod i ben. Lle roedd y gwaith integreiddio yn parhau ar ôl cyfnod y rhaglen, nid oedd hyn ar yr un raddfa ag yn ystod y rhaglen integreiddio. Parhaodd rhai agweddau ond ni pharhaodd agweddau eraill, ac roedd y rhesymau dros hyn yn amrywio. Er gwaethaf cynnydd tuag at integreiddio ar gyfer rhai ardaloedd neu elfennau, roedd rhai yn teimlo na lwyddwyd i sicrhau trawsnewidiad systemau cyfan. Roedd yna hefyd y teimlad nad oedd integreiddio parhaus yn bosibl heb gefnogaeth y rhaglen integreiddio.

I eraill, roedd y rhaglen integreiddio yn eu galluogi i ehangu eu cwmpas a darparu ystod ehangach o wasanaethau i blant a theuluoedd yn eu hardal. Roedd y rhaglen integreiddio yn annog newid tuag at weithio mewn partneriaeth ac i ffwrdd o weithio mewn seilo. Fodd bynnag, nid oedd rhai yn gallu cynnal gwaith ar y lefel ranbarthol heb gefnogaeth y rhaglen integreiddio. Er hynny, llwyddwyd i gynnal perthynas waith dda rhwng y bwrdd iechyd ac awdurdodau lleol. Roedd eraill yn teimlo bod y rhaglen wedi caniatáu i waith integreiddio ddechrau lle efallai na fyddai hynny wedi digwydd fel arall.

### 4.2.2. Integreiddio parhaus llwyddiannus

Ers i'r rhaglen integreiddio ddod i ben, mae ymwreiddio gwasanaethau mewn systemau cyfan wedi bod yn llwyddiant mewn rhai ardaloedd.

*"… er bod y rhaglen wedi gorffen, yn y bôn nid oes ... unrhyw newid yn y ffordd y darparwn ein gwasanaethau neu... unrhyw newid negyddol o ran y ffordd rydyn ni'n darparu ein gwasanaethau. Mae wedi parhau."*

Fodd bynnag, ni phrofwyd hyn ymhobman. Dechreuodd un braenarwr waith integreiddio yn hwyrach na braenarwyr eraill, a roddodd lai o amser iddynt ymwreiddio gwasanaethau yn llawn.

Mae effaith barhaus integreiddio wedi golygu bod partneriaid yn parhau i rannu arfer gorau a chynnig cymorth gan gymheiriaid, o fewn a thu allan i'w rhanbarthau bwrdd iechyd eu hunain. Adroddodd awdurdodau lleol eu bod wedi manteisio i'r eithaf ar ddysgu a rennir trwy fabwysiadu dulliau ei gilydd mewn ffyrdd a fyddai'n diwallu anghenion eu poblogaethau eu hunain.

Ers i'r rhaglen ddod i ben, dywedodd rhai cyfranogwyr fod staff yn parhau i gael mynediad at gynnig hyfforddiant ehangach oherwydd ymdrechion parhaus i ddarparu hyfforddiant cyson a thrawsbroffesiynol.

*"… mae gwaith a gweithwyr proffesiynol yn cael mynediad at fwy o hyfforddiant... ac mae hynny'n dal i ddigwydd a dyna un o'n prif ysgogwyr i wneud yn siŵr bod hynny'n rhan o'n*

*cynnig hyfforddiant ar gyfer pob ymarferydd sy'n gweithio yn y sector blynyddoedd cynnar... mae'n sicrhau ein bod i gyd ar draws y rhanbarth yn elwa ar gysondeb y model hyfforddi hwnnw..."*

Rhoddodd y rhaglen integreiddio gyfle i nodi anghenion hyfforddi ac ystyried sut i ddiwallu'r rhain trwy ddulliau arloesol ac amrywiol. Credwyd bod y newid hwn wedi caniatáu i fwy o staff fuddsoddi amser mewn hyfforddiant ac uwchsgilio, a disgwylir i hynny barhau.

O ran integreiddio parhaus ledled y rhanbarth, roedd un ardal wedi cynnig cymorth ar draws ardal gyfan y bwrdd iechyd, yn hytrach na'i rannu rhwng yr awdurdodau lleol. Roedd hyn yn golygu bod cymorth ar gael i deuluoedd ar draws y rhanbarth cyfan, waeth ble roedden nhw'n byw.

Roedd lleferydd, iaith a chyfathrebu, ymyrraeth gynnar trwy gynnig cymorth cyson o'r cyfnod cynenedigol hyd blwydd oed, anghenion ychwanegol a niwroamrywiaeth ymhlith y meysydd enghreifftiol lle roedd gwaith integreiddio yn parhau. Roedd rhai cyfranogwyr grwpiau ffocws yn teimlo bod y rhaglen integreiddio wedi helpu i ganolbwyntio adnoddau ar ffyrdd o weithio sy'n parhau i fod o fudd i deuluoedd.

*"Mae'r [rhaglen integreiddio] yn bendant wedi dylanwadu ar syniadau am yr hyn sydd ei angen o ran cyflwyno cymorth rhianta ... gwaith cymunedol... a gwaith clwstwr..."*

Roedd yna hefyd achosion o uno llwythi achosion i gefnogi integreiddio.

Rhoddwyd enghreifftiau o gyflwyno prosiectau i ardaloedd eraill o fewn rhanbarthau. Ar adeg y grŵp ffocws, nododd un rhanbarth ei bod yn cynnal ymchwil gyda sefydliad allanol i gwmpasu dichonoldeb ehangu'r ddarpariaeth. Cyfeiriwyd at gyd-gynhyrchu fel offeryn i allu ehangu gwaith prosiect i'r lefel ranbarthol.

Disgrifiodd llawer o gyfranogwyr grwpiau ffocws sut roedd y rhaglen yn darparu amser a gofod i feithrin perthnasoedd proffesiynol a buddsoddi ynddynt. Roedd yr ymddiriedaeth a gafodd ei meithrin dros gyfnod y rhaglen integreiddio yn golygu bod modd cynnal perthnasoedd rhwng asiantaethau pan ddaeth y cyllid i ben. Roedd y cyfnod hwn o feithrin perthnasoedd yn golygu bod gweithio mewn partneriaeth yn cael ei ddatblygu yn ystod y rhaglen ac ar ôl iddi ddod i ben.

*"… mae'r amser rydyn ni wedi'i dreulio gyda phartneriaid allweddol, yn datblygu strategaethau, yn edrych ar wahanol flaenoriaethau, yn gweithio trwy wahanol ddarnau o waith yn bendant wedi cryfhau perthnasoedd, a nawr rwy'n teimlo bod llawer mwy o ymwybyddiaeth o rolau a chyfrifoldebau pawb a sut y gallwn weithio'n well mewn partneriaeth yn hytrach nag yn unigol."*

I rai, roedd y gwasanaethau a ddarparwyd wedi gwella yn sgil y rhaglen integreiddio. Roedd integreiddio llwyddiannus yn cynyddu ymwybyddiaeth o wasanaethau o fewn cymunedau lleol, a oedd o fudd i sefydliadau yn ogystal â phlant a theuluoedd.

*"... nawr... mae gennym fwy o bobl yn y gymuned, mae ein gwasanaethau craidd yn fwy gweledol ac i ni fel bwrdd iechyd, rwy'n credu o bosibl mai dyna fu'r gwerth mwyaf. Dyna lle*

*rydyn ni wedi gweld yr integreiddio... mae mwy o gyfleoedd ar gyfer integreiddio rhwng gwasanaethau... mae hynny'n amlwg o fudd i'n partneriaid hefyd."*

### 4.2.3. Ffactorau sy'n cefnogi integreiddio parhaus

Roedd cyfeiriadau aml at ffactorau a helpodd i barhau â'r gwaith integreiddio ar ôl i'r rhaglen ddod i ben. Teimlwyd bod gweithio a chydweithio parhaus gan bartneriaethau yn un o'r prif ffactorau o ran cefnogi integreiddio systemau cyfan i'r holl ranbarthau a gymerodd ran yn yr ymchwil hon. Roedd partneriaethau a sefydlwyd o dan y rhaglen integreiddio yn caniatáu i sgyrsiau am y dyfodol ddigwydd a dylanwadu ar newid gyda chefnogaeth uwch arweinyddiaeth.

*"… roedd cael cefnogaeth uwch arweinyddiaeth, yn ... rhoi caniatâd i bobl weithio gyda'i gilydd tra o'r blaen... byddai'n digwydd ar hap a damwain wrth i rai bobl adnabod ei gilydd..."*

Roedd cydweithio ar draws proffesiynau a rhanbarthau yn golygu bod rhanddeiliaid yn gallu nodi materion cyffredin. Teimlwyd bod hyn yn cryfhau eu llais dros ddod â newid cadarnhaol.

*"Rwy'n credu ei fod yn gwneud i bobl eistedd i fyny a... rydych chi'n dweud y cyfan yn bwerus gyda'ch gilydd. Mae'n gwneud gwahaniaeth felly."*

Cafodd prosesau eu hatal dros dro mewn rhai ardaloedd pan ddaeth y rhaglen integreiddio i ben, ond ers hynny mae'r rhain wedi dechrau ennill momentwm trwy strwythurau llywodraethu fel y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Ceisiodd rhai sicrhau cyllid o ffynonellau eraill ar ôl i'r rhaglen integreiddio ddod i ben i allu parhau i integreiddio. Roedd y ffynonellau cyllid yn cynnwys y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, Dechrau'n Deg, a Teuluoedd yn Gyntaf. Roedd yna hefyd enghreifftiau o uno gwasanaethau er mwyn gallu gwneud y mwyaf o adnoddau a chapasiti a pharhau i integreiddio a darparu gwasanaethau.

Ffactor arall sy'n gyffredin ar draws y rhanbarthau oedd gwelliannau mewn prosesau rhannu gwybodaeth ar draws rhanbarthau a phroffesiynau. Roedd hyn nid yn unig yn helpu gyda darparu gwasanaethau ond yn caniatáu i randdeiliaid nodi effaith a meysydd i'w gwella. Roedd hyn yn cael canlyniadau cadarnhaol i deuluoedd a gweithwyr proffesiynol fel ei gilydd.

*"… nawr rydyn ni'n cysylltu systemau gyda'i gilydd fel y gallwn weld y teuluoedd sydd wedi dod i'n system ymyrraeth gynnar."*

Rhoddodd y rhaglen integreiddio le i randdeiliaid feddwl a gweithredu'n arloesol. Roedd hyn yn galluogi ymdrechion tuag at integreiddio systemau cyfan i barhau ar ôl y rhaglen. Yn yr un modd, roedd gwell dealltwriaeth o rolau rhwng proffesiynau, arweinyddiaeth gefnogol a brwdfrydig ac ymrwymiad i gynnal trefniadau gweithio cadarnhaol i gyd yn cefnogi integreiddio parhaus.

*"… mae'n debyg mai un o ganlyniadau'r broses yw bod mwy o rannu dealltwriaeth ymhlith y... siroedd dan sylw ac iechyd, o brosesau ei gilydd, arfer da ac yn y blaen..."*

Mewn un achos, adroddodd cyfranogwyr fod y gallu i gynhyrchu tystiolaeth o effaith a llwyddiant yn caniatáu gwaith integreiddio parhaus trwy ennill cefnogaeth uwch arweinyddiaeth. Roedd gwelliannau mewn data yn helpu i leihau dyblygu a chynyddu capasiti, a thrwy hynny, yn helpu i gefnogi a chynnal gwasanaethau.

Disgrifiodd rhai cyfranogwyr eu bod wedi cynllunio o'r cychwyn cyntaf i greu gwaddol ar gyfer eu gwaith integreiddio, gan wybod bod y rhaglen integreiddio yn gyfyngedig o ran amser. Roedd hyn yn golygu eu bod yn gallu parhau i integreiddio gwasanaethau pan ddaeth y cyfnod cyllido i ben.

*“… roedden ni'n awyddus i gynhyrchu asedau a fyddai'n sicrhau effaith hirdymor, felly pan gafodd y cyllid ei dynnu'n ôl, cawsom ein gadael gyda rhywbeth yn ei le, ac rwy'n credu bod hynny'n bwysig iawn i'r gwaith yr oeddem yn ei wneud."*

Rhoddodd y rhaglen integreiddio gyfle i ystyried yr hyn oedd yn angenrheidiol er mwyn mabwysiadu dull hirdymor o integreiddio ar draws systemau cyfan, er nad oedd hyn wedi'i gyflawni eto.

#### 4.2.4. Rhwystrau o ran integreiddio parhaus

Gofynnwyd i gyfranogwyr fyfyrio ar ffactorau a oedd yn eu hatal rhag parhau â'r gwaith integreiddio. Roedd y rhain yn cynnwys materion ynghylch adnoddau, materion ynghylch data, rhwystrau o ran cydweithio, anallu i ehangu, a chefnogaeth annigonol gan Lywodraeth Cymru. Oherwydd y ffactorau hyn, nid oedd rhai prosiectau yn gallu parhau, ac roedd hynny’n effeithio ar y gallu i integreiddio gwasanaethau yn gyffredinol. Roedd y mathau o brosiectau yr effeithiwyd arnynt, a'r rhesymau pam, yn wahanol ar draws y rhanbarthau a'r awdurdodau lleol ynddynt.

##### 4.2.4.1. Adnoddau

Ers dod â'r rhaglen i ben, bu heriau wrth geisio cynnal ymdrechion integreiddio oherwydd yr amser a'r adnoddau staffio sydd eu hangen.

*"Roedd yn rhaid glastwreiddio’r system o'i gymharu â'r hyn yr oeddem yn ei ddarparu trwy'r rhaglen fraenaru."*

Y prif rwystr o ran integreiddio parhaus oedd diffyg cyllid. Nid oedd llawer yn gallu fforddio mesurau integreiddio llawn gan ddisgrifio sut oedd yn rhaid symud arian o wasanaethau eraill i gadw gwaith integreiddio i fynd. Roedd eraill yn cael trafferth dod o hyd i gyllid amgen o gwbl. Roedd y profiad o golli cyllid y rhaglen integreiddio yn anodd i weithwyr proffesiynol, yn enwedig gan fod rhai rolau wedi'u colli (fel cydgysylltwyr) a oedd yn ganolog i waith integreiddio. Roedd trafodaethau ynghylch fforddiadwyedd ar gyfer rhai rolau yn dal i ddigwydd ar yr adeg y cynhaliwyd y grwpiau ffocws, gydag un sefydliad yn ystyried diswyddiadau pellach.

*"Does neb yn dweud nad yw'n wasanaeth gwerthfawr, ond os nad oes gan neb unrhyw arian i'w ariannu... yna beth ydyn ni'n ei ryddhau?"*

Roedd natur byrdymor y rhaglen yn golygu bod rhai yn teimlo nad oeddent wedi gallu cyflawni integreiddio hirdymor yn ystod oes y rhaglen integreiddio, heb sôn am y cyfnod wedi iddi ddod i ben. Achoswyd hyn gan wahanol ffactorau megis colli momentwm, dilyniant cyfyngedig a lleihad o ran trefniadau gweithio mewn partneriaeth.

*"Yn anffodus, daeth y cyllid i ben cyn i ni allu gwneud y defnydd gorau ohono oherwydd roedd llawer o'r hyn yr oeddem wedi'i roi ar waith yn dal i fod yn y camau cynnar, a heb gael y cyllid parhaus iddo allu symud ymlaen ac i gynnal y momentwm, mae llawer o'r cysylltiadau a'r pethau yr oeddem wedi gallu eu sefydlu wedi diflannu..."*

Roedd maint y rhanbarth neu'r awdurdod lleol yn effeithio ar yr effaith a gafodd dileu cyllid ar wahanol ardaloedd. Mewn rhai achosion, roedd awdurdodau lleol llai yn cael trafferth bodloni gofynion cost ar ôl y rhaglen oherwydd diffyg hyblygrwydd ariannol:

*"… roedd yn rhaid i ni naill ai godi'r costau ychwanegol hynny ar draul ein rhaglen neu weld llwybrau blynyddoedd cynnar sydd wedi'u datblygu'n dda iawn yn cael eu dileu. Felly, yn hytrach na gwneud hynny, rydym wedi gorfod ymgorffori'r costau hynny a oedd unwaith gyda'r peilot yn ein cyllideb fach Dechrau'n Deg. Ac mae hynny'n dangos: nid oes gennym yr hyblygrwydd cyllido hwnnw sydd gan rai o'r awdurdodau lleol mwy, ac rwy'n bendant yn meddwl bod hynny'n rhwystr i ni."*

Er bod strwythurau llywodraethu yn dal i fod yn eu lle i lawer, disgrifiwyd llywodraethu ei hun fel rhywbeth sydd wedi'i 'wanhau'. Teimlwyd bod dod ag arweinwyr at ei gilydd yn anoddach heb gyllid pwrpasol.

*"… nid yw'r arian ar y bwrdd... ac mae hynny'n aml yn cael pobl o gwmpas y bwrdd. Yn anffodus, dyna'r realiti. Ond rydyn ni'n gwybod bod yna strwythur llywodraethu wrth gefn... sy'n dal i fod ar gael i ni er mwyn cael y mathau hyn o sgyrsiau... mae hynny'n bwysig iawn."*

Profodd cyfranogwyr broblemau wrth frwydro i gynnal momentwm a chefnogaeth staff ac uwch arweinyddiaeth heb gyllid y rhaglen integreiddio. Myfyriodd llawer o gyfranogwyr hefyd ar yr effaith negyddol a gafodd dileu cyllid y rhaglen integreiddio ar y gwasanaethau a ddarperir. Roedd capasiti yn ffactor pwysig yn y gostyngiad hwn o ran darparu gwasanaethau.

*"… yn ystod oes y rhaglen... roedd bron yn haws bod yn fwy integredig oherwydd bod capasiti ychwanegol ar draws y system flynyddoedd cynnar cyfan... p'un a oedd hynny ar lefel strategol neu'n weithredol, roedd y gweithlu ychwanegol yn caniatáu ffordd o weithio nad ydym wedi gallu ei gwneud o'r blaen ac nid ydym wedi gallu ei gwneud ers hynny..."*

Mae'r gallu i gydweithio wedi cael ei lesteirio i rai trwy gael gwared ar gymorth y rhaglen integreiddio. Mae hyn yn awgrymu bod angen adnoddau pwrpasol i gynnal gweithio ar y cyd.

*"Weithiau mae'n heriol gweithio gyda'n gilydd, credwch neu beidio, oherwydd... mae'r ffordd y mae ein gwasanaethau wedi'u sefydlu ar wahân."*

Byddai mwy o amser ar gyfer y rhaglen wedi caniatáu i rai rhanddeiliaid ddatblygu perthynas â'r trydydd sector. Byddai hyn wedi cynnig cyfle i ddarganfod a fyddai partneriaid trydydd sector wedi gallu cynnal y rhaglen ar ôl i'r cyllid ddod i ben.

Lle roedd gwaith integreiddio yn parhau y tu hwnt i'r rhaglen integreiddio, roedd staff yn aml yn gweithio arno ochr yn ochr â'u swyddi arferol. Roedd yr ymrwymiad sy'n ofynnol ar gyfer integreiddio effeithiol yn fwy nag yr oedd staff yn gallu ei gynnig mewn rhai ardaloedd. Mewn rhai achosion, roedd hyn yn golygu bod teuluoedd yn fwy tebygol o gyrraedd pwynt argyfwng cyn ymyrraeth.

*“… be baem wedi gallu cadw'r cyllid ar gyfer cydlynwyr y rhaglenni, byddai hynny wedi cael effaith enfawr o ran bod gennym y gallu er mwyn i ni barhau gyda llawer o'r rhaglenni..."*

Roedd y capasiti i staff feithrin a chynnal perthnasoedd a ddatblygwyd o dan y rhaglen yn her i rai. Teimlwyd bod angen dull fwy systematig o wneud hyn, yn hytrach na dibynnu ar ewyllys da a pherthnasoedd sy'n bodoli eisoes.

Nid oes modd i rai gynnal capasiti hyfforddi heb gyllid y rhaglen integreiddio. Esboniodd un cyfranogwr mai’r bwriad oedd darparu cynnig hyfforddiant ehangach, cyson i'r holl staff, ond nad oedd modd gwireddu hyn.

*“… roedd pawb yn gytûn, ar yr un dudalen, a gallem i gyd gael yr hyfforddiant hwnnw gyda'n gilydd... cael rhannu dysgu, cael setiau data gwahanol a chymharu... ni ddigwyddodd yn y pen draw."*

#### 4.2.4.2. Data

Roedd materion ynghylch data yn parhau i fod yn rhwystr o ran integreiddio. Mynegodd rhai cyfranogwyr rwystredigaeth nad oeddent yn gallu gwireddu manteision a chyfleoedd offer data a datblygiad sgiliau cyn i'r cyllid ddod i ben. Dywedodd rhai cyfranogwyr fod yr amser a gymerodd i ddiweddaru systemau data wedi effeithio'n ddifrifol ar y gallu i symud ymlaen:

*“… er ein bod ni... o leiaf ddwy flynedd a hanner, os nad tair blynedd a hanner i mewn i’r gwaith, mae'n dal i deimlo fel ei fod ... yn eithaf cynnar oherwydd ... mae'n ymddangos bod llawer o'r trefniadau o amgylch y rhannu data, hyd yn oed yn fewnol, yn cymryd amser hirfaith."*

Nododd rhai cyfranogwyr fod materion ynghylch data yn golygu nad oeddent yn gallu asesu effaith. Roedd yr anallu i ddarparu tystiolaeth o newid yn golygu bod ymrwymiad i integreiddio wedi lleihau mewn rhai ardaloedd.

Pan ddaeth y cyllid i ben, cafodd rhannu data ei atal mewn un rhanbarth, a dim ond yn ddiweddar yr ail-ddechreuodd hynny (ar yr adeg y cynhaliwyd y grŵp ffocws).

#### 4.2.4.3. Cydweithio

Er gwaethaf gwelliannau o ran cydweithio yn ystod y rhaglen integreiddio, canfu rhai fod disgwyliadau, prosesau a blaenoriaethau gwahanol rhwng awdurdodau lleol yn rhwystr o ran integreiddio parhaus.

*"… yr hyn rydyn ni'n ceisio ei wneud nawr yn [awdurdod lleol] yw edrych ar y rhannau gorau yr oeddem yn ceisio eu gweithredu fel rhan o'r model rhaglen graidd ar draws [rhanbarth] a dim ond [awdurdod lleol] nawr, yn hytrach na'n rhanbarthol. Oherwydd nid oeddem yn gallu wneud iddo weithio. Felly, rydw i'n edrych ar hynny i ddweud: 'iawn, sut olwg sydd ar ein ... model integredig ar sail awdurdod lleol' a gweithio gydag iechyd i drefnu a chytuno ar hynny. Felly, mae eglurder, ac mae'r eglurder hwnnw wedyn yn darparu'r disgwyliadau i'r tîm cyfan ar yr hyn rydyn ni'n gweithio tuag ato, sut rydyn ni'n mynd i'w wneud a phryd rydyn ni'n mynd i'w gyflawni..."*

Mae gwahaniaethau cyfathrebu rhwng awdurdodau lleol hefyd yn rhwystr o ran deall ei gilydd yn llawn, ac felly darparu gwasanaethau cyson ar draws un rhanbarth:

*"Mae yna densiynau bob amser ynghyd â chamddealltwriaeth a rhwystrau iaith... Gallwn fod â dehongliadau gwahanol iawn yn ein gwahanol sefydliadau... bydd heriau bob amser yn bodoli."*

#### 4.2.4.4. Ehangu

Roedd rhwystrau wrth geisio ehangu gwaith prosiect heb gyllid y rhaglen integreiddio. Roedd y rhain yn ymwneud yn bennaf â chyllid a chapasiti ond hefyd yn cynnwys cyfyngiadau daearyddol o amgylch codau post, tirwedd ariannu cymhleth, gwahaniaethau rhwng prosesau a blaenoriaethau awdurdodau lleol ac anawsterau ynghylch amseru.

*"…yn aml, ni wnaiff un dull y tro."*

Oherwydd y rhwystrau hyn, nododd un awdurdod lleol ei bod yn bwysig rheoli disgwyliadau o'r hyn y gellid ei gyflawni'n rhesymol o fewn amserlen benodol.

*"… dim ond cydnabod na allwn wneud y sir gyfan ar unwaith."*

Dywedodd un rhanbarth mai ceisiadau cyllid aflwyddiannus oedd y rheswm dros fethu ag ehangu prosiectau yn y cyfnod ar ôl y rhaglen integreiddio.

#### 4.2.4.5. Cefnogaeth Llywodraeth Cymru

Roedd llawer o gyfranogwyr yn teimlo bod cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru yn brin ar ôl y rhaglen. Cyfeiriwyd at ddiffyg aliniad â rhaglenni eraill, diffyg strwythurau llywodraethu, a diffyg arweiniad o ran disgwyliadau a chyngor ymarferol ar gyfer cynnal ymdrechion integreiddio fel enghreifftiau o'r diffyg cefnogaeth hwn.

*"… rydyn ni nawr yn edrych ar strwythurau llywodraethu a sut mae angen i ni gryfhau ein sefyllfa o fewn y rhanbarth i allu cynnal cefnogaeth gan wahanol wasanaethau ar adeg lle mae pobl dan gymaint o bwysau, mae peidio â chael rhaglen Llywodraeth Cymru i alinio â hi yn ei gwneud hi'n anoddach o lawer..."*

### 4.2.5. Effaith darparu gwasanaethau integredig heb gyllid

Roedd effaith dileu’r cyllid ar blant a theuluoedd yn gymysg. Mewn rhai ardaloedd, mae cymorth llai cadarn ar gael i deuluoedd newydd sy'n dod i mewn i'r system ers i gyllid y rhaglen integreiddio ddod i ben.

*"[ar gyfer] teuluoedd newydd... nid yw'r cymorth wedi bod mor gadarn ag sydd gennym ni yn yr ardaloedd Dechrau'n Deg am resymau ariannu, felly mae yna deuluoedd sydd heb gael y cymorth, ac mae hynny’n sicr wedi cael effaith."*

Mewn ardaloedd eraill, mae teuluoedd yn dal i elwa o wasanaethau sydd wedi'u cynnal ac yn profi gwell cysondeb oherwydd bod dull rhanbarthol ehangach ar waith.

*"Mae teuluoedd yn symud rhwng y rhaglenni oherwydd bod [staff] i gyd yn gweithio gyda'i gilydd - mae timau wedi'u grymuso ac wedi ymrwymo i gyflwyno gwasanaeth o’r cyfnod cynenedigol i saith [oed] nawr."*

Eto, y consensws cyffredinol oedd bod teuluoedd yn cael eu heffeithio'n negyddol wrth i arian y rhaglen integreiddio ddod i ben, gan fod gwasanaethau wedi'u cwtogi mewn rhyw fodd neu’i gilydd ar draws y rhan fwyaf o'r ardaloedd braenaru. Roedd llai o gapasiti yn golygu nad oedd ymyrraeth gynnar mor hyfyw ag yr oedd o dan y rhaglen. O ganlyniad, roedd mwy o deuluoedd yn symud yn agosach at bwynt argyfwng cyn i gymorth gael ei gynnig.

*“… cyn gynted ag y daeth y cyllid hwnnw i ben, fe wnaeth ein hatal rhag gallu darparu llawer o gymorth i'r teuluoedd hynny. Roedd yn rhaid i ni fynd yn ôl i hen fodel Dechrau'n Deg gyda'r gwersi a ddysgwyd, yn deall bod angen i gymorth fod yn seiliedig ar anghenion, ar yr hyn sy'n bwysig i'r rhieni, cynlluniau cymorth i deuluoedd, cyfathrebu cydweithredol; er hynny, roedden ni'n cael ein cyfyngu ac rydyn ni’n dal i gael ein cyfyngu o ran pwy y gallwn weithio gyda nhw yn sgil cyfyngiadau ariannu."*

## 4.3. Y dyfodol

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr am heriau o ran integreiddio systemau blynyddoedd cynnar yn y dyfodol, beth sydd angen bod ar waith ar gyfer integreiddio yn y dyfodol a sut y gellid lliniaru heriau.

### 4.3.1. Cyllido

Roedd un set o heriau ac anghenion i'r dyfodol a nodwyd gan gyfranogwyr yn ymwneud â chyllid.

Nododd cyfranogwyr fod eu sefydliadau dan bwysau cyllidebol cynyddol. Mae hyn yn cynnwys cyllidebau neu gronfeydd ariannu yn gostwng, yn ogystal â llawer o flaenoriaethau gwahanol hefyd sy'n cystadlu am gyllid. Gall hyn arwain at ganolbwyntio ar fusnes craidd ac anghenion, yn hytrach na meysydd ehangach a fyddai'n 'braf eu cael'.

Trafododd y cyfranogwyr hefyd y dirwedd gymhleth mewn perthynas â grantiau a chyllid. Disgrifiodd cyfranogwyr fod yna nifer o grantiau y mae'n rhaid iddynt geisio eu deall. Ar ben hynny, bod gorddibyniaeth neu ddisgwyliad wrth dynnu o gronfeydd cyllido eraill, yn enwedig rhaglenni sy'n dod o dan y Grant Plant a Chymunedau (CCG). Nododd cyfranogwyr sut mae'r cronfeydd hyn eisoes dan bwysau mawr, ac nad ydynt wedi'u cynyddu, sy'n golygu y byddai ailbwrpasu'r cyllid yn arwain at doriadau mewn mannau eraill. Ar ben hynny, bod gorddibyniaeth ar weithgarwch treialu, heb ystyried sut y gellid ariannu hyn yn barhaus pan fydd cronfeydd fel y Grant Plant a Chymunedau eisoes dan bwysau mawr.

*"… Mae gen i 21 o grantiau ar waith a jyst yn ceisio gweithio fy ffordd o gwmpas y rheini ar ddiwedd y flwyddyn a dwyn oddi ar y naill law i dalu i'r llall fel nad yw'r teulu hwnnw'n mynd hebddo... mae gwneud hynny'n swydd ynddi'i hun..."*

*"… maen nhw'n gweld y gronfa enfawr hon ar gyfer y Grant Plant a Chymunedau, ond mae'r arian wedi'i daenu'n rhy denau ar draws poblogaeth mor enfawr... yn rhoi pob math o gymorth... ac wrth i'r trothwyon gynyddu, mae gofyn i'r cymorth gynyddu ac ymestyn. Ac rwy'n credu bod perygl ein bod ni'n treialu gormod ac rydyn ni i gyd yn cael ein hymestyn i'r pwynt lle nad yw'n mynd i weithio..."*

Dywedodd rhai cyfranogwyr fod angen darparu cyllid yn gyffredinol yn y dyfodol, gan gynnwys i ddarparu'r capasiti i allu gwthio'r gwaith integreiddio yn ei flaen ochr yn ochr â blaenoriaethau eraill a llwythi gwaith staff.

*"… [dywedwyd] wrthyn [ni] 'ar hyn o bryd rydyn ni eisiau i chi ailgynllunio'r blynyddoedd cynnar cyfan, ond dylai fod ar gost niwtral'... [nid yw'n] gost niwtral... [mae'n] ffordd hynafol o weithio pan fyddwch chi'n gofyn i ni integreiddio, ond... fel Llywodraeth Cymru, dydych chi yn rhoi'r offer cywir i ni allu gwneud hynny..."*

Soniodd rhai cyfranogwyr am anghenion o ran sut olwg fyddai ar y cyllid pe bai ar gael eto yn y dyfodol.

Roedd hyn yn cynnwys ei bod yn rhaglen tymor hwy (soniwyd am 5 mlynedd a 10 mlynedd) yn hytrach na chyllid tymor byr, er mwyn galluogi braenarwyr i gyflawni newid a gwireddu bwriadau'r rhaglen. Mewn un achos, trafododd cyfranogwyr y dylai Llywodraeth Cymru weithio'n fwy cydweithredol â braenarwyr i ddeall pa amserlen ac adnoddau y byddai eu hangen arnynt yn realistig i weithredu nodau'r rhaglen.

Angen arall ynglŷn â sut olwg fyddai ar y cyllid oedd meddwl am sut mae canlyniadau'n cael eu gosod a'u monitro. Roedd hyn yn cynnwys yr angen o fewn sefydliadau braenaru i osod canlyniadau clir, tra bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r hyblygrwydd i sefydliadau braenaru addasu gwaith neu gynlluniau i gyflawni'r canlyniadau hyn.

Hefyd o ran canlyniadau, mewn un achos nodwyd y byddai mwy o ddefnydd o ddata ansoddol ac astudiaethau achos i ddangos newid i systemau yn y sefydliad braenaru yn fuddiol yn y dyfodol. Mae hyn yn wahanol i'r ysgogiad arferol gan wasanaethau sy'n dibynnu ar fesurau canlyniadau neu dargedau, nad ydynt efallai yn adlewyrchu neu ddal profiad byw ac effaith ar deuluoedd.

Ym mron pob grŵp ffocws, mynegodd cyfranogwyr eu bod yn awyddus i weld Llywodraeth Cymru yn egluro a symleiddio'r dirwedd cyllid grant. Byddai hyn yn cynnwys meddwl yn fwy cyfannol am y gofynion sy'n cael eu gosod ar randdeiliaid wrth gyflwyno gwahanol raglenni ar wahanol adegau. Mae rhanddeiliaid yn wynebu cymhlethdod pan fo rhaglenni niferus gyda meini prawf a thelerau gwahanol.

*"… mae angen i Lywodraeth Cymru feddwl am yr amserlenni ar gyfer gwahanol bethau... fel ehangu Dechrau'n Deg a [Rhaglen] Trawsnewid [ac] Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar... nid yw'r pethau hyn cydgysylltu fel eu bod yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd, neu y gallwch ystyried effaith un ar y llall a chynllunio ar gyfer hynny. Rwy'n credu ei fod yn fater o edrych ar y pethau hyn fel system gyfan yn hytrach na chyflwyno un peth..."*

Roedd y cyfranogwyr hefyd eisiau i Lywodraeth Cymru ystyried y llwythi gwaith presennol a'r ymrwymiadau gan randdeiliaid wrth gyflwyno rhaglenni newydd. Heb gyllid ychwanegol ar gyfer rhaglenni newydd, roedd cyfranogwyr yn teimlo na allant barhau i gymryd o gronfa arall i lenwi bylchau.

*"… ni ddylai blynyddoedd cynnar ddod yn flaenoriaeth ar draul maes arall, oherwydd mae yna reswm pam rydyn ni'n ariannu'r meysydd hynny... [mae arnom angen] i Lywodraeth Cymru ddeall yr hyn y gallwn ei wneud ac na allwn ei wneud gyda'n helfennau ariannu. Ac nid dim ond gwneud penderfyniadau sydyn ar un gronfa trwy edrych ar yr un gronfa honno yn unig... heb gael y disgwyliadau hynny 'o os ydyn ni'n cymryd hynny i ffwrdd oddi wrthynt, mae'n iawn oherwydd mae ganddyn nhw hynny. Felly bydd hynny'n talu amdano'. Dydy hynny ddim wir. Ni fydd yn talu [amdano]."*

Felly, yn gyffredinol, roedd cyfranogwyr yn nodi fod angen 'cydgysylltu' cyllid blynyddoedd cynnar.

*“… mae angen i [Llywodraeth Cymru] roi'r gorau i ddod â chronfeydd newydd o arian allan ar gyfer gwahanol bethau gyda meini prawf gwahanol a thelerau gorchwyl ac amodau gwahanol... 25 mlynedd yn ôl, dywedais 'da chi, wnewch chi ei gyfuno mewn un gronfa ar gyfer y blynyddoedd cynnar y gallwn ei defnyddio a chyfeirio gwasanaethau lle rydyn ni'n gwybod bod yno angen yn hytrach nag eithrio pobl trwy roi eithriadau ar y gwahanol fathau hyn o grantiau'... mae gennym [y] Cynnig Gofal Plant, gofal plant Dechrau'n Deg, Gofal Plant a Chwarae Blynyddoedd Cynnar, craidd Dechrau'n Deg, allgymorth Dechrau'n Deg, ehangu Dechrau'n Deg..."*

Trafododd rhai cyfranogwyr ble y gellid lleoli unrhyw gyllid integreiddio’r blynyddoedd cynnar yn y dyfodol. Roedd hyn yn cynnwys mewn perthynas â llywodraethu, megis angen eglurder ynghylch a yw'r blynyddoedd cynnar yn ffitio ar lefel Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Roedd hyn hefyd yn cynnwys ystyried a ellid darparu cyllid integreiddio’r blynyddoedd cynnar trwy'r Grant Plant a Chymunedau. Er enghraifft, diwygio canllawiau rhaglen Grant Plant a Chymunedau ac ychwanegu cyllid i alluogi sefydliadau i ganolbwyntio ar integreiddio. Nodwyd bod rhaglenni o dan y Grant Plant a Chymunedau eisoes yn cael eu hehangu neu eu diweddaru, ac y gallai hynny fod yn gyfle i newid.

*“… byddem yn gallu mynd mor bell gydag [integreiddio], ond byddai wir angen ... buddsoddi arnom a... sut mae Llywodraeth Cymru yn mynd ati i sicrhau bod hynny ar gael... rwy'n credu y byddai gwneud hynny trwy'r Grant Plant a Chymunedau yn ddefnyddiol iawn i awdurdodau lleol... mae angen rhywfaint o weithio a meddwl cydweithredol o gwmpas yr agenda hon... mae 8 rhaglen o fewn y Grant Plant a Chymunedau... ble fyddai'n ffitio orau, ac yna byddai angen i ganllawiau'r rhaglen hynny ystwytho... rwy'n gwybod bod Llywodraeth Cymru yn ailedrych ar ganllawiau Teuluoedd yn Gyntaf ar hyn o bryd.. dyna lle fyddai’n addas yn nhermau cynaliadwyedd..."*

### 4.3.2. Ymrwymiad a blaenoriaethu

Roedd set arall o heriau ac anghenion i’r dyfodol a nodwyd gan gyfranogwyr yn ymwneud ag ymrwymiad a blaenoriaethu.

Ymadrodd cyffredin a ddefnyddiwyd gan gyfranogwyr oedd 'ymladd brwydrau', gan dynnu sylw at y ffaith bod nifer o flaenoriaethau o fewn eu sefydliadau. Felly, mae dod â phartneriaid at ei gilydd i ymrwymo i'r dull blynyddoedd cynnar hwn a blaenoriaethu ar ei gyfer yn her barhaus. Yn benodol, ystyriwyd bod atal cyllid yn gwneud hyn yn anoddach, gan fod hyn yn arwydd i bartneriaid nad yw’r gwaith bellach yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Mae enghreifftiau'n cynnwys y byrddau iechyd a'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n tynnu blynyddoedd cynnar o'u blaenoriaethau. Mae methiant Llywodraeth Cymru i gynnig unrhyw gyfeiriad strategol, datganiad polisi, neu raglen ynglŷn ag integreiddio'r blynyddoedd cynnar yn golygu ei bod yn anodd i staff sicrhau cefnogaeth o fewn eu sefydliadau ar gyfer bwrw ymlaen â'r agenda hon.

*“… Trwy gyhoeddi datganiad ... bod y maes hwnnw ar gau'n llwyr, roedd yn cyfleu’r neges ein bod ni wedi treialu hyn ac nad yw’n gweithio mewn gwirionedd ... Dyna'r ... neges rydyn ni'n gorfod ymladd yn ei herbyn nawr, ie, maen nhw [Llywodraeth Cymru] wedi ei gau, ond maen nhw'n dal eisiau i ni weithio arno... a dyna lle rydych chi'n cystadlu â blaenoriaethau eraill oherwydd does gennych chi ddim byd i hongian y gwaith arno."*

*“… mae pawb eisiau gwneud popeth... ond... yn anffodus, mae yna flaenoriaethau eraill hefyd, ac mae'n fater o 'pa un o'r rheini sy'n dod gyntaf'... Ac os nad ydych chi'n sicr o’r gefnogaeth honno o’r... brig... mae pethau'n cael eu gwthio i’r naill ochr..."*

#### 4.3.2.1. Cenedlaethol

Felly, ar draws bron pob grŵp ffocws, nodwyd bod angen ymrwymiad a chyfeiriad clir i’r dyfodol gan Lywodraeth Cymru ynglŷn ag agenda integreiddio’r blynyddoedd cynnar. Trafododd y cyfranogwyr fod angen i hyn ddod o'r ‘brig i lawr'.

*“… Llywodraeth Cymru yn darparu'r weledigaeth nad ydyn nhw wedyn eisiau i ni ganolbwyntio arni - wrth gwrs maen nhw eisiau i ni leihau'r amseroedd aros... - ond mae bron fel caniatâd i ddefnyddio ein hadnoddau mewn ffordd wahanol... os ydym yn mynd i ganolbwyntio ar ymyrraeth gynnar ac atal. Mae angen rhoi iddo yr un math o rym â'r holl fusnesau craidd eraill... byddai gwell arweinyddiaeth gan Lywodraeth Cymru... yn wych..."*

*"Rwy'n credu mai’r hyn ydyn ni’n ei golli yw cyfeiriad... cenedlaethol... dydw i ddim yn hollol siŵr beth sydd wedi digwydd yn Llywodraeth Cymru trwy gydol y rhaglen, i baratoi ar gyfer y math yma o daith... rydyn ni'n ei cholli... yr hyn sy’n dilyn ymlaen... A thybed a ydyn nhw wedi bod yn integreiddio o fewn Llywodraeth Cymru yr un fath ag yr ydyn ni wedi bod yn ceisio ei wneud yn lleol ac yn rhanbarthol..."*

Mewn rhai achosion, adroddodd cyfranogwyr fod angen ystyried sut mae gwaith integreiddio’r blynyddoedd cynnar yn cyd-fynd â fframweithiau neu grwpiau cenedlaethol eraill. Yn benodol, Fframwaith Gweithredu ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar Iechyd Cyhoeddus Cymru (2025), neu'r digwyddiadau neu weithgorau cenedlaethol ar gyfer y Grant Plant a Chymunedau, lle mae partneriaid ar draws byrddau iechyd ac awdurdodau lleol yn dod at ei gilydd. Ar gyfer unrhyw ymgyrch genedlaethol 'o’r brig i lawr', mae angen dysgu o waith lleol hefyd, a derbyn y bydd amrywiadau rhanbarthol.

#### 4.3.2.2. Rhanbarthol a lleol

Trafododd y cyfranogwyr hefyd yr angen am ddatblygu gweledigaeth, strategaeth a blaenoriaethau ar lefel leol a rhanbarthol. Trafododd y cyfranogwyr sut y byddai cyfeiriad cenedlaethol yn helpu hyn ac yn cefnogi ymgysylltiad rhanbarthol neu leol gan bartneriaid craidd fel y bwrdd iechyd, cydweithwyr addysg, a'r trydydd sector.

Roedd rhai yn glir mai'r mecanwaith i fynd ag integreiddio yn ei flaen yn y dyfodol yw trwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Roedd eraill eisiau arweiniad ynghylch sut olwg ddylai fod ar lywodraethu 'da' ar gyfer rhaglen draws-sector. Roedd rhai yn cwestiynu effeithiolrwydd y defnydd blaenorol o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus fel mecanwaith cyllido ac yn teimlo y dylid adolygu hyn ar gyfer unrhyw raglen yn y dyfodol.

*"… Yr unig ffordd y gallwn barhau gyda'r integreiddio hwn yw trwy gael gweledigaeth strategol ranbarthol... mae angen ffactor cyffredinol arnom er mwyn symud hyn yn ei flaen oherwydd nid oes yr un ohonom yn gwneud hynny i gyd... mae'n rhaid bod elfen o ymrwymiad strategol a rhaid bod lefel Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol er mwyn rhoi caniatâd i bobl ar lawr gwlad barhau i wneud y newidiadau hynny i system y blynyddoedd cynnar…"*

### 4.3.3. Momentwm a chapasiti

Trafododd cyfranogwyr y gallai colli momentwm a chapasiti fod yn her yn y dyfodol. Roedd colli staff a fu'n gweithio ar y rhaglen oherwydd contractau tymor byr yn golygu colli'r perthnasoedd a adeiladwyd. Dywedodd cyfranogwyr eu bod ar hyn o bryd yn dibynnu ar 'ewyllys da' staff neu angerdd ac awydd unigolion a oedd yn rhan o'r rhaglen. Mae yna berygl bod y momentwm yn dirywio ymhellach pe bai'r staff hyn yn gadael. Mae hefyd yn dibynnu ar bobl yn gwneud gwaith yn ychwanegol at eu 'gwaith bob dydd'.

*"… er mwyn parhau, rydyn ni'n dibynnu... ar ewyllys da. A phobl sydd wedi bod yn rhan o'r daith hyd yma, tra maen nhw yn eu swyddi, gobeithio y bydd yr angerdd yn dal i fod yno, ond pan fyddant yn symud ymlaen a phobl newydd yn dod i mewn, heb y strategaeth gyffredinol honno a'r ymrwymiad a'r caniatâd, mae'n llai tebygol o barhau ac rydyn ni'n fwy tebygol o weld pethau yn symud yn ôl."*

Mae'r anghenion yn y dyfodol ynglŷn â'r her hon yn cynnwys y rhai a drafodwyd yn flaenorol: 'cyllid' ac 'ymrwymiad a blaenoriaethu'.

Angen ychwanegol yn y dyfodol oedd dod â staff ymroddedig i wneud y gwaith hwn, gan ddarparu capasiti o fewn y system. Angen arall yn y dyfodol oedd strategaethau ymadael. Mewn perthynas ag unrhyw raglen yn y dyfodol, adroddwyd y gallai cael dull sy'n gollwng yn raddol yn hytrach na dod i ben yn sydyn helpu i sicrhau ymrwymiad parhaus gan bartneriaid ac y byddai hynny'n cynnal momentwm.

*"… mae'r momentwm wedi mynd... bydd angen buddsoddiad sylweddol eto i godi hyn yn ôl... nid yw llawer o'r gwaith da iawn sydd wedi digwydd a llawer o'r cysylltiadau cryf a gawsom ar draws sefydliadau eraill o reidrwydd yn mynd i fod yno oherwydd ni fydd y bobl yno mwyach..."*

#### 4.3.4. Diffiniadau a disgwyliadau o ran cyflawni

Roedd set arall o heriau ac anghenion i’r dyfodol a nodwyd gan gyfranogwyr yn ymwneud â diffiniadau a disgwyliadau o ran cyflawni.

Trafododd cyfranogwyr heriau gyda'r term 'integreiddio' a beth mae hynny'n ei olygu mewn gwirionedd, gan gynnwys bod dehongliadau o'r iaith a ddefnyddir yn wahanol ar draws proffesiynau neu wasanaethau. Mewn ymateb i'r her hon, angen y soniwyd amdani oedd i Lywodraeth Cymru ddarparu mwy o eglurder a chyfeiriad ar yr hyn a olygir gan 'system integredig' a sut olwg y gallai fod ar hyn. Ar ben hynny, nodwyd y dylai hyn fod yn realistig yn seiliedig ar yr amser a'r cyllid sydd ar gael. Angen i sefydliadau braenaru yn y dyfodol fyddai sicrhau bod y ddealltwriaeth hon yn hidlo trwy'r sefydliadau o reolwyr i staff gweithredol.

*“… bod yr iaith a rennir pan rydyn ni'n siarad am integreiddio, ein bod ni i gyd yn golygu'r un peth, ac nid yw'n ymwneud â ffiniau sefydliadol na blaenoriaethau sefydliadol. Mae'n ymwneud â sut rydyn ni'n gweithio gyda'n gilydd a rhannu blaenoriaethau... byddwn yn elwa o safbwynt Llywodraeth Cymru... dyna'r eglurder a fyddai'n ein helpu i gael gwell integreiddio..."*

*“… Rwy'n credu os yw Llywodraeth Cymru eisiau gweld system fwy integredig, mae angen rhywfaint o gyfarwyddyd ganddyn nhw ar sut mae angen i hynny edrych, a dydw i ddim yn meddwl y byddan nhw byth yn hollol ragnodol, sy'n beth da, ond rwy'n credu bod angen mwy o eglurder os ydyn nhw'n gweld... ffrydiau cyllido a rhaglenni eithaf sylweddol yn dod at ei gilydd..."*

Her arall a adroddwyd mewn un achos oedd bod gan y blynyddoedd cynnar ystodau oedran gwahanol ar draws gwahanol grantiau a rhaglenni, sy'n gallu creu anawsterau ar gyfer cyflawni integredig. Felly, roedd darparu diffiniad clir o’r oedrannau sy'n ffurfio’r blynyddoedd cynnar yn angen ar gyfer y dyfodol.

#### 4.3.5. Systemau TG neu ddata

Disgrifiodd y cyfranogwyr her yn y dyfodol ynglŷn â diffyg systemau cydgysylltiedig sy'n cyfyngu ar rannu gwybodaeth rhwng sefydliadau neu wasanaethau, gan lesteirio gweithio partneriaeth ac integreiddio. Adroddodd cyfranogwyr fod datblygu system integredig, sengl sy'n galluogi'r rhannu hwn yn angen ar gyfer y dyfodol. Roedd y cyfranogwyr yn teimlo bod angen dull cenedlaethol dan arweiniad Lywodraeth Cymru er mwyn i hyn ddigwydd.

### 4.3.6. Anghydraddoldeb o ran darpariaeth

Her ar gyfer integreiddio yn y dyfodol a drafodwyd gan gyfranogwyr oedd bod y system bresennol ar gyfer darparu gwasanaethau yn digwydd ar sail daearyddol neu god post yn hytrach nag ar sail anghenion, a bod hynny wedi'i yrru gan feini prawf Dechrau'n Deg. Codwyd hyn fel her oherwydd ei fod yn creu anghydraddoldeb darpariaeth; "*system ddwy haen*" fel y disgrifiodd un cyfranogwr y system, lle mae rhai gwasanaethau yn cael eu cynnig yn unig yn seiliedig ar ble mae pobl yn byw. Ystyrir bod hyn yn rhwystr rhag atgyfeirio teuluoedd yn ddi-dor ar draws y system blynyddoedd cynnar. Ar ben hynny, adroddwyd bod hyn yn creu cymhlethdodau i staff yng nghefn y system gyda nifer o ffynonellau cyllido a gofynion adrodd amrywiol. Her ychwanegol oedd bod awdurdodau lleol yn ymdrin ag allgymorth Dechrau'n Deg yn wahanol.

Un angen a nodwyd i'r dyfodol oedd i Lywodraeth Cymru symud i ddull sy'n cael ei arwain gan anghenion, gydag agenda genedlaethol. Trafododd y cyfranogwyr hefyd y dylai nodi angen fod yn gyson ledled Cymru mewn unrhyw ddull gweithredu. Roedd yr awgrymiadau yn cynnwys dysgu o'r gwahanol fodelau allgymorth ar draws awdurdodau lleol a defnyddio Lefelau Gofal Cymru fel offeryn safonol ar gyfer nodi angen.

*"... I newid, mae angen i ni weithredu ar sail anghenion, yn hytrach na dull ar sail daearyddol. Felly, heb y newid hwnnw gan Lywodraeth Cymru, mae'n eithaf anodd i ni ei wneud. Ac yn amlwg gallwn wneud rhywfaint o bethau yn lleol a meithrin y perthnasoedd hynny, ond heb i'r prif ariannwr newid gyda ni, mae'n eithaf anodd..."*

*"… Lefelau Gofal Cymru... Dwi'n meddwl bod Llywodraeth Cymru yn gibddall wrth beidio â defnyddio'r ... wybodaeth honno... oherwydd gallwn ni... symud ymlaen yn rymus, ac ariannu'r cyfan yn gywir, a byddem yn datrys llawer o'n problemau blynyddoedd cynnar trwy wneud hynny... gallech wedyn sicrhau bod plant a theuluoedd yn derbyn hynny, sef y cynnig integredig cyson hwnnw..."*

### 4.3.7. Barn ac anghenion teuluoedd

Angen yn y dyfodol ar lefel leol a rhanbarthol oedd parhau â'r gwaith a ddechreuwyd yn ystod y rhaglen integreiddio ynghylch ymgorffori barn teuluoedd wrth ddylunio a darparu gwasanaethau. Er mwyn parhau i weithio mewn modd cydgynhyrchiol gyda theuluoedd, roedd cyfranogwyr o'r farn bod angen casglu eu barn ac ymwreiddio hynny yn rolau pobl a phrosesau gweithredol. Mae angen cefnogaeth ar lefel uwch hefyd. Mewn un achos, soniodd awdurdod lleol am ddysgu a rennir, gan gofnodi'r anghenion hyn mewn llyfrgell ddata lle gall eu staff gael mynediad iddynt i lywio gwasanaethau.

# 5. Casgliadau

Mae'r adran hon yn dwyn canfyddiadau'r adolygiad o ddogfennau a'r grwpiau ffocws ynghyd. Mae'n mynd i'r afael â'r nodau ymchwil, sef:

- myfyrio ar enghreifftiau o arfer da a gwersi a ddysgwyd gan fraenarwyr sy'n cymryd rhan yn y rhaglen integreiddio
- archwilio galluogwyr a rhwystrau o ran integreiddio systemau llwyddiannus
- datblygu dealltwriaeth o’r graddau y cyflawnwyd integreiddio systemau

## 5.1. Myfyrio ar enghreifftiau o arfer da a gwersi a ddysgwyd gan fraenarwyr

### 5.1.1. Gwella mynediad ac argaeledd gwasanaethau blynyddoedd cynnar

Adroddwyd yn gyffredinol bod mynediad i blant a theuluoedd at wasanaethau blynyddoedd cynnar ar lefel leol wedi gwella o dan y rhaglen integreiddio. Roedd hyn yn bennaf oherwydd bod grwpiau cymunedol ar gael i’w mynychu am ddim ac yn darparu lle diogel.

Roedd rhai rhwystrau o ran mynediad yn cynnwys:

- mynediad at wybodaeth am y gwasanaethau a'r adnoddau sydd ar gael a diffyg cyhoeddusrwydd
- mynediad corfforol, megis lleoliadau anaddas, a seilwaith teithio neu gostau
- darpariaeth gofal plant anghyson i alluogi rhieni a gofalwyr i fynychu
- gwasanaethau yn cael eu cynnal yn ystod oriau gwaith

Roedd mesurau lliniaru yn cynnwys gwella hygyrchedd trwy gyflwyno sesiynau achlysurol, hybiau, gwasanaethau symudol, gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio mewn cymunedau, ac ymestyn oriau gwasanaethau. Nododd adroddiadau fod rhai grwpiau yn llai ymgysylltiedig â gwasanaethau, gan gynnwys teuluoedd ag anghenion ynghylch niwroamrywiaeth ac iechyd meddwl, a thadau.

Yn fwy rhanbarthol, helpodd y rhaglen integreiddio i leihau anghydraddoldeb mynediad a achosir gan Dechrau'n Deg trwy fabwysiadu dull a arweinir gan anghenion a chyflwyno gwasanaethau i fwy o ardaloedd, neu ar draws y rhanbarth cyfan. Mae'r newid hwn i ffwrdd o 'loteri cod post' wedi gwella hygyrchedd gwasanaethau yn gyffredinol. Adroddodd braenarwyr hefyd eu bod wedi nodi bylchau neu enghreifftiau o ddyblygu o fewn eu gwasanaethau a’u bod wedi rhoi gwasanaethau ar waith mewn ymateb i'r wybodaeth hon.

Fodd bynnag, mewn rhai achosion, gwelodd rhai awdurdodau lleol o fewn rhanbarth lai o fynediad at wasanaethau lle nad oedd y model cyflenwi newydd yn gweithio ar gyfer y ffordd y cawsant eu sefydlu, megis gostyngiad mewn cysylltiadau Dechrau'n Deg a ddarparwyd yn sgil uno llwythi achosion. Ar ben hynny, pan ddaeth y cyllid i ben, effeithiodd hyn ar wasanaethau gan fod cymorth llai cadarn ar gael, a lleihawyd rhai elfennau o wasanaethau.

### 5.1.2. Gwelliannau o ran darparu gwasanaethau: cydgysylltiad ac amseroldeb

Roedd adroddiadau yn amlinellu gwahanol feysydd lle cydweithiodd staff ar draws gwasanaethau a thimau: cynllunio a llywodraethu darparu gwasanaethau, data a hyfforddiant y gweithlu.

Roedd y cydgysylltwyr prosiect yn gallu helpu i wella trefniadau ynghylch cydgysylltu gwasanaethau yn ystod y rhaglen integreiddio trwy feithrin perthnasoedd rhwng proffesiynau a sefydliadau, pontio'r bwlch rhwng gwasanaethau a theuluoedd, a darparu'r gallu i oruchwylio prosiectau a'r rhaglen ar draws y braenarwyr.

Ers i'r rhaglen integreiddio ddod i ben, mae cydgysylltu wedi bod yn anoddach yn sgil colli staff. Heb gyllid pwrpasol, collodd y rhan fwyaf o fraenarwyr eu cydgysylltwyr prosiect ac felly mae llawer o'r gwaith cydgysylltu wedi lleihau neu ddod i ben heb neb i'w symud yn ei flaen. Lle mae wedi bod yn bosibl i rywfaint o waith cydgysylltu barhau ar ôl y rhaglen, nid yw hyn wedi digwydd i'r un graddau ac y gwelwyd gydag adnoddau’r rhaglen integreiddio.

Roedd cydgysylltu gwasanaethau hefyd yn amlwg lle roedd cyfranogwyr mewn grwpiau ffocws yn trafod manteisio ar elfennau o raglenni blynyddoedd cynnar eraill. Roedd hyn yn cynnwys adeiladu'r cynnig Dechrau'n Deg i ardaloedd eraill neu lenwi bylchau yn y gwasanaeth er mwyn ehangu'r cynnig. Roedd hyn hefyd yn cynnwys uno rhai elfennau o raglenni, megis yn y cysylltiadau a gyflwynwyd i deuluoedd. Nododd cyfranogwyr eu bod hefyd wedi manteisio ar allu ac arbenigedd staff o raglenni presennol, yn ogystal â thynnu ffrydiau cyllido at ei gilydd. Mewn rhai achosion, rhannwyd adnoddau fel hyfforddiant neu gyllid staff o'r rhaglen integreiddio gyda raglenni eraill a oedd eisoes yn bodoli.

Mae’r 'ehangu' a drafodir mewn grwpiau ffocws hefyd yn nodi cydgysylltu. Roedd hyn yn cynnwys ehangu gwasanaethau a gynigir o dan Dechrau'n Deg, gan ddechrau mewn ardal beilot, yna i awdurdod lleol cyfan. Roedd hyn hefyd yn cynnwys ehangu o un sefydliad i rai eraill yn y rhanbarth. Cyflwynodd rhai sefydliadau brosiectau neu wasanaethau yn gyntaf naill ai gan fod ganddynt y gallu i fapio lle roedd angen gwasanaethau neu fod ganddynt fwy o angen wedi'i nodi. Rhannwyd hyfforddiant ac adnoddau hefyd yn rhanbarthol.

Ar y cyfan, teimlwyd bod amseroldeb y gwasanaethau a ddarperir wedi gwella o dan y rhaglen integreiddio. Roedd y ffocws ar ddull sy'n cael ei arwain gan anghenion (yn hytrach na dull daearyddol), yn golygu bod mwy o deuluoedd yn cael cymorth ar yr amser cywir, ac yn y ffordd a'r lle cywir.

Fodd bynnag, mae adborth yn dangos y byddai wedi bod yn bosibl gwella amseroldeb y cymorth i deuluoedd pe bai mwy o amser wedi’i ganiatáu ar gyfer y rhaglen ac integreiddio. Roedd oedi wrth recriwtio yn effeithio ar weithredu gwasanaethau mewn rhai achosion, sy'n golygu bod momentwm prosiectau ac ymwreiddio gwasanaethau wedi digwydd yn ddiweddarach. Teimlwyd bod y cyfyngiad amser hwn hefyd yn lleihau gallu partneriaid i asesu a oedd teuluoedd yn derbyn y cymorth cywir ar yr amser cywir, ac yn y ffordd gywir.

### 5.1.3. Symleiddio llwybrau atgyfeirio

Roedd tystiolaeth o lwybrau atgyfeirio yn cael eu symleiddio o dan y rhaglen integreiddio oherwydd ffactorau fel adnabod ac ymyrraeth gynharach. Cafodd atgyfeiriadau eu safoni mewn rhai ardaloedd a oedd yn lleihau’r baich ar staff a theuluoedd fel ei gilydd. Roedd gwelliannau o ran gweithio mewn partneriaeth rhwng proffesiynau yn golygu llai o atgyfeiriadau amhriodol, gan helpu i symleiddio'r broses.

Fodd bynnag, roedd natur gymhleth tirwedd y blynyddoedd cynnar yn golygu bod rhai teuluoedd yn cael trafferth llywio atgyfeiriadau a gwasanaethau. Mae adroddiadau yn dangos bod teuluoedd weithiau yn gorfod chwilio am gymorth eu hunain gyda darparwyr gwasanaeth oherwydd prinder gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael. Roedd yna hefyd achosion o asesiadau atgyfeirio yn dal i fod yn gymhleth, a bod hynny’n achosi oedi yn y broses gyffredinol. Nid oedd llwybrau atgyfeirio bob amser yn cael eu deall yn llawn gan bartneriaid, sy'n golygu nad oeddent wedi'u symleiddio.

### 5.1.4. Gwell dealltwriaeth o angen lleol

Rhoddodd y rhaglen integreiddio gyfle i bartneriaid ddatblygu dull o ddarparu gwasanaethau sy'n seiliedig ar anghenion. Roedd hyn yn llwyddiannus yn gyffredinol yn ystod y rhaglen integreiddio, er bod hyn wedi gostwng ers i gyllid y rhaglen integreiddio ddod i ben. Mae rhai braenarwyr wedi dychwelyd i fodel Dechrau'n Deg yn hytrach na darparu gwasanaethau a arweinir gan anghenion fel y'u datblygwyd yn ystod y rhaglen integreiddio.

Roedd enghreifftiau o ffyrdd y datblygwyd gwell dealltwriaeth o anghenion y boblogaeth leol yn cynnwys ymarferion mapio, casglu a dadansoddi data, rhannu dysgu ac addasu gwasanaethau. Roedd canfyddiadau hefyd yn nodi siarad â theuluoedd i gasglu eu barn ar wasanaethau. Roedd y gweithgareddau hyn yn golygu y gellid ail-flaenoriaethu gwasanaethau, nodi bylchau ac enghreifftiau o ddyblygu, a gellid gwneud ymrwymiadau i addasu gwasanaethau (lle bo'n bosibl) i ddiwallu anghenion lleol. Mae'n bwysig nodi nad oedd hyn bob amser yn bosibl oherwydd anghenion cystadleuol mewn gwahanol awdurdodau lleol ac adnoddau cyfyngedig. Fodd bynnag, roedd gwell cydweithredu a llywodraethu yn golygu bod hyblygrwydd yn ymwreiddio’n well mewn gwasanaethau blynyddoedd cynnar dros amser mewn llawer o achosion.

Mewn grwpiau ffocws, disgrifiodd cyfranogwyr bwysigrwydd parhau i ymgorffori anghenion defnyddwyr gwasanaeth wrth ddylunio a darparu gwasanaethau yn y dyfodol. Byddai hyn yn gwella wrth iddo ddod yn 'fusnes fel arfer' mewn rolau, a thrwy sicrhau cefnogaeth ar lefel uwch.

## 5.2. Archwilio’r galluogwyr a rhwystrau o ran integreiddio systemau llwyddiannus

Roedd y data yn darparu themâu (cydweithio, llywodraethu, cynaliadwyedd, staff, cyllid a data) lle roedd integreiddio a thrawsnewid gwasanaethau blynyddoedd cynnar wedi digwydd. Nodwyd galluogwyr a rhwystrau o ran integreiddio trwy'r adolygiad o ddogfennau a dadansoddiadau grwpiau ffocws o dan bob un o'r themâu hyn, a grynhoir yma.

### 5.2.1. Galluogwyr

Roedd y ffactorau sy'n cefnogi cydweithio yn cynnwys: sefydlu partneriaethau, cael rolau pwrpasol i gefnogi cydweithio a gweithio mewn partneriaeth, arweinyddiaeth gefnogol a ffactorau ymarferol (megis cynnal cyfarfodydd rheolaidd, cyd-leoli a rhwydweithio). Datblygodd perthnasoedd ar draws gwasanaethau neu sefydliadau na fyddai wedi datblygu fel arall, ynghyd â’r ddealltwriaeth honno o rolau a chyfrifoldebau staff eraill. Rhoddodd y rhaglen integreiddio gyfle – 'catalydd' – i ddod â phartneriaid at ei gilydd a gweithio ar sail ranbarthol. Rhannwyd dysgu ar draws y rhanbarth lle lansiwyd dulliau gwahanol neu lle ymunodd sefydliadau yn ddiweddarach yn y broses. Adroddwyd bod perthnasoedd a ddatblygwyd yn ystod y rhaglen integreiddio yn parhau ac yn cefnogi sgyrsiau yn i’r dyfodol, yn ogystal â bod ymrwymiad i gynnal trefniadau gweithio mewn rhai achosion.

Roedd ffactorau sy’n galluogi llywodraethu effeithiol o dan y rhaglen integreiddio yn cynnwys arweinyddiaeth gref, aelodaeth o grwpiau llywodraethu a grwpiau sy’n gynrychioladol, cael pwrpas clir, a gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Roedd y rhaglen integreiddio yn cefnogi blaenoriaethu neu gefnogaeth gan uwch arweinwyr. Mae cael cyfeiriad rhanbarthol yn cefnogi pŵer dylanwadu o fewn sefydliadau unigol.

Galluogwyd staff i weithio tuag at integreiddio a thrawsnewid yn effeithiol gyda mesurau recriwtio a chadw llwyddiannus ar waith, digon o gyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a datblygu a gweithio mewn partneriaeth â gweithwyr proffesiynol eraill. Roedd cael rolau wedi’u neilltuo i integreiddio gwasanaethau a systemau (fel cydgysylltwyr prosiectau) yn caniatáu i newid cadarnhaol ddigwydd, yn ogystal ag ymdrechion staff clinigol a gweinyddol a oedd yn cynorthwyo i drawsnewid gwasanaethau. Roedd staff yn gweithio'n fwy effeithiol pan oedd morâl yn uchel; roedd teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi’n bwysig iddynt, yn ogystal â chael arweinyddiaeth gefnogol a brwdfrydig.

Roedd y ffactorau a oedd yn cefnogi’r defnydd gorau o gyllid y rhaglen integreiddio yn cynnwys defnyddio adnoddau i’r eithaf a chyllidebu'n llwyddiannus.

Roedd gwella arferion casglu a rhannu data yn helpu i gefnogi integreiddio a thrawsnewid y blynyddoedd cynnar. Roedd gweithredu mesurau i werthuso'r rhaglen yn cefnogi’r gwaith o wneud penderfyniadau effeithiol.

### 5.2.2. Rhwystrau

Roedd rhwystrau o ran cydweithio yn cynnwys gwahaniaethau rhwng sefydliadau fel diwylliannau ac ieithoedd, blaenoriaethau a dulliau, arweinyddiaeth, cyfyngiadau o ran rhannu gwybodaeth. Mewn rhai achosion, adroddwyd bod gwahaniaethau yn y ffordd y mae gwasanaethau yn cael eu sefydlu ar draws awdurdodau lleol yn creu anawsterau ar gyfer rhaglen waith ranbarthol. Roedd y rhwystrau hefyd yn cynnwys capasiti cyfyngedig a phwysau a galw cynyddol ar wasanaethau, diffyg llywodraethu priodol a chymhlethdod y dirwedd ariannu (gyda gwahanol raglenni yn creu gwrthdaro rhwng cylchoedd gwaith a mecanweithiau cyllido tymor byr yn lleihau'r cymhelliant i fuddsoddi mewn perthnasoedd proffesiynol).

Nodwyd rhwystrau o ran llywodraethu effeithiol fel strwythurau llywodraethu cymhleth, diffyg atebolrwydd gan gyrff a grwpiau llywodraethu, cyfeiriad strategol a chefnogaeth annigonol, ac anawsterau wrth geisio nodi'r bobl 'iawn' i ymwneud â strategaeth. Roedd heriau hefyd yn ymwneud â llywodraethu’r rhaglen gyda Llywodraeth Cymru yn ystod y rhaglen integreiddio. Roedd hyn yn cynnwys diffyg eglurder a chanllawiau ar yr hyn yr oedd Llywodraeth Cymru eisiau ei gyflawni, gan gynnwys integreiddio yng nghyd-destun amserlenni a chyllideb y rhaglen integreiddio, a diffyg cefnogaeth barhaus. Roedd hyn hefyd yn cynnwys heriau gydag amserlenni fel oedi o ran ariannu a methu â rhoi digon o amser i gyflwyno cynlluniau busnes i Lywodraeth Cymru. Adroddwyd hefyd bod gofynion monitro a gwerthuso ar gyfer y rhaglen integreiddio yn aneglur, neu eu bod yn feichus.

Mae problemau gyda sefydlogrwydd a chynaliadwyedd, recriwtio a chadw, a chapasiti wedi effeithio ar allu staff i weithio tuag at integreiddio. Roedd heriau hefyd o ran ddiwallu anghenion hyfforddi'r holl staff, yn enwedig pan oedd trosiant yn uchel a hynny’n cynyddu'r galw am hyfforddiant. Weithiau nid oedd staff yn gallu mynychu hyfforddiant oherwydd diffyg capasiti.

Roedd ffactorau demograffig ehangach wedi effeithio ar y gweithlu, er enghraifft, gweithlu sy’n heneiddio a heriau o ran gallu recriwtio siaradwyr Cymraeg i ddarparu gwasanaethau i deuluoedd sy'n siarad Cymraeg.

Nodwyd llawer o rwystrau ariannu yn yr adolygiad o ddogfennau a'r grwpiau ffocws. Y prif rwystr ariannu oedd nad oedd digon o arian i barhau â'r gwaith integreiddio. Roedd effaith cyllid tymor byr yn bellgyrhaeddol; gan gynnwys cyfleu neges nad oedd integreiddio systemau yn flaenoriaeth go iawn, a thrwy hynny beryglu gwaddol y rhaglen. Roedd pryder na fyddai anghenion plant a theuluoedd yn cael eu diwallu oherwydd diffyg cyllid. Roedd effaith hyn ar ganlyniadau i blant a theuluoedd yn poeni braenarwyr.

Yn ystod y rhaglen, roedd prosesau ariannu cymhleth a hir yn achosi dryswch. Teimlwyd hefyd fod y ffordd yr oedd Llywodraeth Cymru yn trin cyllid yn anghynhyrchiol. Roedd yr adroddiadau yn cynnwys diffyg cyfathrebu effeithiol gan Lywodraeth Cymru, gydag oedi o ran derbyn cyllid a gwneud penderfyniadau. Hefyd, roedd anhyblygrwydd gan fod cyllid yn cael ei osod i bob blwyddyn ariannol ac nid oedd modd ei ddargyfeirio; roedd hynny’n golygu bod sefydliadau wedi'u cyfyngu o ran pryd y gallent wario arian. Gyda'i gilydd, effeithiodd yr holl oedi a'r strwythur anhyblyg ar y modd y darparwyd gwasanaethau ar lawr

gwlad, gan gynnwys aros i ddechrau darparu gwasanaethau, amserlenni cyflenwi byr, recriwtio a hyfforddiant staff, a chynnydd tuag wireddu nodau'r rhaglen.

Roedd rhwystrau o ran defnyddio data yn effeithiol yn cynnwys materion gyda chasglu data, dadansoddi, ansawdd data, diogelu data, samplu, lledaenu a materion TG. Byddai angen gormod o adnoddau i ddatrys llawer o'r problemau hyn yn ystod y rhaglen integreiddio.

### 5.2.3. Gofynion monitro a gwerthuso

Nid oedd llawer o wybodaeth ar gael am brofiad y braenarwyr o'r gofynion monitro a gwerthuso. Yn hytrach, roedd adroddiadau yn tueddu i ddisgrifio pa weithgaredd a wnaed gan nodi galluogwyr a rhwystrau wrth werthuso prosiectau a dangos effaith. Weithiau cafwyd sylwadau ar y gallu i werthuso mewn grwpiau ffocws.

Roedd materion o ran data (ynghylch casglu, dadansoddi a lledaenu) yn golygu bod llawer o fylchau mewn tystiolaeth yn parhau dros gyfnod y rhaglen. Roedd hyn yn golygu bod y gallu i ddyrannu adnoddau lle roedd eu hangen fwyaf yn gyfyngedig.

Codwyd pryderon ynghylch sefydlu prosesau monitro a gwerthuso data yn gynnar oherwydd yr amser oedd ei angen i weithredu'r prosesau hyn ar ben yr amser cyffredinol cyfyngedig ar gyfer y rhaglen integreiddio a darparu gwasanaethau. Roedd hyn wedyn yn effeithio ar y gallu i werthuso. Mewn rhai achosion, roedd diffyg ystyriaeth ar ddechrau prosiectau o'r data sy'n ofynnol ar gyfer gwerthuso, neu gasglu llinell sylfaen, sy'n golygu bod gwerthuso'n digwydd yn ôl-weithredol ac yn llai defnyddiol. Hefyd, her arall oedd y ffaith nad oedd amser penodol ar ddiwedd y rhaglen integreiddio i fyfyrio ar ganlyniadau a dysgu' roedd hyn yn amharu ar y gwaith cyflenwi. Adroddwyd ei bod yn anodd iawn cipio rhai effeithiau gan na fyddent yn cael eu gweld tan y tymor hwy.

Roedd enghreifftiau o weithgarwch monitro a gwerthuso yn cael ei gefnogi gan bartneriaethau sefydledig. Fel y disgrifir mewn adroddiadau, roedd rôl cydgysylltydd y prosiect yn cefnogi'r gwaith o gasglu a gwerthuso data, a ystyriwyd yn bwysig i lwyddiant y rhaglen.

Yn y dyfodol, nodwyd bod angen gosod canlyniadau mwy eglur gyda Llywodraeth Cymru gyda hyblygrwydd o ran sut mae'r rhain yn cael eu cyflawni a sut maent yn cael eu mesur. Hefyd, am lai o ddibyniaeth lem ar dargedau gwasanaeth o fewn sefydliadau braenaru, sydd efallai ddim yn adlewyrchu profiad byw ac effeithiau ar deuluoedd.

## 5.3. Deall i ba raddau y llwyddwyd i integreiddio systemau

Ystyriwyd bod y rhaglen integreiddio yn helpu i gymryd camau tuag at integreiddio, ond na lwyddwyd i integreiddio system gyfan yn ystod oes y rhaglen. Mae'n ymddangos bod pocedi penodol o weithio integredig ar waith, yn hytrach nag integreiddio ar sail system gyfan.

Roedd agweddau ar integreiddio y mae'r rhaglen integreiddio wedi eu cefnogi yn cynnwys datblygu perthnasoedd a rhwydweithiau a dod â gwasanaethau at ei gilydd i feddwl ar sail ranbarthol am anghenion a newidiadau. Hefyd, gallu treialu gwahanol brosiectau ar draws sefydliadau a rhannu'r dysgu hwn ar draws y rhanbarth.

Roedd rhai braenarwyr hefyd yn teimlo bod y rhaglen integreiddio wedi cefnogi integreiddio o ran sicrhau cefnogaeth uwch swyddogion a'u cymell i flaenoriaethu'r gwaith yn eu sefydliadau. Fodd bynnag, nododd eraill bod sicrhau cefnogaeth ar lefel uwch yn her gan nad oedd blaenoriaethau sefydliadol yn cyd-fynd, ynghyd â diffyg awydd am newid, yn ogystal â heriau o ran nodi pwy ddylai fod yn cymryd rhan strategol.

Mae cyfnod byr y rhaglen integreiddio yn ffactor arall sy'n effeithio ar yr integreiddio systemau a ddigwyddodd. Nid oedd y rhaglen yn ystyried yr amser y mae'n ei gymryd i gynllunio a recriwtio, ac roedd hynny wedyn yn golygu bod llai fyth o amser ar gyfer gweithredu. Nid oedd amser ychwaith i gasglu tystiolaeth o'r gwaith. O ganlyniad i hynny, nid oedd rhai prosiectau a ddewiswyd yn drawsnewidiol.

Dangosodd adroddiadau hefyd fod angen eglurder ynghylch union ystyr system integredig yn y cyd-destun hwn, ac y byddai wedi helpu i lywio gwaith. Yn wir, nodwyd gan rai nad yw safoni gwasanaethau yn rhanbarthol bob amser yn addas oherwydd gwahaniaethau rhwng awdurdodau lleol ac y dylai integreiddio ganiatáu ar gyfer yr amrywiad hwn.

### 5.3.1. Prif ffrydio i ddod yn rhan o fusnes fel arfer

O'r adroddiadau a gynhwyswyd yn yr adolygiad o ddogfennau, nododd braenarwyr y gwaith yr oeddent yn bwriadu bwrw ymlaen ag ef a oedd yn cynnwys (heb fod yn gynhwysfawr):

- cefnogaeth i deuluoedd, gan gynnwys ar gyfnodau penodol (megis amenedigol), ar bynciau penodol (megis rhianta neu leferydd, iaith a chyfathrebu), neu drwy fecanweithiau penodol (megis ysgolion, hyrwyddwyr rhieni, a grwpiau cymunedol)
- gweithgaredd o ran data, megis systemau a rhannu gwybodaeth
- gweithgaredd o ran y gweithlu, megis hyfforddi a recriwtio/cadw rolau
- datblygu cynnwys digidol, megis cyfathrebu a gwefannau
- deall anghenion y boblogaeth

Fodd bynnag, yn yr adroddiadau hyn a gynhwyswyd yn yr adolygiad o ddogfennau, roedd ansicrwydd cyffredinol ar adeg ysgrifennu ynghylch sut y byddai'r gwaith hwn yn cael ei symud ymlaen. Felly, gellir tynnu ar sylwadau o'r grwpiau ffocws a oedd yn cyfeirio at enghreifftiau o waith sydd wedi parhau a dod yn ymarfer rheolaidd.

Mewn un achos, roedd y model cyflawni cyfan a ddatblygwyd yn ystod y rhaglen integreiddio yn parhau i fod wedi'i ymwreiddio. Fodd bynnag, ni phrofwyd hyn ymhobman. Yn yr achosion eraill, roedd y ffyrdd y mae gwaith y rhaglen integreiddio i'w weld mewn ymarfer rheolaidd yn cynnwys:

- y dull neu'r ffordd o weithio a ddefnyddir i gynllunio gwasanaethau
- cymorth penodol sydd ar gael i deuluoedd yn seiliedig ar anghenion (megis lleferydd, iaith a chyfathrebu, anghenion ychwanegol, a'r cyfnod cynenedigol)
- rhannu dysgu ac arfer gorau o fewn a thu allan i ranbarthau
- mynediad parhaus at gynnig hyfforddiant rhanbarthol cyson sy'n diwallu anghenion y gweithlu

Roedd y ffactorau a helpodd i'r integreiddio barhau yn cynnwys parhad perthnasoedd a gweithio mewn partneriaeth a sefydlwyd yn ystod y rhaglen integreiddio, gan gynnwys dealltwriaeth o rolau eraill. Nodwyd ymroddiad ac ymdrech staff hefyd. Roedd ffactorau cefnogol hefyd yn cynnwys cefnogaeth ac ymrwymiad gan arweinyddiaeth, a gwelededd neu gryfder lleisiau staff a oedd yn golygu bod newid yn cael ei gefnogi ar yr uwch lefel hon. Roedd adroddiadau hefyd o barhad trwy gynnal dulliau o rannu gwybodaeth, gan gynnwys y systemau a ddatblygwyd.  Yn olaf, roedd rhai wedi gallu sicrhau cyllid amgen a oedd yn eu galluogi i barhau â'r gwaith integreiddio. Roedd adroddiadau hefyd am staff yn cael eu i raglenni blynyddoedd cynnar eraill.

Er gwaethaf yr enghreifftiau cadarnhaol hyn, nododd cyfranogwyr yn gyffredinol mewn grwpiau ffocws fod llai o waith integreiddio ers diwedd y rhaglen integreiddio. Roedd rhai yn teimlo nad oedd integreiddio parhaus yn bosibl heb gefnogaeth y rhaglen integreiddio.

Roedd strwythurau llywodraethu yn enghraifft o faes nad oedd yn parhau mewn arfer rheolaidd. Nodwyd pwysigrwydd llywodraethu mewn cynaliadwyedd, yn enwedig ar gyfer cynnal y byrddau, grwpiau neu gyfarfodydd a sefydlwyd o dan y rhaglen integreiddio, a pharhau i ddefnyddio strwythurau presennol fel mecanwaith i symbylu gwaith integreiddio. O'r grwpiau ffocws, fodd bynnag, mae'n ymddangos nad oedd rhai strwythurau wedi'u cynnal, neu bod rhai a oedd yn dal ar waith yn cael eu disgrifio fel rhai 'gwanedig'. Roedd yr heriau yn cynnwys dod â phobl at ei gilydd a chael partneriaid ac arweinwyr i flaenoriaethu integreiddio heb gyllid pwrpasol a chyfeiriad strategol gan Lywodraeth Cymru. Dywedodd rhai eu bod yn gweithio'n weithredol ar lywodraethu lleol a rhanbarthol, gan gynnwys datblygu strategaeth a blaenoriaethau. Nodwyd bod y gwaith hwn yn bwysig ar gyfer sicrhau cefnogaeth neu ddiddordeb partneriaid ac arweinwyr. Byddai cyfeiriad cenedlaethol yn helpu hyn. Roedd rhai yn glir mai strwythur y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yw'r mecanwaith priodol ar gyfer bwrw ymlaen ag integreiddio'r blynyddoedd cynnar yn y dyfodol. Roedd eraill yn ansicr ble mae integreiddio'r blynyddoedd cynnar yn gorwedd ac eisiau eglurder, yn ogystal ag arweiniad ar sut olwg sydd ar lywodraethu 'da' ar gyfer rhaglen draws-sector. Pe byddai rhaglen ar waith yn y dyfodol, roedd rhai yn teimlo y dylid adolygu'r defnydd o Fyrddau Gwasanaeth Cyhoeddus gan fod cwestiynau ynghylch effeithiolrwydd y mecanwaith cyllido hwn.

Roedd meysydd eraill nad oeddent wedi parhau i fod yn ymarfer rheolaidd yn cynnwys llai o gydweithio a'r perthnasoedd a ddatblygwyd yn gwanhau, llai o weithio ar lefel ranbarthol, a methiant i gyflwyno hyfforddiant rhanbarthol gyson.

Tynnodd y grwpiau ffocws sylw hefyd at ble roedd plant a theuluoedd wedi cael eu heffeithio ers i'r rhaglen integreiddio ddod i ben oherwydd gostyngiad yn y cymorth mewn rhyw fodd. Mae hyn yn dangos nad oedd rhai prosiectau neu wasanaethau wedi parhau i fod yn rhan o fusnes fel arfer.

Roedd y ffactorau a oedd yn rhwystro gwaith integreiddio rhag parhau i ddod yn arfer rheolaidd yn cynnwys:

- anallu i sicrhau cyllid amgen ac anawsterau ymestyn cyllid o ffynonellau/cronfeydd eraill; roedd hyn yn waeth i sefydliadau llai o faint sydd â llai o hyblygrwydd
- cyfyngiadau o ran capasiti staff, mewn rolau darparu gwasanaethau/rolau gweithredol ac yn strategol
- colli rolau/staff penodol ar ôl i gyllid y rhaglen integreiddio ddod i ben, a cholli eu gwybodaeth
- cefnogaeth isel neu lai o ymrwymiad gan uwch arweinwyr
- blaenoriaethau a phrosesau yn gwrthdaro ar draws y rhanbarth
- systemau rhannu data a gwybodaeth nad ydynt yn addas i'r diben
- anawsterau o ran dangos effaith gwaith y rhaglen integreiddio, sy'n effeithio ar ymrwymiad

# 6. Argymhellion

**Argymhelliad 1: Llywodraeth Cymru i ystyried yr anghenion integreiddio ar gyfer y dyfodol**

Roedd y canfyddiadau yn tynnu sylw at yr angen i Lywodraeth Cymru roi cyllid, strategaethau, agendâu a chanllawiau penodol ar waith Mae’r rhain yn cynnwys:

- meddwl yn fwy cyfannol am wahanol raglenni blynyddoedd cynnar a gyflwynir, darparu cydlyniad, a symleiddio a chydgysylltu’r dirwedd ariannu
- cael strategaeth glir sy'n darparu ymrwymiad a chyfeiriad ynglŷn ag agenda integreiddio’r blynyddoedd cynnar, gan gynnwys ystyried sut mae'n cyd-fynd â fframweithiau a grwpiau cenedlaethol eraill
- datblygu canllawiau sy'n egluro ac yn rhoi cyfarwyddyd ar yr hyn a olygir gan 'system integredig', sy'n caniatáu amrywiadau o fewn y rhanbarthau wrth ddarparu gwasanaethau
- datblygu canllawiau sy'n gosod ystod oedran gyson ar gyfer y 'blynyddoedd cynnar'
- datblygu canllawiau ynghylch mecanweithiau llywodraethu effeithiol ar gyfer integreiddio’r blynyddoedd cynnar
- ystyried dull neu strategaeth ynghylch system integredig ar gyfer rhannu data a gwybodaeth
- ystyried dull neu strategaeth ynghylch darpariaeth sy'n seiliedig ar anghenion yn hytrach nag ar ddaearyddiaeth

Dylid adolygu'r rhain a'u trafod gyda chydweithwyr angenrheidiol, gyda chynllun ar waith i'w symud ymlaen lle bo hynny'n briodol ac yn ymarferol.

**Argymhelliad 2a: Llywodraeth Cymru i ystyried anghenion o ran cyllid ar gyfer unrhyw fersiwn o raglen yn y dyfodol**

Mae'r canfyddiadau yn tynnu sylw at anghenion ynghylch prosesau ariannu pe bai yna fersiwn o'r rhaglen integreiddio yn y dyfodol, sy'n cynnwys:

- sicrhau bod cyllid ar gael yn y dyfodol
- os oes cyllid ar gael yn y dyfodol, cael amserlen hirach, amserlenni sy'n caniatáu amser ar gyfer cynllunio a recriwtio yn ogystal â gwerthuso, a strategaeth ymadael glir
- hyblygrwydd i addasu gwaith i gyflawni canlyniadau ac wrth reoli gwariant
- myfyrio ar y defnydd o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus fel mecanwaith ariannu

**Argymhelliad 2b: Llywodraeth Cymru i ystyried anghenion o ran monitro a gwerthuso ar gyfer unrhyw fersiwn o raglen yn y dyfodol**

Mae’r ymchwil yn dangos y dylai Llywodraeth Cymru ystyried y dull o fonitro a gwerthuso pe bai fersiwn bellach o'r rhaglen integreiddio yn y dyfodol.

Mae canfyddiadau'n awgrymu bod angen cael canlyniadau clir a hyblygrwydd wrth fesur canlyniadau.

Argymhellir y dylid ceisio cymorth ymchwil o’r cychwyn cyntaf i helpu i ddatblygu cynlluniau monitro a gwerthuso. Dylid gosod canlyniadau a mesurau gyda braenarwyr o'r cychwyn cyntaf, fel y gellir casglu'r wybodaeth angenrheidiol ar y waelodlin ac yna wrth i'r gwaith fynd rhagddo. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod gwybodaeth am y meysydd o ddiddordeb ar gael pan gyrhaeddir y cam gwerthuso. Ar ben hynny, byddai defnyddio cymorth ymchwil i sefydlu gwerthuso fel bod mwy o gysondeb yn y prosesau adrodd ar draws braenarwyr yn fuddiol.

**Argymhelliad 3: Dylai braenarwyr ystyried dulliau lleol a rhanbarthol ar gyfer integreiddio yn y dyfodol.**

Mae'r canfyddiadau yn tynnu sylw at feysydd i'w datblygu yn rhanbarthol ac yn lleol, gyda mewnbwn a chefnogaeth gan unrhyw gyfeiriad, arweiniad a chyllid cenedlaethol yn unol ag argymhelliad 1. Mae'r meysydd i'w datblygu yn cynnwys:

- trefniadau a strategaethau llywodraethu, gydag ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o strategaethau ac iaith a rennir ar bob lefel o'r sefydliadau
- defnyddio’r gwersi a ddysgwyd o'r rhaglen integreiddio
- defnyddio mewnwelediadau ac adborth gan deuluoedd neu ddefnyddwyr gwasanaethau
- sicrhau ymgysylltiad a chefnogaeth gan swyddogion lefel uwch a phartneriaid ehangach
- neilltuo capasiti staff
- ail-adeiladu, neu gynnal, perthnasoedd a chysylltiadau ar draws gwasanaethau a sefydliadau
- datblygu gweithdrefnau a systemau rhannu gwybodaeth